



Rhif 6 Gorffennaf 2010 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams



Cyhoeddwyd gyda chymorth:




Rhif 6 Gorffennaf 2010 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

Cyhoeddwyd gyda chymorth y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg



Bwrdd Golygyddol

Golygydd:	Yr Athro Ioan M. Williams
Cynorthwydd Golygyddol:	Dr Gethin Rhys
Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol:	Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd
Aelodau'r Bwrdd Golygyddol:	Dr John Davies, Prifysgol Abertawe Dr Noel Davies, Coleg Prifysgol y Drindod Dr Prys Gruffydd, Prifysgol Abertawe Dr Carwyn Jones, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Bangor Dr Delyth Morris, Prifysgol Bangor Dr Andrew Parry, Prifysgol Glyndŵr Dr Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth Dr Karen Stöber, Prifysgol Aberystwyth Wyn Thomas, Prifysgol Bangor Yr Athro Colin Williams, Prifysgol Caerdydd Dr Daniel Williams, Prifysgol Abertawe Dr Einir Young, Prifysgol Bangor

e-Gyfnodolyn academiaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we ddwywaith y flwyddyn. Arferir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisiau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarwyr ar y wefan: www.gwerddon.org

Cyllidir *Gwerddon* gan y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.org neu drwy'r post: *Gwerddon*, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX.

ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*

www.gwerddon.org

Cynnwys

Crynodebau	5
Summaries	7
Erthygl 1: Dr Rhian Siân Hodges, " 'Tua'r goleuni': Rhesymau rhieni dros ddewis addysg Gymraeg i'w plant yng Nghwm Rhymni"	9
Erthygl 2: Cerys Jones, "Hinsawdd hanesyddol: Potensial ffynonellau dogfennol Cymru"	34
Erthygl 3: Dr Huw Lewis, "Y Gymraeg yn amod cyflogaeth: Cam derbyniol o safbwynt rhyddfrydol?"	55
Cyfranwyr	74

Crynodebau

Dr Rhian Siân Hodges, “ ‘Tua’r goleuni’: Rhesymau rhieni dros ddewis addysg Gymraeg i’w plant yng Nghwm Rhymini”

Mae’r system addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru eisoes yn arf cynllunio ieithyddol effeithiol er mwyn trosglwyddo’r iaith Gymraeg yng Nghymru. Yn ôl Cyfrifiad 2001 mae cynnydd amlwg ymhlith siaradwyr Cymraeg 3–15 oed, ac yn arbennig siaradwyr Cymraeg yn ne-ddwyrain Cymru ers canlyniadau Cyfrifiad 1991. Bwriad y papur hwn yw mynd tu hwnt i’r ystadegau meintiol a chanolbwyntio ar yr ansoddol drwy ddarganfod y prif resymau paham y mae rhieni yn dewis y system addysg hon i’w plant. Lleoliad yr astudiaeth yw Cwm Rhymini, sir Gaerffili. Gweinyddwyd ymhlith rhieni sectorau’r ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd yng Nghwm Rhymini gyfuniad o holiaduron meintiol a chyfweiliadau ansoddol dwys er mwyn cyflawni’r astudiaeth hon. Y rhesymau dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i’w plant yn ôl rhieni sectorau meithrin, cynradd ac uwchradd y sampl oedd rhesymau diwylliannol, addysgol, economaidd a phersonol, fel ei gilydd. Fodd bynnag, rhaid nodi o’r cychwyn mai rhesymau diwylliannol yw prif resymau rhieni’r ardal dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i’w plant, yn hytrach na rhesymau economaidd a nodwyd mewn sawl astudiaeth flaenorol megis astudiaeth Williams *et al*, (1978) ar addysg ddwyieithog yn y Rhondda. Cam cyntaf mewn corpws o waith i’r dyfodol yw’r astudiaeth ac un sy’n gobeithio llenwi’r lacunae presennol ym maes Cymdeithaseg iaith yng Nghymru, yn arbennig o ystyried bod yna ddiffyg amlwg mewn astudiaethau Cymdeithaseg iaith drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru.

Cerys Jones: “Hinsawdd hanesyddol: Potensial ffynonellau dogfennol Cymru”

Gydag ansicrwydd yn sgil y newid yn yr hinsawdd, mae adluniadau o gofnodion parameteorolegol a ffenolegol yn darparu sail gref ar gyfer dadansoddi’r hinsawdd nawr ac yn y gorffennol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ymchwil sydd wedi’i chwblhau ynghylch hinsawdd hanesyddol Cymru, sy’n amrywio drwy’r wlad oherwydd ffactorau megis topograffeg a chylchrediad atmosfferig. Mae hyn yn arbennig o wir am orllewin Cymru, sydd ag amrywiaeth o amgylcheddau, o ‘ddiffieithwch gwyrdd’ yr ucheldir i’r gwastatiroedd arfordirol ffrwythlon, lle gellid adlunio hanes helaeth o bosibl o adnoddau dogfennol digyffwrdd. Mae’r potensial yn anferth gan fod ffynonellau posibl gwybodaeth feteorolegol yn cynnwys yr holl ddogfennau crefyddol, swyddogol a phersonol, a allai gynnig cipolwg ar y berthynas rhwng y Cymry a’r tywydd.

Dr Huw Lewis, “Y Gymraeg yn amod cyflogaeth: Cam derbyniol o safbwynt rhyddfrydol?”

Mae polisïau a gyflwynwyd i adfywio rhagolygon ieithoedd lleiafrifol wedi bod yn ffynhonnell cryn anesmwythyd yn aml. Weithiau, mae gwrthwynebiadau i'r polisïau hyn yn cael eu mynegi mewn termau moesol, gan gyhuddo rhai mesurau o dorri egwyddorion normadol megis rhyddid unigol a chyfle cyfartal. O ystyried eu natur, mae'r gwrthwynebiadau moesol hyn yn cynnig cwestiynau diddorol i ryddfrydwyr. Felly, sut y dylai rhyddfrydwyr ymateb? Bydd yr erthygl hon yn archwilio'r cwestiwn hwn drwy ganolbwyntio ar un agwedd ddadleuol ar bolisi iaith yng Nghymru: y camau a gymerwyd i osod gofynion o ran yr iaith Gymraeg ar gyfer rhai swyddi yn y sector cyhoeddus. Dyma arfer sydd wedi creu cryn ddadlau, gyda gwrthwynebwyr yn honni ei fod yn tansellio'r ymrwymiad rhyddfrydol i gyfle cyfartal ym maes cyflogaeth ac, yn benodol, yn torri egwyddor penodi ar sail teilyngdod. A yw dadleuon o'r fath yn gwrthsefyll craffu? A yw gofynion ieithoedd lleiafrifol ym maes cyflogaeth yn mynd y tu hwnt i'r hyn y byddai rhyddfrydwyr yn ei ystyried yn dderbyniol, neu a ellir datblygu amddiffyniad cydlynol sydd â'i wreiddiau yn glir o fewn fframwaith rhyddfrydol?

Summaries

Dr Rhian Siân Hodges, “ ‘Towards the light’: Parents’ reasons for choosing Welsh education for their children in Cwm Rhymni”

Welsh-medium education has long been seen as an effective language planning tool in order to transmit the Welsh language in Wales. According to the 2001 Census, there has been a substantial increase in the numbers of Welsh speakers 3–15 years old, especially in south –east Wales, since the 1991 Census. The aim of this paper is to elaborate upon this quantitative data by providing qualitative data with regard to the main reasons and incentives for parents to choose this educational option for their children. The study location is Cwm Rhymni, Caerffili county. A combination of quantitative questionnaires and qualitative in-depth interviews were administered amongst parents from the meithrin, primary and secondary school sectors in Cwm Rhymni. The reasons why parents choose this educational system for their children were cultural, educational, economic and personal. However, it is pertinent to note from the outset, that the parents chose Welsh-medium education for their children in this area for mainly cultural reasons, rather than economic reasons which featured heavily in past studies such as research by Williams *et al.* (1978) on bilingual education in the Rhondda. This study is the first in a larger corpus of work and one that hopes to address the existing lacunae in the Sociology of Language in Wales, especially as there is a lack of Sociology of Language studies through the medium of Welsh in Wales.

Cerys Jones: “Historical climate: The potential of Wales’s documentary sources”

With the uncertainty of climate change, reconstructions from parameteorological and phenological records provide a strong basis for the analysis of past and present climate. However, very little research has been completed on the historical climate of Wales, which is variable throughout the country due to factors such as topography and atmospheric circulation. This is particularly so for west Wales, which has a diverse range of environments from the upland ‘green desert’ to the fertile coastal plains, where an extensive history may potentially be reconstructed from un-tapped documentary resources. The potential is immense as possible sources of meteorological information include all religious, official and personal documentation, which may provide an insight into the relationship between the Welsh and the weather.

Dr Huw Lewis, “Welsh as a job requirement: An acceptable step from a liberal perspective?”

Policies introduced to revive the prospects of minority languages have often been the source of substantial disquiet. At times, objections to these policies are expressed in moral terms, with certain measures being accused of transgressing normative principles such as individual freedom and equal opportunity. Given their nature, these moral objections pose interesting questions for liberals. Therefore, how should liberals respond? This article will explore this question by focusing on one controversial aspect of language policy in Wales: the steps taken to set Welsh-language requirements for some jobs in the public sector. This is a practice which has generated substantial debate, with opponents claiming that it undermines the liberal commitment to equality of opportunity in the field of employment and, in particular, transgresses the principle of appointing on the basis of merit. Do such arguments stand up to scrutiny? Do minority language requirements in the field of employment go beyond what liberals would consider acceptable, or can a coherent defence that is clearly rooted within a liberal framework be developed?

Dr Rhian Siân Hodges

**‘Tua’r goleuni’: Rhesymau
rhieni dros ddewis addysg
Gymraeg i’w plant yng
Nghwm Rhymni**

Rhif **6** Gorffennaf 2010 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

'Tua'r goleuni': Rhesymau rhieni dros ddewis addysg Gymraeg i'w plant yng Nghwm Rhymni

Dr Rhian Siân Hodges

Arf pwerus wrth drosglwyddo'r iaith Gymraeg yng Nghymru yw'r system addysg cyfrwng Cymraeg. Yn wir, cydnabydda Gruffudd (2000:195) mai'r unig gyfrwng sy'n tyfu yn nhermau defnydd iaith ymhlith yr ifanc yng Nghymru yw'r system addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, cydnabydda Baker (2004:i) mai un o elfennau creiddiol adfywio ieithyddol yw'r system addysg cyfrwng Cymraeg a gwêl y gyfundrefn fel 'a major plank in language revitalisation and language reversal'. Yn sicr, sylweddola Williams a Morris (2000) a C. H. Williams (2000), fod addysg cyfrwng Cymraeg yn lledu a datblygu'n amlwg ledled cymunedau ôl-ddiwydiannol Seisnigedig de Cymru. Ymhellach, cwmpa'r baich, yn ormodol efallai, ar y system addysg er mwyn cynnal yr iaith Gymraeg yn y Gymru gyfoes o ganlyniad i ddiffyg trosglwyddo'r Gymraeg ar aelwydydd Cymru (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1999:2). Atgyfnertha Lewis (2006:23) y safbwynt hwn drwy nodi bod mwy na 98 y cant o blant ysgolion cyfrwng Cymraeg de-ddwyrain Cymru (gan gynnwys Cwm Rhymni ei hun) yn dod o gartrefi di-Gymraeg, sy'n pwysleisio gwerth y system addysg i'r disgyblion hynny a'u teuluoedd.¹ Yn wir, cyfeiria C. H. Williams (2000:25) at gynnydd y system addysg fel prif sffêr trosglwyddo iaith yn sgil dyfodiad cymdeithas seciwlar, drefol ac ôl-ddiwydiannol.

Felly, un o feysydd academaidd mwyaf amserol a thestunol y gymdeithas sydd ohoni heddiw yw maes addysg cyfrwng Cymraeg, yn arbennig yng nghymoedd y de. Cyfnod o dwf ac o ffyniant presennol sydd i'r system hon ers ei sefydlu dros hanner can mlynedd yn ôl. Ychydig o enwau yn unig oedd ar gofrestrau ysgolion cyfrwng Cymraeg cynnar de Cymru, ond erbyn hyn mae rhestrau aros er mwyn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a rhieni'n brwydro dros lefydd i'w plant yn yr ysgolion hynny. Atgyfnertha Strategaeth Ieuenctid Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2006:9-10) y paradocs rhwng iaith ffurfiol y sffêr addysgol ac iaith anffurfiol y sffêr gymunedol:

The demand for Welsh-medium education continues, especially in the more Anglicised areas of south Wales, such as Rhondda, Cynon and Rhymni valleys and in Cardiff, where the community use of Welsh is relatively low.

Gostwng mae niferoedd ysgolion cyfrwng Saesneg am fod nifer cynyddol o rieni'n dewis y system addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, a bwriad y papur hwn yw ystyried paham y maent yn gwneud hynny. Er mwyn gosod yr astudiaeth bresennol yn ei chyd-destun ehangach rhaid pwysleisio bod astudio unrhyw agwedd ar yr iaith Gymraeg yn un hynod ddiddorol oherwydd bod y cyfnod presennol yn un o her ac o hwb amlwg i'r iaith.

¹ Roedd arolwg o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn 2004 pwysleisio llwyddiant yr ysgol ac yn 'cadarnhau i raddau helaeth ymdeimlad cryf o Gymreictod ymhlith disgyblion yr ysgol' er bod 99 y cant o'r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Gweler www.cwmrhymni.com/newyddion/Hanes%20yr%20arolwg.htm (Cyrchwyd 1 Mai 2010).

Cydnabu Aitchison a Carter (2000:viii) hyn wrth nodi bod y Gymraeg bellach yn wynebu cyfnod tyngedfennol yn ei hanes: 'The Welsh language is clearly at a critical juncture in its long history.'

Yn wir, mae'n gyfnod cyffrous i'r system addysg cyfrwng Cymraeg ym maes polisi, a hynny yn sgil dyfodiad Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru 1988, cyhoeddi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. Dogfennau a strategaeth allweddol a dylanwadol gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol oedd Y Wlad sy'n Dysgu (2001), cynllun strategaeth ieithyddol y Cynulliad, sef Iaith Pawb (2003) ac, yn ogystal, Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2009). Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2001 fod cynnydd amlwg o 40.8 y cant yn niferoedd plant ifanc 5–15 oed sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru o gymharu ag ystadegau Cyfrifiad 1991.² Ymhellach, mae cynnydd sylweddol yn nefnydd y Gymraeg yn ysgolion cyfrwng Saesneg Cymru hefyd yn batrwm nodedig, yn enwedig ers sefydlu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yn 1988. Mae'r cyfnod hwn felly'n hynod ddiddorol er mwyn astudio'r iaith Gymraeg yng Nghwm Rhymni. Eironi'r sefyllfa, fodd bynnag, yw'r canlynol yn ôl Aitchison a Carter (2004:2):

The paradox is that the greatest increases had been achieved in those areas where the language had traditionally been the weakest.

Ymhellach, gwelwyd dirywiad ieithyddol ymhlith pobl ifanc sydd wedi gadael y sffêr addysgol. Yn ogystal, mynegwyd pryder ymhlith gwneuthurwyr polisi bod yna wahaniaeth rhwng y sawl sy'n gallu siarad iaith leiafrifol a'r sawl sy'n defnyddio iaith leiafrifol yng Nghymru (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2004), ac yn ogystal, yn Ewrop (Euromosaic Study 1996).³ Cwyd y canfyddiad hwn, felly, gwestiwn llosg fel y noda Gruffudd (2000:180):

... is language transmission through education likely to produce future parents who will transmit the language at home?

Cwestiwn a ofynnwyd yn ystod astudiaeth Cwm Rhymni oedd pam y byddai rhieni (y mwyafrif helaeth ohonynt yn ddi-Gymraeg) yn dewis addysg Gymraeg i'w plant o fewn ardal Saesnigedig. Ymhellach, cododd nifer o gwestiynau ychwanegol i'r meddwl. Beth sydd y tu ôl i'r dewis? A yw'r rhesymau wedi datblygu ac esblygu ers cyfnod sefydlu'r ysgolion hyn? A fydd addysg cyfrwng Cymraeg yn sail i'r iaith ddatblygu ymhellach yng nghymoedd y de yn y dyfodol? Gyda'r system addysg cyfrwng Cymraeg bellach yn fwy blaenllaw, cyffredin a phrif lif, nid yw dewis addysg Gymraeg yn grwsâd neu'n aberth i'r un graddau ac y bu, ac adroddwyd eisoes am fuddion amrywiol y system. Prif fwriad y papur hwn yw ystyried y cwestiynau hyn trwy bwysu a mesur cymhellion rhieni (yn bennaf rhieni di-Gymraeg) dros ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, yn enwedig gan nad oeddent yn meddu ar yr iaith Gymraeg eu hunain. Yn ogystal, y bwriad yw canfod a oes rhesymau eraill pam fod rhieni'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant erbyn hyn? Yr oedd yr ymchwil cynradd hefyd yn ymgais i lenwi bwlch yn ein gwybodaeth ymchwil am y maes yng Nghwm Rhymni.

² Cyfrifiad 2001: Prif Ystadegau am y Gymraeg www.byigwlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/331.doc

³ www.uoc.edu/euromosaic/web/homean/index1.html

Lleoliad yr Astudiaeth

Lleoliad yr astudiaeth yw Cwm Rhywni yn sir Gaerffili. Ardal ôl ddiwydiannol sy'n ymestyn 16 milltir o Rymni yn y gogledd, i Fargod yng nghanol y cwm ac i Gaerffili yn y de yw Cwm Rhywni. Ceir cymunedau amrywiol iawn yng Nghwm Rhywni ac mae'n wir dweud na fedrwn ymdrin â'r cwm fel un ardal unfurf gan fod gwahaniaethau amlwg ymhlith y cymunedau hyn. Lleolir y cwm i'r gogledd o Gaerdydd gyda Chaerffili ddim ond 8 milltir o'r brifddinas. Dengys y map isod o sir Gaerffili drefi Rhywni, Bargoed, Ystrad Mynach a Chaerffili, trefi amlwg yng Nghwm Rhywni:



Map 1: Map o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Ffynhonnell: www.cartoplus.co.uk/caerphilly/intro.htm

Nid yw cymoedd y Rhondda, Taf, Cynon, Sirhywi ac Ebwy nepell oddi wrth Gwm Rhywni. Lleolir y sir felly yng nghanol cymoedd diwydiannol de Cymru.

Mae Cwm Rhywni yn rhan o sir Gaerffili a ffurfiwyd yn 1996 adeg ad-drefnu'r siroedd ledled Cymru. Yn wir, Cyngor Bwrdeistref Sirol Gaerffili yw'r pumed awdurdod mwyaf yng Nghymru gyda 73 o Aelodau Etholedig yn cynrychioli 33 ward (Cyngor Gaerffili, Drafft Ymgynghorol, 2009:9). Y mae Gaerffili ymhlith y siroedd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn ne Cymru. Dengys ystadegau Cyfrifiad 2001 fod gan 27,228 o bobl, sef 16.7 y cant o drigolion poblogaeth Gaerffili o 169,519, wybodaeth o'r Gymraeg i ryw raddau, tra bod gan 8.5 y cant, sef 13,916 o'r boblogaeth, yr amrediad llawn o sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg. Mynegir yr wybodaeth hon o fewn Tabl 1 (www.nationalstatistics.co.uk)

Canran a Niferoedd Trigolion Gaerffili sydd: (Poblogaeth Gaerffili 169,519)	Canran	Nifer
Yn deall Cymraeg llafar yn unig	2.8%	4,617
Yn siarad ond nad ydynt yn darllen/ysgrifennu Cymraeg	1.7%	2,814
Yn siarad ac yn darllen, ond nad ydynt yn ysgrifennu Cymraeg	0.7%	1,095
Yn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	8.5%	13,916
Cyfuniadau sgiliau ieithyddol eraill	2.9%	4,786
Gwybodaeth o'r Gymraeg (o leiaf un sgil ieithyddol)	16.7%	27,228

Tabl 1: Canlyniadau Siaradwyr Cymraeg Sir Gaerffili yn ôl Cyfrifiad 2001
(Ffynhonnell: Aitchison a Carter 2004:38–39)

Felly, o ran niferoedd, mae gan yr ardal botensial amlwg i ddylanwadu ar benderfyniadau polisiâu ieithyddol cenedlaethol a strategaethau cynllunio ieithyddol y dyfodol. Mae niferoedd siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu ers Cyfrifiad 1991 pan mai tua 6 y cant neu ychydig dros 9,700 o bobl oedd yn siarad Cymraeg (www.nationalstatistics.gov.uk). Fodd bynnag, cymharol isel yw'r canrannau hyn wrth ystyried cyd-destun ehangach siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyfan. Yn unol â thwf siaradwyr Cymraeg sir Gaerffili gwelwyd cynnydd aruthrol yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal. Pan ffurfiwyd sir Gaerffili yn swyddogol yn 1996 yr oedd yna wyth ysgol cyfrwng Cymraeg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Tair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach, ceir un ar ddeg o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal (gan gynnwys Ysgol Gymraeg Penallta a agorwyd ym Medi 2009, nad yw'n ymddangos ar y map), ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, sef Ysgol Gyfun Cwm Rhywni. Dengys Map 2 leoliadau ysgolion cynradd y cwm.

Bu twf aruthrol yn niferoedd siaradwyr Cymraeg yr ardal yn sgil llwyddiannau'r system addysg cyfrwng Cymraeg, yn adleisio'r twf cyffredinol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ifanc ledled de-ddwyrain diwydiannol Cymru o ganlyniad i sefydlu'r system addysg cyfrwng Cymraeg (C. H. Williams, 2000:24). Ymhlith y garfan rhwng 5–15 oed y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn niferoedd siaradwyr Cymraeg Gaerffili ers 1991 yn ôl Cyfrifiad 2001.⁴ Yn ogystal â chynnydd ymhlith siaradwyr Cymraeg oedran ysgol yn sgil llwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg, gellir priodoli twf amlwg y Gymraeg yn ardal Gaerffili i gyflwyno'r iaith Gymraeg

⁴ Ers Cyfrifiad 1991 bu cynnydd o 20.8 y cant ymhlith siaradwyr Cymraeg 5–15 oed yng Nghaerffili (Ffynhonnell: Tabl L67W Cyfrifiad 1991; Tabl CAS146 Cyfrifiad 2001, ill dau o NOMIS).

i gwricwlwm ysgolion cyfrwng Saesneg yr ardal.⁵ Dengys y Tabl 2 gynnydd yn niferoedd disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg Cwm Rhyfni ers cyfnod sefydlu'r ysgolion. Fodd bynnag, rhaid nodi bod niferoedd ambell ysgol wedi disgyn yn sgil agor ysgolion newydd yn y cwm.

Yn ôl Cynllun Addysg Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Drafft Ymgynghorol) 2009–2014, yn Ionawr 2008 yr oedd 29,551 o blant 3–18 oed yn derbyn addysg yng Nghaerffili. Yr oedd 16,915 yn y sector cynradd, 12,513 yn y sector uwchradd a 123 ym maes addysg anghenion arbennig.



Map 2: Lleoliad Ysgolion cyfrwng Cymraeg sir Gaerffili
(Ffynhonnell: Cyngor Sirol Bwrdeistref Sirol Caerffili, 2009)

⁵ Yn ôl Cynllun Addysg Gymraeg (20102–14) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2009:17) cynyddodd y niferoedd sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 o fewn yr ysgolion cyfrwng Saesneg o 3,851 yn 1996 i 6,604 yn 2008.

Yr oedd 12.7 y cant o ddisgyblion cynradd y sir a 10.6 y cant o ddisgyblion uwchradd y sir yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg tra bod 3.3 y cant o ddisgyblion ag anghenion arbennig yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (Cyngor Caerffili, 2009:11). Bellach mae cynlluniau newydd ar y gweill i agor mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhymni.

Enw'r Ysgol	Dyddiad Agor	Nifer ar y Gofrestr ar y dyddiad agor	Nifer ar y Gofrestr Ionawr 1997	Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2008
Ysgol y Lawnt	1955	15	148	150
Ysgol Ifor Bach	1961	11	291	166
Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod	1963	72	170	158
Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili	1970	97	324	276
Ysgol Gymraeg Trelyn	1991	112	164	188
Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon	1992	112	146	157
Ysgol Gymraeg Bro Allta	1993	150	210	284
Ysgol Gynradd Gymraeg y Castell	1995	120	134	281
Ysgol Bro Sannan	2004	18	Amherthnasol	103
Ysgol Gymraeg Cwm Derwen	Medi 2008	34	Amherthnasol	Amherthnasol
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	1981	156	884	1195

Tabl 2: Datblygiad Ysgolion cyfrwng Cymraeg Cwm Rhymni
(Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Drafft Ymgynghorol 2009:14)

Nod, Amcan a Hypothesis yr Ymchwil

Nod yr ymchwil hwn yw casglu, asesu a dehongli prif gymhellion rhieni, yn benodol rhieni di-Gymraeg, dros ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yng Nghwm Rhymni. Bwriad yr astudiaeth yw asesu teimladau, agweddau a chanfyddiadau sampl o rieni'r ardal sydd yn gysylltiedig â'r system addysg cyfrwng Cymraeg lleol. Grŵp targed er mwyn gwireddu amcanion yr astudiaeth yw rhieni sectorau meithrin, cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg Cwm Rhymni. Penderfynwyd dewis rhieni fel prif ffocws yr astudiaeth oherwydd mai nhw oedd wrth wraidd ymgyrchu a phrotestio er mwyn sefydlu'r system ers talwm. Yn wir, canfuwyd bwlch llenyddiaeth amlwg wrth ymdrin â rhesymau rhieni dros ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg. Bwriad yr ymchwil felly yw llenwi bwlch amlwg yn y maes.

Er mwyn cynnig strwythur pwrpasol i'r ymchwil, crëwyd hypothesis. Hypothesis astudiaeth Cwm Rhymni, sy'n seiliedig ar ymchwil Williams *et al.* (1978), yw bod rhieni'r ardal yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant oherwydd manteision economaidd siarad

Cymraeg. Y gred yw bod rhieni am i'w plant feddu ar symudoledd cymdeithasol uwch yng Nghwm Rhymni ac yng Nghymru gyfan, ac mai addysg cyfrwng Cymraeg yn unig fyddai'n caniatáu hyn. Llwyddiant economaidd a chyfluoedd galwedigaethol ehangach, dwyieithog fyddai rhesymau'r rhieni dros ddewis y system i'w plant.

Cefndir Damcaniaethol

Cefndir damcaniaethol yr astudiaeth yw'r cysyniad o 'gyfalaf cymdeithasol' o eiddo'r Cymdeithasegydd Ffrengig, Pierre Bourdieu. Yn ôl Bourdieu (1986), hanfod 'cyfalaf cymdeithasol' yw bod yn aelod o grŵp arbennig, dilyn gwerthoedd tebyg, a meddu ar rinweddau tebyg i aelodau eraill y grŵp. I bwrpas yr ymchwil, bodolodd y 'cyfalaf cymdeithasol' hwn trwy gyfrwng ysgolion cyfrwng Cymraeg Cwm Rhymni. Ynghlwm wrth ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal daeth aelodaeth grŵp neu gymuned Gymreig arbennig i fod yn dilyn strwythur arbennig ac, i bob pwrpas, fe rannai'r grŵp werthoedd cyfatebol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg. Ymdebygai'r gymuned iaith ysgolion cyfrwng Cymraeg i unrhyw gymuned iaith leiafrifol arall, sef drwy osod gwerth tebyg ar yr un ymarferion ac ymddygiad diwylliannol, unigryw. Yn ôl Fishman, (1991:26):

To really know a language well, one must know its associated culture (indeed even the history of that culture) ... as well as the cultural specifics and behavioral goals ... every bit as much as it is necessary to know the associated language if one wants to know a culture well.

Ymhellach, cydnabyddai Walliman (2006:15) fod yr ystyron symbolaidd unedig hyn yn datgelu ystyron cymdeithasegol dwfn. Enghraifft amlwg yw rhieni'n protestio dros sefydlu'r system addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn ogystal, tynnwyd ar ddamcaniaeth 'cyfalaf diwylliannol' o eiddo Pierre Bourdieu. Yn ôl Bourdieu (1987) sgiliau yw'r rhain, gwybodaeth a dealltwriaeth, addysg a manteision hanfodol, sydd gan unigolyn er mwyn meddu ar statws uwch yn ôl hierarchaeth y gymdeithas bresennol. Honnodd Bourdieu mai prif swyddogaeth y system addysg yw atgynhyrchu diwylliant ond, yn fwy na hynny, ail-greu diwylliant mwyafrifol y gymdeithas. Arf yw addysg, felly, er mwyn gyrru normau, gwerthoedd a phŵer dosbarthiadau uwch y gymdeithas. Meddai Bourdieu (1991:167):

The culture which unifies is also the culture which separates and which legitimates distinctions by forcing all other cultures to define themselves by their distance from the dominant culture.

Diwylliant y grwpiau dominyddol yw 'cyfalaf diwylliannol' yn ôl Bourdieu sy'n cael ei drosglwyddo i gyfoeth a phŵer drwy'r system addysg ei hun. Nododd Bourdieu fod cysylltiad amlwg felly rhwng y system addysg a strwythur gwleidyddol y gymdeithas. Nid yw cyfalaf diwylliannol wedi'i rannu'n gyfartal rhwng disgyblion. Mae gan ddisgyblion o ddosbarthiadau uwch y gymdeithas fantais amlwg dros ddisgyblion dosbarth gweithiol am eu bod wedi cael eu cymdeithasoli i'r diwylliant dominyddol a'u bod yn ymwybodol o'r gwerthoedd y dylid eu hefelychu. Yn ôl Bourdieu (1991:38), 'they possess the code of the message' ac felly yn ymwybodol sut i lwyddo'n academaidd.

Gellir dweud, felly, bod rhieni'n trosglwyddo 'cyfalaf diwylliannol' i'w plant drwy ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol iddynt fedru llwyddo yn y system addysg a thu hwnt i hynny. Dadleuir bod rhieni sy'n dewis y system addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhymni yn ail-greu 'cyfalaf diwylliannol' i'w plant. Rhieni Cymry Cymraeg o ddsbarthiadau cymdeithasol uwch a ddewisodd addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yn ystod cyfnod sefydlu'r system (Khleif, 1974 a 1980, Bush, 1979, Bush *et al.* 1981) a'r rhieni felly'n trosglwyddo 'cyfalaf diwylliannol' Cymraeg arbennig i'w plant fedru llwyddo yn y system. Fodd bynnag, rhaid nodi nad oedd hyn yn bodoli ym mhob ardal o fewn Cwm Rhymni. Yr oedd rhieni am i'w plant feddu ar symudoledd cymdeithasol a gosodwyd statws a bri ar y system addysg er mwyn cyflawni hynny, er bod hyn yn llai amlwg erbyn heddiw.

Yng nghyd-destun y fath ddamcaniaethau, priodol yw crybwyll astudiaeth Williams *et al.* (1978) ar y Rhondda. Cydnabyddir bod hon yn un o'r astudiaethau arloesol ym maes addysg cyfrwng Cymraeg yn ne Cymru, astudiaeth sy'n crisialu cymhellion rhieni dros ddewis addysg ddwyieithog i'w plant yn y Rhondda, ardal Seisnigedig, yn ystod y 1970au. Canolbwynt yr ymchwil yw gwerth a bri'r system addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn hybu symudoledd cymdeithasol disgyblion y system, enghraifft amlwg o 'gyfalaf diwylliannol' Bourdieu. Prif gysyniadau'r ymchwil oedd bod rhieni'n 'burghers' neu'n 'spiralists' (Watson, 1964) yn ôl cyfrwng iaith addysg yr oeddent yn dewis i'w plant. 'Burghers' oedd y rhieni a welodd werth i'w plant ddysgu'r Gymraeg oherwydd y byddent yn byw a gweithio yng Nghymru yn y dyfodol ac yn elwa o lu o fanteision galwedigaethol. Nid oedd 'spiralists' yn gweld pwrpas dysgu'r Gymraeg oherwydd nad oeddent yn gweld eu plant yn aros yng Nghymru yn y dyfodol. Hypothesis ymchwil Williams *et al.* yw bod rhieni'n dewis y system addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant am resymau economaidd. Yr oeddent am i'w plant feddu ar symudoledd cymdeithasol uwch ac, yn ogystal, brofi cyfleoedd galwedigaethol ehangach. Seilir hypothesis astudiaeth Cwm Rhymni ar ymchwil Williams *et al.*, (1978) a defnyddir yr astudiaeth fel llinyn mesur er mwyn asesu datblygiad ac esblygiad rhesymau rhieni dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yn ystod y chwarter canrif ddiwethaf.

Methodoleg

Safbwynt athronyddol yr ymchwil yw'r persbectif deongliadol a grisialwyd gan ymchwil Max Weber. Pwrpas ymchwil cymdeithasegol yn ôl persbectif deongliadol yw deall unigolion er mwyn deall y gymdeithas yn hytrach nag astudio'r gymdeithas er mwyn deall yr unigolion yn ôl fframwaith Positifaid. Fel y crisiala Roth a Wittich (1968:14), 'for sociological purposes, there is no such thing as a collective personality which "acts" ...'. Yn ôl Weber (1964) dylem fedru deall gweithredoedd cymdeithasol drwy astudio'r ystyron a'r cymhellion sydd wrth wraidd ymddygiad dynol. Yn wir, dyma sylfaen athronyddol yr astudiaeth hon wrth gasglu barn unigolion ar y system addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhymni.

Yn ystod yr astudiaeth hon cyfunir dulliau ymchwil ansoddol a meintiol, ac felly cyflawnir trionglant methodolegol a chynnyddir dibynadwyedd a dilysrwydd yr astudiaeth. Yn gyntaf, dosbarthwyd 400 o holiaduron rhannol strwythuredig ymhlith rhieni'r sectorau meithrin, cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhymni. Yn sgil hynny, casglwyd

gwybodaeth gyswllt o'r holiaduron er mwyn creu sampl bellach o 50 o atebwyr ar gyfer prif ddull ymchwil yr astudiaeth, sef cyfweiliadau dwys.

Meini prawf y sampl ymchwil oedd y rhieni a anfonodd eu plant i sefydliadau cyfrwng Cymraeg yn Nghwm Rhymni. Tynnwyd sampl o rieni gyda gwahanol gefndiroedd ieithyddol a sosio-economaidd (gweler atodiad 1): dau riant di-Gymraeg; un riant Cymraeg ac un di-Gymraeg; a dau riant Cymraeg. Oherwydd cyfansoddiad ieithyddol y Cwm, yr oedd mwyafrif helaeth yr atebwyr yn perthyn i'r grŵp cyntaf, sef dau riant di-Gymraeg.

Glynwyd wrth egwyddorion Deddf Gwarchod Data 1998, ac esboniwyd y cam arbennig er mwyn trin a thrafod data sensitif mewn modd diogel. Pwysleisiai'r ymchwilydd y broses ddeublyg o storio a dinistrio data ymchwil cynradd yr astudiaeth. Yn ôl yr ymchwilydd byddai'r wybodaeth a ddatgelir gan y cyfranogwyr yn cael eu cloi mewn man diogel yn ystod cyfnod yr astudiaeth ac, yn ogystal, amlygai'r ymchwilydd y byddai'r dystiolaeth yn cael ei dinistrio ar ôl i'r cyfnod ymchwil ddod i ben.

Y bwriad pennaf wrth ddewis strategaeth ansoddol oedd blaenoriaethu barn, teimladau a chanfyddiadau sampl rhieni Cwm Rhymni. Yr oedd yn ddull ymchwil priodol er mwyn adlewyrchu angerdd, brwdfrydedd a safbwyntiau cryf rhieni tuag at addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhymni. Darparodd yr ymchwil ansoddol gyfle i'r atebwyr ymhelaethu ar eu safbwyntiau mewn modd dynamig a hyblyg oedd yn gweddu natur y testun dan sylw i'r dim. Pobl yw canolbwynt ymchwil ansoddol ac mae'r canlyniadau'n dibynnu ar deimladau unigryw'r unigolion.

Rhesymau Rhieni'r Sampl Ymchwil dros ddewis y system Addysg Gymraeg i'w plant

Prif ddiddordeb yr astudiaeth hon yw pwysu a mesur rhesymau sampl rhieni Cwm Rhymni dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Casglwyd a chodwyd y prif resymau gan becyn meddalwedd NVivo 2 a chrëwyd pedwar prif gategori ymchwil, yn nhrefn eu pwysigrwydd, sef rhesymau diwylliannol, addysgol, economaidd a phersonol. Darganfuwyd rhesymau amrywiol a chymhleth wrth weinyddu'r ymchwil cynradd a nodir prif ganlyniadau astudiaeth Cwm Rhymni ar ffurf canrannau a niferoedd o fewn y tablau isod:

Prif Reswm dewis addysg cyfrwng Cymraeg	Canran	Nifer
Diwylliannol	50%	25
Addysgol	34%	17
Economaidd	8%	4
Personol	8%	4

Fel y nodir o fewn y tabl uchod, rhesymau diwylliannol oedd prif reswm rhieni'r sampl dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant am fod hanner y sampl wedi datgan hynny. Yr ail reswm oedd rhesymau addysgol gydag ychydig dros draean wedi dewis y rheswm hwn tra mai dim ond wyth y cant o'r sampl a ddewisodd y system am resymau economaidd a phersonol, fel ei gilydd. Yn wir, ynghyd â'r prif resymau, gofynnwyd i rieni'r sampl ymchwil

nodi eu tri phrif reswm dros ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhymini. Dangosir canlyniadau'r ail reswm dros ddewis addysg Gymraeg ar ffurf tabl isod:

Ail Reswm Dewis Addysg Gymraeg	Canran	Nifer
Addysg	46%	23
Diwyll.	30%	15
Dim	12%	5
Econ.	8%	4
Personol	4%	2

Dengys y tabl uchod felly y bu i bron hanner y sampl ddewis rhesymau addysgol yn ail reswm dros ddewis y system addysg Gymraeg tra bod ychydig llai na thraean (30%) wedi dewis rhesymau diwylliannol. Yr oedd 12 y cant o'r sampl rhieni heb ddewis ail reswm a dim ond 8 y cant a ddewisodd resymau economaidd a 4 y cant resymau personol.

Ymhellach, gofynnwyd i rieni sampl ymchwil Cwm Rhymini ddatgan eu trydydd rheswm dros ddewis y system addysg i'w plant a gwelir o'r tabl isod mai rhesymau economaidd oedd trydydd prif reswm y sampl er bod un ymhob pump ohonynt heb ddewis trydydd rheswm a 16 y cant o'r rhieni'n dewis rhesymau addysgol ac wyth y cant resymau diwylliannol.

Trydydd Rheswm Dewis Addysg Gymraeg	Canran	Nifer
Economaidd	56%	28
Dim	20%	10
Addysgol	16%	8
Diwylliannol	8%	4

Yn awr fe edrychwn yn fanylach ar resymau penodol y rhieni dros ddewis addysg Gymraeg i'w plant.

Rhesymau Diwylliannol

Rhesymau diwylliannol oedd prif resymau sampl Cwm Rhymini dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant sy'n ategu ymchwil Lyon (1996) ar Ynys Môn a Thomas (2007) yn ne-ddwyrain Cymru. Yn wir, yr oedd 50 y cant (n=25) o'r sampl ymchwil wedi datgan rhesymau diwylliannol dros ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yng Nghwm Rhymini. Yr oeddent yn pwysleisio ystod eang o themâu diwylliannol megis gwerth siarad Cymraeg, pwysigrwydd gwreiddiau, cenhedlaeth goll ac integreiddio i gymuned Gymreig y Cymoedd, fel y disgrifir isod.

Hunaniaeth Ddiwylliannol

Prif reswm rhieni sampl Cwm Rhymini dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant oedd oherwydd eu hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig. Yr oedd hon yn thema flaenllaw ymysg rhieni di-Gymraeg y sampl (dewisodd 40 y cant o'r rhieni resymau diwylliannol yn

brif reswm), ac awgryma'r data eu bod yn wladgarol eu naws, fel y nododd mam ddi-Gymraeg yn y sector uwchradd:⁶

I just wanted it, I'm Welsh, they are Welsh and I just wanted them to speak Welsh ... my children didn't have to wear a tall black hat a woollen shawl and a pleated skirt to prove they are Welsh ... all they have to do is to open their mouths. (*Cyfweiliad 32:237-242*)

Yr oedd addysg cyfrwng Cymraeg yn hyrwyddo hunaniaeth Gymreig yn hytrach na'r hunaniaeth Americanaidd, fyd-eang, gyfoes. Pwysleisiodd y fam ddi-Gymraeg ganlynon werth yr hunaniaeth Gymreig:⁷

They go to the Urdd and there's Santes Dwynwen, other people have never heard of it, but our children have been brought up with the Welsh feel to their lives. With Sky TV, they are brought up as little Americans so I think it's lovely that they've got the Welsh culture when they go to school. (*Cyfweiliad 56:142-149*)

Balchder o fod yn Gymry: Gwreiddiau ac Etifeddiaeth

Yr oedd nifer cynyddol o'r sampl ymchwil yn falch iawn o fod yn Gymreig, ac yr oeddent wedi arddangos tueddiadau gwladgarol, er nad oedd y mwyafrif ohonynt yn gallu siarad Cymraeg. Yn ôl mam ddi-Gymraeg yn y sector uwchradd:

You get a sense of being proud when you hear them speaking Welsh, you feel immensely proud that they can do it and I love to hear them speak it. (*Cyfweiliad 36:322-323*)

Credai nifer amlwg o'r sampl y dylai'u plant ddysgu, defnyddio ac ymfalchïo ym mamiaith eu gwlad ac yr oeddent yn pwysleisio eu gwreiddiau Cymreig. Pwysleisiodd mam ddi-Gymraeg yn y sector uwchradd mai dewis naturiol oedd addysg cyfrwng Cymraeg i'w phlant:

It is important for our children to learn their own language, they are born in Wales, they are Welsh, and have the opportunity to learn, speak and use Welsh. (*Cyfweiliad 4: 99-101*)

Gwerth Siarad Cymraeg

Y gallu i siarad Cymraeg oedd un o'r prif resymau dros dewis y system addysg cyfrwng Cymraeg yn ôl rhieni sampl Cwm Rhymni (dewisodd 35% y cant o'r rhieni resymau diwylliannol yn brif reswm). Dywedodd nifer mai 'the language itself, it's good for them to learn ...' (*Cyfweiliad 34:36-37*), oedd y prif reswm ac yn ategu ymchwil Bush *et al.* (1981) a Thomas (2007) er ei fod yn wahanol i ymchwil Williams *et al.*, (1978) a nododd werth

⁶ Mam ddi-Gymraeg, 42 oed, swydd broffesiynol uwch (NS-SEC 1), prifathrawes ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, byw yn ardal gogleddol y cwm.

⁷ Mam ddi-Gymraeg, 38 oed, swydd ganolraddol (NS-SEC 3) yn y gwasanaeth sifil, byw yng nghanol y cwm.

economaidd ddros dysgu'r iaith. Mynegodd mwyafrif helaeth y sampl nad oedd angen cyfiawnhau dewis addysg Gymraeg. Fel y nododd un tad iaith gymysg:⁸

... byddwn i wedi dewis y Gymraeg drostyn nhw beth bynnag, achos rwy'n meddwl bod gwerth go iawn (iddyn nhw) siarad Cymraeg eu hunain ...
(*Cyfweliad 2: 314-315*)

Yr oedd rhai atebwyr, megis y tad iaith gymysg isod, yn y sector uwchradd,⁹ am i'w teuluoedd fod yn rhai Cymraeg iaith gyntaf ac felly'n gobeithio y byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn eu helpu i greu hyn:

I would like us to be a Welsh speaking family. I'm a proud nationalist and I would like my children to be nationalists ... I think Welsh people should, whenever possible, learn and speak Welsh, and anyone who comes here.
(*Cyfweliad 49:86-90*)

Cenhedlaeth Goll

Patrwm amlwg oedd cywilydd ymhlith rhieni di-Gymraeg am nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg. Yn sgil hynny, dewisodd 25 y cant o'r rhieni 'cenhedlaeth goll' fel prif reswm diwylliannol dros ddewis y system addysg i'w plant. Awgrymodd un fam ddi-Gymraeg yn y sector uwchradd fod ei theimladau dwys fel plentyn wedi dylanwadu'n ddirfawr arni'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant:¹⁰

When I was about ten ... I remember meeting all these people on holidays and I couldn't speak any Welsh. I just felt that was so wrong. I felt, how can I say that I'm from Wales and I can't speak my own language? (*Cyfweliad 21:7-10 a 12-13*)

Yn sgil y genhedlaeth goll, sbardunwyd nifer o rieni iaith gymysg sampl Cwm Rhymni i ddysgu Cymraeg. Yr oeddent yn ymwybodol o werth siarad Cymraeg yn ifanc, fel y nododd un fam yn y sector uwchradd, 'O'n i eisiau iddyn nhw gael y cyfle gollais i, bod nhw'n gallu siarad Cymraeg yn naturiol fel plant ...' (*Cyfweliad 7:169-170*).

Yr oedd nifer o ddysgwyr yn ymwybodol o'r gymuned Gymreig glòs yr oeddent wedi ei hamddifadu ohoni, fel y nododd dysgwraig sydd nawr yn bennaeth ysgol cyfrwng Cymraeg yn y Cwm:¹¹

O'n i am iddyn nhw gael beth gollais i, y diwylliant, yr ymrwymiad, yr ymdeimlad o berthyn i gymuned Gymraeg glòs ... Ac i gael y cyfle doedd Mam a Dad ddim yn ddigon dewr i wneud drosta i. (*Cyfweliad 14:72-75*)

⁸ Tad 43 oed o deulu iaith gymysg, siaradwyr Cymraeg, swydd broffesiynol uwch (NS-SEC 1), rheoli adran lywodraethol, hanu o orllewin Cymru, byw yng nghanol y cwm. Golyga 'iaith gymysg' deulu lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg a'r llall yn siarad Saesneg.

⁹ Tad o deulu iaith gymysg, 47 oed, wedi dysgu'r Gymraeg a ganddo ddaliadau cenedlaetholgar, swydd ailadroddus (NS-SEC 7) gweithiwr ffatri, byw ar waelod y cwm.

¹⁰ Mam ddi-Gymraeg, 38 oed, byw ym mhen uchaf y cwm, yn ddi-waith (NS-SEC 8).

¹¹ Mam o deulu iaith gymysg, 41 oed, dysgwraig y Gymraeg, swydd broffesiynol uwch (NS-SEC 1), pennaeth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yr ardal, byw ar waelod y cwm.

Cyfle Cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg

Cyfeiriodd nifer o rieni'r sampl at bwysigrwydd dysgu'r Gymraeg yng Nghymru. Yr oeddent am i'r Gymraeg fod ar lefel gyfartal â'r Saesneg, ddim yn iaith leiafrifol o gymharu ag iaith fwyafrifol. Amlygwyd y patrwm hwn gan fam ddi-Gymraeg yn y sector uwchradd:

... we believe it is important for our children to learn their own language, they are born in Wales, they are Welsh, and have the opportunity to learn, speak Welsh and use it, not as a back up language, but as a language side by side to English ... it's their language and we don't want the language to die out ...
(*Cyfweliad 4:99-02 a 104*)

Mae'n bosibl bod y sylwadau uchod yn awgrymu bod egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) wedi treiddio i isymwybod rhieni'r sampl ymchwil. Yn ogystal, yr oedd nifer o rieni o'r farn bod Cymru wedi profi anffafiaeth gyffredinol gan Loegr a bod angen siarad Cymraeg er mwyn ymfalchïo yn ein cenedl a dangos perchnogaeth dros ddiwylliant a thraddodiadau'r wlad (*Cyfweliad 13:266-269*).

Dewis Naturiol i Rieni Iaith Gymraeg

Yr oedd 100 y cant (n=2) o rieni iaith Gymraeg y sampl wedi nodi mai dewis naturiol oedd anfon eu plant drwy'r system addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhymni (er hyn rhaid cydnabod cyn lleied o deuluoedd iaith Gymraeg a oedd yn rhan o'r ymchwil). Un o brif resymau rhieni iaith Gymraeg ac iaith gymysg dros ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg oedd bod y Gymraeg yn rhan gynhenid o'u personoliaeth ac mae hyn yn ategu ymchwil Packer a Campbell (1997). Ymhelaethodd mam iaith Gymraeg yn y sector uwchradd:¹²

Dyma oedd y peth naturiol i mi wneud ... oherwydd fy mod i wedi cael 'yn addysg i drwy ysgolion Cymraeg ... 'odd y ddau ohonom ni'n dysgu yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, Cymraeg oedd ein hiaith gyntaf ... byddai wedi bod yn wrthun i wneud unrhyw beth ond hynny. (*Cyfweliad 11:218-224*)

Ynghyd â'r Cymry Cymraeg, yr oedd gan y dysgwyr hefyd le arbennig yn eu calonnau i'r Gymraeg. Yr oeddent am drosglwyddo'r iaith i'w plant hwythau hefyd. Fel y nododd un ddysgwraig, sydd bellach yn athrawes cyfrwng Cymraeg, 'O'n i ddim wedi meddwl am funud eu hanfon nhw at ysgol Saesneg, o'n i'n siarad Cymraeg ...' (*Cyfweliad 24:88-89*). Yn ei hanfod, dymuniad nifer o gyn-ddisgyblion oedd gallu siarad Cymraeg iaith gyntaf â'u plant ac yn sgil hynny, dewis naturiol iddynt, heb amheuaeth, oedd addysg cyfrwng Cymraeg (*Cyfweliad 38:49*). Ychydig iawn o rieni di-Gymraeg a nododd 'dewis naturiol' *ieithyddol* fel rheswm; yn hytrach, byddent yn dewis y system ar sail 'dewis naturiol' *diwylliannol*.

¹² Mam iaith Gymraeg, 50 oed, swydd broffesiynol is (NS-SEC 2), athrawes ysgol cyfrwng Cymraeg, hanu o gwm cyfagos ac yn byw yn ardal ddeheuol y cwm.

Integreiddio i'r gymuned Gymreig

Patrwm llai amlwg ymhlith y sampl oedd yr angen i integreiddio i'r gymuned Gymreig. Fodd bynnag, soniodd ambell deulu o Loegr eu bod am i'w plant integreiddio'n llawn i'r gymdeithas Gymreig drwy fynychu ysgol Gymraeg. Yn ôl tad di-Gymraeg yn y sector uwchradd:¹³

... even though neither of us were Welsh speaking, we felt, especially me coming from England, it's a way to integrate with the Welsh community. (Cyfweiliad 19:31–34)

Mae integreiddio i'r gymuned fel arfer yn gysylltiedig ag ardaloedd y Fro Gymraeg lle y mae canran uwch o fewnfudwyr nad ydynt yn medru'r Gymraeg yn effeithio ar ddynameg Gymraeg yr ardaloedd, fel yr ategir gan ymchwil Lyon ac Ellis (1991) a Lyon (1996) ar Ynys Môn.

Rhesymau Addysgol

Rhesymau addysgol (fel y nodwyd yn y tabl uchod) yw'r ail reswm mwyaf poblogaidd dros ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhymni. Yn wir, yr oedd ychydig dros draean (34 y cant a n=17) ohonynt wedi nodi mai rhesymau addysgol a ddaeth i'r brig wrth iddynt fynegi eu penderfyniad. Er mwyn cynnig trosolwg sydyn o brif resymau addysgol y sampl, dyma'r categorïau sy'n rhan o resymau addysgol rhieni sampl Cwm Rhymni. Yr oedd y rhieni'n crybwyll safonau academaidd, enw da, addysg well (elit), gofal bugeiliol, disgyblaeth, manteision dwyieithrwydd, niferoedd disgyblion llai, ymrwymiad athrawon ac ymrwymiad rhieni. Crybwyllwn yr is-gategorïau isod.

Safonau a Chanlyniadau Academaidd Uchel

Un o brif resymau rhieni'r sampl dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant oedd bod gan ysgolion Cymraeg safonau academaidd arbennig. Yr oedd 60 y cant o'r sawl a ddewisodd resymau addysgol wedi crybwyll safonau academaidd fel prif reswm. 'Better standard of education is the main reason', meddai un tad iaith gymysg yn y sector uwchradd (Cyfweiliad 49:85). Mae gan ysgolion cyfrwng Cymraeg ganlyniadau TGAU a Lefel A o safon uchel ac y maent yn perfformio'n dda o fewn tablau cynghrair AALI yn ôl Reynolds *et al.*, (1998). Nododd nifer fod safonau academaidd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ddigyffelyb yng Nghwm Rhymni, sy'n atgyfnerthu ymchwil Reynolds *et al.*, (1998) ac ymchwil Packer a Campbell (1997). Yr oedd hyn yn arbennig o wir ymhlith rhieni di-Gymraeg astudiaeth Cwm Rhymni. Blaenoriaethai rhieni di-Gymraeg fanteision addysgol tra bod rhieni iaith Gymraeg yn canolbwyntio ar resymau diwylliannol. Disgrifiodd un fam iaith gymysg ganfyddiadau trigolion lleol o'r system addysg Gymraeg:

a lot of local people around here assume that's why you've chosen Welsh-medium education, because the schools are so good. (Cyfweiliad 6:313–2)

¹³ Tad di-Gymraeg, 47 oed, swydd ganolraddol (NS-SEC 3) yn y gwasanaeth sifil, hanu o Loegr, wedi byw yn ne Cymru ers 20 mlynedd.

Yn groes i'r hyn a ddisgwylir, daeth safonau academiaidd i'r brig ymhlith sawl cenedlaetholwr hefyd:

If the education at Welsh-medium schools was not up to scratch, she would have gone to an English-medium school and she would have learnt Welsh another way. (*Cyfweliad 47:255-7*)

Yr oedd canlyniadau arolygon Estyn yn ffactor wrth ddewis addysg cyfrwng Cymraeg hefyd (*Cyfweliad 17:83*). Yr oedd bron fel petai canlyniadau da yn cyfiawnhau'r dewis, yn enwedig os nad oedd gan y teulu unrhyw brofiad o'r system addysg cyfrwng Cymraeg.

Enw Da Ysgolion ac Athrawon Cyfrwng Cymraeg

Ers y cychwyn cyntaf, bu gan ysgolion cyfrwng Cymraeg enw da fel ysgolion yn cynnig addysg amlochrog i'w plant. Yn wir, bu gan yr ysgolion enw da yn addysgol, yn ddiwylliannol ac yn bersonol. Yn sicr, yr oedd tystiolaeth amlwg bod enw da ysgolion cyfrwng Cymraeg Cwm Rhymni yn lledu ar lafar gwlad. Fel y nododd mam ddi-Gymraeg yn y sector feithrin, 'I haven't heard a bad thing about it!' (*Cyfweliad 47:55-6*). Cyfeiriodd nifer o'r sampl at enw da'r ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg leol, a chadarnhawyd hynny gan un tad di-Gymraeg yn y sector cynradd:¹⁴

The feedback about the Welsh-medium comprehensive school is very positive. In terms of the quality of education, what we've heard and what we've seen is a good standard. (*Cyfweliad 55:78-80*)

Cyfeiriodd nifer o rieni'r sampl at ddylanwad gweinyddesau meithrin, athrawon a phenaethiaid ysgolion penodol wrth ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant (*Cyfweliad 19:29-31*). Yn ogystal, pwysleiswyd gwerth a dylanwad sefydliad y Mudiad Ysgolion Meithrin a'r grwpiau Ti a Fi ymhlith y sampl ymchwil. Dyma a ddywedodd un fam ddi-Gymraeg yn y sector cynradd:

One of the main reasons really was the playgroup, Ti a Fi. She made a good group of friends up there and I made a good group of friends there too so it just really progressed from there. (*Cyfweliad 59:70-3*)

Addysg 'Well'

Yr oedd mwyafrif helaeth o'r sampl ymchwil yn gytûn bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynnig addysg well i'w disgyblion o'i chymharu ag addysg ysgolion cyfrwng Saesneg lleol ac mae hyn yn ategu ymchwil Thomas (2007). Yr oedd yn briodol pwysleisio mai barn unigolion y sampl ymchwil oedd hyn am nad oedd yr astudiaeth hon yn cynnwys archwilio'r system addysg cyfrwng Saesneg. Rhieni di-Gymraeg ac ambell riant iaith gymysg yn hytrach na rhieni iaith Gymraeg a oedd yn lleisio'r farn hon sy'n gwrthbrofi ymchwil Khleif (1974 a 1980). Yr oedd yn bosib bod addysg cyfrwng Cymraeg yn caniatáu

¹⁴ Tad di-Gymraeg, 25 oed, swydd 'ailadroddus' (NS-SEC 7) yn casglu sbwriel, byw ym Margod, canol y cwm.

symudoledd cymdeithasol uwch ac mae'r canfyddiad hwn yn ymdebygu i ganfyddiad ymchwil Williams *et al.*, (1978).

Diffiniodd sawl rhiant, yn enwedig rhieni yn y Mudiad Ysgolion Meithrin, addysg well fel addysg sy'n cynnig dwyieithrwydd i'w plant. Yr oedd yn bosibl bod ymdrechion polisi Bwrdd yr Iaith Gymraeg, drwy gynllun TWF, wedi treiddio i'w hisymwybod, fel y soniodd un fam ddi-Gymraeg yn y sector feithrin, 'a better start, at the end of the day, what do we want for our children, but the best?' (*Cyfweliad 46:90*). Ymhellach, nododd cynddisgyblion o brofiad fod y system Gymraeg yn cynnig 'addysg well, mae'n fwy teuluol' (*Cyfweliad 1: 281-4*). Ymddangosodd tueddiadau elitaidd ymysg nifer fechan o rieni'r sampl ymchwil. Yr oeddent wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd eu barn bod y system addysg yn un well. Yr oedd eu sylwadau'n cyd-fynd ag astudiaeth Williams *et al.*, (1978:201) lle yr oedd gan rieni'r astudiaeth 'a belief in the superiority of bilingual education.'

Yn ôl rhai, system a ymdebygai i'r system addysg breifat oedd y system addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n ategu ymchwil Packer a Campbell (1997). Fel yr ymhelaethodd mam ddi-Gymraeg yn y sector uwchradd:¹⁵

It's almost like having a public school education in the national system, the way the teachers behave with children and their expectations ... it's the discipline and the pride & help (*Cyfweliad 30:56-9*)

Diffygion Honedig Ysgolion Saesneg

Fel y nodwyd eisoes, nid pwrpas yr ymchwil hwn oedd cymharu systemau addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg, felly nid yw honiadau rhieni'r sampl yn adlewyrchu tystiolaeth gadarn ymchwil empeiraidd. Serch hynny, oherwydd mai'r Saesneg yw prif gyfrwng addysg leol, naturiol oedd y gymhariaeth rhwng y systemau addysg a wnaethpwyd gan rieni'r sampl.

Yn ôl nifer o'r sampl, yr oedd ysgolion cyfrwng Saesneg lleol yn rhai amhersonol, lle nad oedd athrawon yn ymddiddori cymaint yn y plant, yn wahanol i ysgolion cyfrwng Cymraeg lle'r oedd pawb yn adnabod pawb. Soniodd nifer o'r rhieni nad oedd yr ysgolion cyfrwng Saesneg lleol yn cynnig amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol. Nododd un fam iaith gymysg yn y sector cynradd fod ysgolion Cymraeg yn 'neud fwy o bethau drwy'r ysgol, mwy o gyngherddau, mwy o bopeth' (*Cyfweliad 1:285-7*). Er bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, y mae'r Eisteddfod yn gysylltiedig ag ysgolion cyfrwng Cymraeg, felly y mae ganddynt ddimensiwn allgyrsiol ychwanegol i'w gynnig.

Prif reswm nifer helaeth o'r rhieni di-Gymraeg dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg oedd er mwyn rhoi'r cyfle i'w plant ddysgu'r Gymraeg. Yn y bon, nid oeddent yn credu y byddai modd iddynt wneud hynny o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg yr ardal. Yr oeddent am i'w plant ddysgu'r Gymraeg ar lefel gyfartal â'r Saesneg yn hytrach nag fel ail iaith ychwanegol. Er y cynnydd yn narpariaeth y Gymraeg drwy'r cyfnod sylfaen, barn nifer

¹⁵ Mam ddi-Gymraeg 43 oed, swydd broffesiynol uwch (NS-SEC 1) yn rheoli adran lywodraeth leol, hanu o Loegr ond wedi treulio'i phlentyndod yn Ne Affrig, wedi byw yn ne Cymru ers 15 mlynedd.

oedd bod gwersi Cymraeg ysgolion cyfrwng Saesneg yn dameidiog a dim ond yn cynnig 'a second language smattering' (*Cyfweliad 42:23*) yn ôl mam ddi-Gymraeg yn y sector meithrin. Ystyriai nifer o rieni'r iaith Gymraeg yn gymhwyster ynddo ei hun. Cadarnhawyd hyn gan fam ddi-Gymraeg y sector uwchradd; 'It's a qualification in its own right, if there's nothing else you come out from school with' (*Cyfweliad 34:29-30*) ac roedd yn amlwg nad oedd hyn ar gael o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Manteision Dwyieithrwydd

Patrwm pendant ymhlith rhesymau rhieni oedd manteision dwyieithrwydd ynghlwm wrth siarad Cymraeg. Mae hyn yn ein hatgoffa o astudiaeth H. Thomas (2007) ar addysg cyfrwng Cymraeg yn ne-ddwyrain Cymru a nododd mai un o brif resymau y rhieni dros anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd eu bod am i'w plant fod yn ddwyieithog.

Soniodd canran fechan o'r rhieni fod dwyieithrwydd yn ennyn parch ym myd proffesiynol y gweithle (*Cyfweliad 32:262-5*) ac, yn ogystal, bod sgiliau dwyieithog o gymorth wrth feithrin sgiliau cyfrwng Saesneg hefyd, megis geirfa eang a hyblygrwydd ieithyddol rhwng y ddwy iaith; yn ôl tad di-Gymraeg yn y sector uwchradd, 'it gives them help with their English as well' (*Cyfweliad 52:34*). Prif fantais dwyieithrwydd i'r rhieni oedd ei bod yn haws dysgu ieithoedd eraill ac mae hyn yn ategu ymchwil Baker a Prys Jones (1998). Fel y nododd un fam iaith gymysg yn y sector uwchradd:

the advantage they then have in learning other languages is quite marked. That moving on from a second language to a third and a fourth seems a lot more natural than moving on from being a monoglot. (*Cyfweliad 6:37-40*)

Gofal Bugeiliol

Rheswm addysgol amlwg i rieni Cwm Rhymni oedd 'bod gofal bugeiliol yn yr ysgolion yn dda iawn' (*Cyfweliad 17: 123-4*). Ystyrid gofal bugeiliol o werth aruthrol o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn aml yr oedd yn sail dewis y system addysgol. Yr oedd naws 'fwy teuluol ... lot fwy personol' (*Cyfweliad 1:279 a 289*) yr ysgolion Cymraeg yn ffactor amlwg, yn enwedig i'r sawl nad oedd yn medru'r Gymraeg. Yr oedd rhwydwaith cymunedol ysgolion cyfrwng Cymraeg yn apelgar iawn wrth ddewis buddsoddi o fewn system addysg. Trafododd nifer o rieni di-Gymraeg natur groesawgar a chyfeillgar ysgolion Cymraeg. Mynegwyd hyn gan un fam yn y sector feithrin, 'they were so welcoming, the reception was lovely, they couldn't do enough for us' (*Cyfweliad 47:42-3*). Soniodd nifer o rieni di-Gymraeg fod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gofalu am eu hanghenion unigryw o fewn system addysg cyfrwng Cymraeg, 'they explained the situation with non-Welsh speakers with homework' (*Cyfweliad 47:44-5*).

Disgyblaeth

Cytunai nifer o'r sampl fod gan ysgolion cyfrwng Cymraeg safonau disgyblaeth amlwg iawn. Ymddangosodd 'disgyblaeth' bron yn ddiethriad wrth gyf-weld â phob un atebydd, bron fel petai'r elfen ddisgyblaethol yn rhan annatod, ddi-gwestiwn o addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, cysylltid disgyblaeth ag ethos arbennig ysgolion Cymraeg o lwyddo i drosglwyddo'r Gymraeg i ddisgyblion di-Gymraeg. Dôl rhyw elfen ychwanegol

o ddisgyblaeth yn sgil hynny. Cymharwyd disgyblaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg â'r hen ysgolion gramadeg. Cadarnhaodd tad di-Gymraeg yn y sector cynradd y sylw hwn:¹⁶

... there seemed to be a nice feeling like an old grammar school and they seemed to still have all the old values and traditions there; you could tell there was good discipline in the school. (*Cyfweliad 59:82-5*)

Rhesymau Economaidd

Rhesymau economaidd oedd y trydydd rheswm i rieni'r sampl ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yng Nghwm Rhymni. Yn wir, dewisodd 8 y cant (n=4) o rieni'r sampl ymchwil resymau economaidd dros ddewis y system i'w plant. Rhoddai rhieni bwysigrwydd amrywiol i resymau economaidd wrth ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg. Yr oedd y rhan fwyaf wedi crybwyll rhesymau economaidd fel bonws wrth ddewis y system, tra defnyddiodd eraill resymau economaidd er mwyn cyfiawnhau'r dewis. Fodd bynnag, i'r mwyafrif, nid rhesymau economaidd oedd bwysicaf wrth ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ac mae hyn yn gwrthbrofi hypothesis yr ymchwil hwn. Y rhieni a flaenoriaethodd fuddion economaidd y system addysg cyfrwng Cymraeg oedd y rhai a oedd o'r gred y byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn cynnig gwell swyddi i'w plant yn y dyfodol. Yr oeddent yn arddangos penderfyniad pellgyrhaeddol ac yr oeddent am fuddsoddi yn nyfodol eu plant wrth ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg iddynt. Gallwn gyfeirio at astudiaeth Williams *et al.* o'r Rhondda (1978) sy'n crybwyll bod rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yn 'burghers' sy'n gweld eu plant yn aros yng Nghymru yn y dyfodol ac felly'n gweld gwerth iddynt feddu ar y Gymraeg er mwyn iddynt brofi symudoledd cymdeithasol a swydd well yn y pen draw.

Wrth drafod y rhesymau economaidd yr oedd y rheini'n cynnwys, 'swyddi gwell', 'gweithio ledled Cymru', 'manteision yn y gweithle', 'agor drysau iddynt', 'gwerth ychwanegol i'r Gymraeg gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru', 'gwell cyfleoedd', 'gweld o brofiad y cyfleoedd gwaith ychwanegol' i enwi ond ychydig. Fe drow'n yn awr yn fanylach at y pynciau a drafodwyd gan y rhieni o fewn yr adran hon.

Cymru Ddwyeithog: Swyddi a Chyfleoedd Gwell yn Gymraeg

Swyddi gwell a swyddi mwy amrywiol yn y dyfodol oedd un o brif resymau economaidd rhieni'r sampl ymchwil. Nododd un fam ddi-Gymraeg¹⁷ yn y sector cynradd ei bod am roi mantais i'w phlant:

The main reason was to give them an advantage in life ... I wanted better for my children ... I think they'll benefit in job prospects. (*Cyfweliad 13:171 a 172-3 a 175*)

Fel hyn y disgrifiodd un fam iaith gymysg fuddion dwyeithrwydd ac astudio trwy addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel uwch:

¹⁶ Tad di-Gymraeg, 37 oed, swydd proffesiynol uwch (NS-SEC 1) peiriannydd sifil, hannu o ogledd y cwm, byw yng nghanol y cwm erbyn hyn.

¹⁷ Mam ddi-Gymraeg, 28 oed, ddi-waith hir dymor (NS-SEC 8) yn byw yng ngogledd y cwm.

Y prif beth yw, byddai mwy o gyfleoedd gyda nhw pryd maen nhw'n hŷn os maen nhw'n gallu siarad dwy iaith ... Mae'r myfyrwyr sydd wedi bod yn llywydd prifysgolion Cymru – mae'r Gymraeg yn agor gymaint o ddrysau iddynt. (*Cyfweliad 3: 310–3 a 325–30*)

Manteision Economaidd Dwyieithrwydd

Cyfeiriodd rhieni'r sampl at fanteision economaidd sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd hefyd. Yr oeddent o'r farn y byddai gan blant dwyieithog fanteision amlwg dros ymgeiswyr uniaith Saesneg. Ymhelaethodd un fam fod y gallu i siarad Cymraeg yn werthfawr iawn ym myd y gweithle yn ne Cymru ac, yn ogystal, bod siarad Cymraeg yn fonws ar CV ei phlant (*Cyfweliad 7: 183–5*). Cyfeiriodd nifer o rieni at yr hinsawdd economaidd wael a phrinder swyddi'r cyfnod. Yr oeddent o'r farn y byddai meddu ar y Gymraeg yn rhoi mantais hollbwysig i'w plant dros ymgeiswyr uniaith Saesneg, fel y nododd un fam ddi-Gymraeg yn y sector uwchradd:

I always felt that if they came out of school with the same qualifications as a person from the English school, because they were bilingual they'd have a better chance of getting employment. (*Cyfweliad 21:64–7*)

Rhesymau 'Personol' – sef yr Awydd i Berthyn

Prif resymau rhieni'r sampl dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant oedd rhesymau diwylliannol, addysgol ac economaidd. Serch hynny, crybwyllodd nifer cyfyngedig o rieni prin (8 y cant neu n=4) resymau yn gysylltiedig â'r awydd i berthyn. Mae yna arwyddocâd ehangach i'r canlyniad hwn. Yn wir, ynghyd â chymelliadau integreiddiol (yr awydd i gymathu i gymuned ieithyddol arbennig) ac offerynnol (yr awydd i feddu ar symudoledd cymdeithasol, er enghraifft drwy basio arholiad) dros ddysgu iaith (Gardner a Lambert, 1972) dadleua nifer fod dysgu iaith yn golygu awydd i fynegi hunaniaeth bersonol hefyd (Crookes a Schmidt, 1991). Yr oedd y rhesymau'n cynnwys sylwadau megis 'heb fynychu ysgol Gymraeg – cyfle na ges i', 'ffrindiau lleol yn mynychu Mudiad Ysgolion Meithrin', 'dylanwad teulu estynedig Cymraeg' a 'dylanwad ffrindiau'

Teulu Estynedig yn Siarad Cymraeg

Yr oedd rhai rhieni wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd bod eu teuluoedd estynedig yn siarad Cymraeg. Dewis naturiol, felly, i rieni iaith Gymraeg ac iaith gymysg fel ei gilydd oedd addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n ategu ymchwil Packer a Campbell (1997). Nododd un fam iaith gymysg yn y sector cynradd, 'yr oedd teulu Dad yn deulu Cymraeg, mae pawb yn y teulu yn siarad Cymraeg' (*Cyfweliad 43:31–2*). Soniodd canran fechan o rieni di-Gymraeg y sampl fod eu brodyr/chwiorydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg er nad oeddent wedi gwneud hynny eu hunain. Yn sgil hyn, yr oeddent yn fwy penderfynol o ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant eu hunain.

My wife has been educated through Welsh medium education. She was the driving force behind sending the children through Welsh medium education, I supported that, and I'm a passionate Welsh man. (*Cyfweliad 20:12–4*)

Dylanwad Ffrindiau

Yr oedd dylanwad ffrindiau yn amlwg o fewn yr ymchwil cynradd. Yr oedd ffrindiau a oedd wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yn ddylanwad amlwg ar rieni'r sampl ymchwil. Yr oedd nifer sylweddol o rieni'r sampl wedi troi at eu ffrindiau am gyngor wrth benderfynu dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant:

My very good friends went to the Welsh school, I spoke to them about it, my one friend who works at the BBC, said his English spelling was a little bit behind until he was nine or ten, but he soon picked that up and it wasn't a major issue. (*Cyfweliad 55:105-8*)

Rheswm sawl rhiant dros ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg oedd bod plant eu ffrindiau yn mynychu ysgolion y Mudiad Ysgolion Meithrin neu ysgolion Cymraeg lleol (*Cyfweliad 15:17-8*). Sefydlwyd rhwydwaith cymdeithasol amlwg yn sgil grwpiau Ti a Fi. Gwnaeth rhieni a phlant ffrindiau da iawn o fewn y sefydliad a dyna yn aml a'u sbardunodd i barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg llawn fel criw o ffrindiau. Yn ôl un fam ddi-Gymraeg uwchradd, 'we all decided to send our children to the Welsh school together at the same time' (*Cyfweliad 60:56-8*). Bu grŵp Ti a Fi'n ddylanwad mawr ar nifer o rieni drwy eu cyflwyno i'r system Gymraeg yn sgil ymweliadau brwdfrydig â'r ysgolion Cymraeg lleol (*Cyfweliad 47:42-6*).

Casgliadau

Dengys canlyniadau ymchwil cynradd astudiaeth Cwm Rhymni fod rhieni sampl Cwm Rhymni wedi dewis y system addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant oherwydd cyfuniad o resymau amrywiol a chymhleth eu natur. Yr hyn sy'n amlwg yw bod rhieni'r sampl yn parchu'r sector addysg cyfrwng Cymraeg ac, yn ogystal, bod y system addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhymni ac yn ne Cymru yn gyffredinol yn arf cynllunio ieithyddol llwyddiannus tu hwnt. Gallwn ddatgan mai'r system addysg cyfrwng Cymraeg sydd wrth wraidd cynnydd yn niferoedd siaradwyr Cymraeg ifanc yn ne-ddwyrain Cymru. Yn wir, mae'r astudiaeth yn cadarnhau llwyddiant y system addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd ffydd ac ymrwymiad siaradwyr di-Gymraeg yn y system addysg benodol hon.

Elfen addawol o'r ymchwil yw nodi mai rhesymau diwylliannol yn hytrach na rhai addysgol, economaidd a phersonol (yr awydd i berthyn), yw prif reswm rhieni'r sampl dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. At hynny felly, mae gan y canlyniad effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ar lefel micro (Cwm Rhymni) ac ar lefel macro (Cymru) ac ar wrthdroi shiff't ieithyddol yr iaith Gymraeg (Fishman, 1991). Wrth gwrs, y mae'r canlyniad hwn yn gwrthbrofi hypothesis gwreiddiol yr ymchwil a nododd y byddai rhieni Cwm Rhymni yn dewis y system addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yn sgil rhesymau economaidd a hyn, felly, yn ategu ymchwil Williams *et al.*, (1978). Fodd bynnag, mae canlyniad ymchwil hwn hefyd yn awgrymu bod gan rieni ymwybyddiaeth uwch o effeithiau pellgyrhaeddol eu dewisiadau addysgol ar ddyfodol yr iaith Gymraeg ei hunan. Ymhellach, wrth drafod cymelliadau amrywiol dros ddysgu iaith, gellid dadlau bod cymhelliad integreiddiol o ddewis iaith yn debygol o fod yn ddylanwad mwy llwyddiannus yn y hir tymor na chymhelliad offerynnol wrth ddysgu iaith (Crookes *et al.*, 1991 ac Ellis, 1997).

Fodd bynnag, yr oedd canran o rieni wedi dewis y system addysg Gymraeg am resymau economaidd ac felly rhaid gofyn a yw'r rheswm hwn yn ddigon er mwyn sicrhau dyfodol cadarn i'r iaith Gymraeg mewn ardal sydd â defnydd cymdeithasol cymharol isel o'r iaith Gymraeg? I gloi, rhaid datgan yn sgîl casglu data cynradd yn seiliedig ar astudiaeth Cwm Rhymni mai cymelliadau integreiddiol yn hytrach na chymelliadau offerynnol yw cymhellion cryfaf rhieni'r sampl ymchwil hwn dros ddewis y system addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Yn sicr, wrth edrych i'r dyfodol, y mae hwn o bosibl yn ganlyniad pwysig wrth gynllunio twf addysg Gymraeg yng Nghymru.

Atodiad 1: Tabl Swyddi Enghreifftiol Sampl Cwm Rhymni yn ôl yr NS-SEC

(National Statistics Socio-Economic Class Classification)

1	Dosbarthiad Galwedigaethol yr NS-SEC Rheolaethol Proffesiynol Uwch	Swyddi Enghreifftiol Sampl Cwm Rhymni Llyfrgellydd Siartredig
		Pennaeth Ysgol Gynradd/ Uwchradd
2	Rheolaethol/ Proffesiynol Is	Athrawon
		Gweithwyr Cymdeithasol
3	Swyddi Canolraddol	Gweithwyr Sifil Canolraddol
		Swyddogion yr Urdd/ Menter Iaith
4	Hunan Gyflogedig/ Ar ei Liwt ei Hun	Rhedeg Cwmni Adeiladu
		Rhedeg Cwmni Dillad Babi
5	Goruchwyliol/ Technegol Is	Goruchwylwyr y Sector Manwerthu
		Is-swyddogion Cyngor Lleol
6	Lled Ailadroddus	Cynorthwylwyr Meithrin
		Derbynyddion
7	Ailadroddus	Gweithwyr Ffatri
		Casglwyr Sbwriel
8	Di-waith hir dymor	N/A
		N/A

Llyfryddiaeth

Aitchison, J., a Carter, H. (2000), *Language, Economy and Society: The Changing Fortunes of the Welsh Language in the Twentieth Century* (Cardiff: University of Wales Press).

Aitchison, J., a Carter, H. (2004), *Spreading the Word: The Welsh Language 2001* (Talybont: Y Lolfa).

Baker, C. (2004), *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 13 (1) golygyddol.

Baker, C., a Prys Jones, S. (gol.) (1998), *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education* (Clevedon, Canada, Johannesburg: Multilingual Matters).

Bourdieu, P. (1986), 'The Forms of Capital, yn Richardson, J.G, (gol.), *Handbook for Theory and Research for the Sociology of Education* (London: Greenwood Press).

Bourdieu, P. (1987), 'What makes a social class? On the theoretical and practical existence of groups', *Berkeley Journal of Sociology* 32, 1-18.

Bourdieu, P. (1991), *Language and Symbolic Power*, J. Thompson (gol.), wedi ei gyfieithu gan Gino Raymond and Matthew Adamson (Cambridge: Polity Press).

Bush, E. (1979), *Bilingual Education in Gwent: Parental Attitudes and Aspiration*, Traethawd M.Ed., heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru.

Bush, E., Atkinson, P., a Read, M. (1981), *A Minority Choice: Welsh medium Education in an Anglicised Area- Parents' Characteristics and Motives* (Caerdydd: Uned Ymchwil SosiolegUnit, Adran Sosioleg Prifysgol Caerdydd).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999), *Dilyniant mewn Addysg Gymraeg* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2003), *Cyfrifiad 2001: Prif Ystadegau am y Gymraeg* www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/331.doc (Cyrchwyd 04:05.10)

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2004), *Strategaeth Addysg a Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2006), *Strategaeth Ieuencid Bwrdd yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Crookes, G., a Schmidt, R. (1991), 'Motivation: Reopening the research agenda'.

Language Learning, 41, 469-512.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2009), *Drafft Ymgynghorol Addysg Gymraeg 2010-2014* (Tredomen: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili).

European Commission: Multilingualism: Euromosaic Study www.uoc.edu/euromosaic/web/homean/index1.html (Cyrchwyd 10.09.08)

- Fishman, J. (1991), *Reversing Language Shift* (Clevedon, Avon: Multilingual Matters).
- Gardner, R. C., a Lambert, W. E. (1972), *Attitudes and motivation second language learning* (Rowley, M.A: Newbury House).
- Gruffudd, H. (2000), 'Planning for the Use of Welsh by Young People' yn C. H. Williams (gol.) *Language Revitalisation and Language Planning* (Cardiff: University of Wales Press), ff. 173–207.
- HMSO (1993), *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* (Llundain: HMSO).
- Hodges, Rh. (2009), 'Welsh Language Use Among Young People in the Rhymney Valley', *Contemporary Wales*, Vol. 22, 16–35.
- Khleif, B. (1974), 'Cultural regeneration and the school: An anthropological study of Welsh-medium schools in Wales' yn *International Review of Education*, Springer Netherlands, Vol. 22 (2), 176–189.
- Khleif, B. (1980), *Language, ethnicity, and education in Wales* (The Hague; New York: Mouton).
- Lewis, W. G. (2006), 'Addysg gynradd Gymraeg: her a chyfle yr unfed ganrif ar hugain' yn C. Redknap, W. G. Lewis, S. Rh. Williams a J. Laugharne (gol.) (2006), *Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog* (Bangor: Ysgol Addysg Prifysgol Cymru, Bangor).
- Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001), *Y Wlad sy'n Dysgu: Rhaglen Gynhwysfawr Addysg a Dysgu Gydol Oes hyd at 2010 yng Nghymru* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).
- Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003), *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).
- Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Drafft Ymgynghorol* (Caerffili: Llywodraeth Cenedlaethol Cymru).
- Lyon, J. ac Ellis, N. (1991), 'Parental attitudes towards the Welsh language', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 12:4, 239–51.
- Lyon, J. (1996), *Becoming Bilingual: Language Acquisition in a Bilingual Community* (Clevedon, Philadelphia, Toronto, Adelaide, Johannesburg: Multilingual Matters).
- Packer, A. ac Campbell, C. (1997), *Pam fod Rhieni yn dewis Addysg Gymraeg i'w Plant? Astudiaeth Ansoddol o Agweddau Rhieni, wedi ei chynnal o fewn Dalgylch Ysgol Gymraeg ei Chyfrwng, mewn Ardal Seisnigedig* (Aberystwyth: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru).
- Packer, A. and Campbell, C. (2000), 'Parental Choice in the selection of Welsh-medium education' yn Thomas, P. T. a Mathias, J. (gol.) (2000), *Developing Minority Languages: The Proceedings of the Fifth International Conference on Minority Languages July 1993* (Caerdydd, Llandysul: Gwasg Gomer).

Reynolds, D., Bellin, W. ac ab Ieuan, R. (1998), *Mantais Gystadleuol: Pam Fod Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn Perfformio'n Well?* (Caerdydd: Y Sefydliad Materion Cymreig).

Roth, G. a Wittich, C. (gol.) (1968), *Max Weber: Economy and Society* (New York: Bedminster Press).

Ellis, R. (1997), *The study of second language acquisition* (Oxford: Oxford University Press).

Thomas, H. (2007), *Brwydr i Baradwys? Y Dylanwadau ar dwf Ysgolion Cymraeg Deddwyrain Cymru*, Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Caerdydd.

Walliman, N. (2006), *Social Research Methods* (London, Thousand Oaks and New Delhi: Sage Publications).

Watson, W. (1964), 'Social mobility and social class in industrial communities' yn M. Gluckman and E. Devons (gol.), *Closed Systems and Open Minds* (Llundain: Oliver and Boyd 129–56).

Weber, M. (1964), *The Theory of Social and Economic Organization*, cyfieithwyd gan A. Henderson and T. Parsons, golwygwyd gan T. Parsons (Glencoe: Free Press).

Williams, C. H (gol.) (2000), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

Williams, G. a Morris, D. (2000), *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Cardiff, University of Wales Press).

Williams, G., Roberts, E. ac Isaac, R. (1978), 'Language and Aspirations for Upward Social Mobility' yn Williams, G. (gol.) *Social and Cultural Change in Contemporary Wales* (London: Routledge and Kegan Paul).

**Cerys A. Jones,
Neil Macdonald,
Sarah J. Davies,
Cathryn A. Charnell-White,
Twm Elias, a Duncan Brown**

Hinsawdd hanesyddol: Potensial ffynonellau dogfennol Cymru

Rhif **6** Gorffennaf 2010 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Hinsawdd hanesyddol: Potensial ffynonellau dogfennol Cymru

Cerys A. Jones, Neil Macdonald, Sarah J. Davies,
Cathryn A. Charnell-White, Twm Elias, a Duncan Brown¹

1. Cyflwyniad

Cydnabuwyd eisoes bod dogfennau hanesyddol yn ddefnyddiol ac yn werthfawr wrth geisio deall amrywiant hinsoddol hirdymor (Brázdlil *et al.*, 2006; Jacobeit, 2003; Lamb, 2005; Starkel, 2002). Yn y Deyrnas Unedig (DU) y mae'r Central England Temperature Series (1772–) a chylchgrawn tywydd Lamb (1861–) yn darparu cofnod hinsoddol manwl ar gyfer Lloegr, ond y mae gwerth yr archifau hyn mewn perthynas â'r Alban a Chymru yn fwy cyfyngedig. Y mae rhai cyfresi offerynnol hirdymor (*longterm instrumental series*) yn bodoli, yn enwedig ar gyfer dinasoedd megis Caeredin (Dawson *et al.*, 2004; Macdonald *et al.*, 2008), ond y maent yn brin. Y mae'r pellter o ganolbarth Lloegr, a phrinder gorsafoedd offerynnol yn yr Alban a Chymru wedi cyfyngu ein dealltwriaeth o amrywiant hinsoddol yn yr ardaloedd gogleddol a gorllewinol yn ystod y cyfnod offerynnol (*instrumental period*) (~1750–), gan rwystro unrhyw ymchwil fanwl i wahaniaethau rhanbarthol hefyd. Y mae'r papur hwn yn archwilio potensial dogfennau hanesyddol o Gymru i ddarparu adluniad manwl o amrywiant hinsoddol ac eithafion tywydd dros y canrifoedd diwethaf. Buasai cofnod o'r fath yn darparu gwybodaeth werthfawr ynghylch yr ardaloedd ar ymylon gorllewinol Prydain sy'n sensitif i amrywiannau môr Gogledd yr Iwerydd (Mayes, 2000). Yng nghyd-destun ehangach newid hinsawdd byd-eang, mae'n bwysig archwilio a datblygu ffynonellau gwahanol sydd yn debygol o helpu i lunio cyd-destun o amrywiant hinsoddol naturiol ar gyfer y cynhesu mwyaf diweddar.

Yn 1877, rhestrodd *British Rainfall 96* o safleoedd monitro dyodiad (*precipitation*) yng Nghymru. Lleolwyd mwyafrif y safleoedd yn nhrefi a dinasoedd y tir isel. O ganlyniad, cafodd ardaloedd gwledig ac ardaloedd ar dir uchel gynrychiolaeth wael (Symons, 1878). Cyniga dogfennau hanesyddol botensial sylweddol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o amrywiant hinsoddol mewn ardaloedd gwledig, amllder a maint eithafion, neu ddigwyddiadau eithafol eraill yn benodol (Brázdlil *et al.*, 2005). Ni wnaed asesiad manwl o'r cofnod hinsoddol (*climate record*) ar sail dogfennau hanesyddol yng Nghymru. Canolbwyntiodd gwaith diweddar ar ganfod digwyddiadau *tsunami*, ar hyd arfordir Penrhyn Llŷn cyn 1600 (Haslett a Bryant, 2007). Hwyrach y bu llai o ddadansoddi ar hinsoddeg hanesyddol Cymru am fod ffynonellau yn aml yn y Gymraeg, neu'n gymysgedd o Saesneg a Chymraeg, sy'n annarllenadwy i'r di-Gymraeg. Yn aml, gwasgerir ffynonellau hanesyddol (oni bai eu bod mewn casgliadau arbennig) gan gynyddu'r anhawster o'u lleoli, eu cyrchu a'u deall. Her bellach wrth ddiffinio union ystyr y disgrifiad

¹ Cerys A. Jones a Sarah J. Davies: Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth; Neil Macdonald: Department of Geography, University of Liverpool; Cathryn A. Charnell-White: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru; Twm Elias: Parc Cenedlaethol Eryri; Duncan Brown: Annibynnol.

yw'r ffaith y gall terminoleg y disgrifiadau fod mewn tafodiaith leol. O ystyried y cyfoeth o ddogfennau a geir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ynghyd ag amryw o archifau rhanbarthol, hwyrach ei bod yn syndod bod astudiaethau blaenorol a aeth i'r afael â dadansoddi hinsawdd hanesyddol o fewn y DU wedi esgeuluso cyfraniad posib y ffynonellau Cymreig. Ceir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru un o'r casgliadau mwyaf o weithiau llenyddol a hanesyddol Cymraeg eu hiaith yn y byd. Yn y casgliad, y mae nifer o ffynonellau yn trafod y tywydd a'r hinsawdd, mewn dull disgrifiadol weithiau, ac yn ymyllo i'r prif ffocws yn aml. Ond dro arall, y mae ffynonellau yn croniclo'r tywydd neu'r hinsawdd yn benodol. Y mae'r amrywiaeth eang o ffynonellau yn cynnwys dyddiaduron personol, cofnodion fferm ac ystad, cofnodion cyngor a phlwyf, cofnodion newyddiadurol, a barddoniaeth a baledi hyd yn oed.

Yn y papur hwn, nodir cyfres o destunau allweddol sy'n ffrwyth ymchwil ragarweiniol i ddogfennau a ffynonellau sy'n gysylltiedig â'r tywydd neu'r hinsawdd yng Nghymru. Ceir yn eu plith ddeunydd Cymraeg, Saesneg a dwyieithog neu *macaronic*, lle defnyddir ieithoedd amryfal yn gyfnewidiol o fewn y testun. Y mae'r detholiad o destunau a gyflwynir yma wedi ei gynllunio i ddangos amrywiaeth ac ystod y ffynonellau sydd ar gael mewn archifau ac mae'n cynrychioli gwaith sydd yn mynd rhagddo. Cyflwynir geiriadur Cymraeg o dermau cyfoes, hanesyddol a lleol ar gyfer y gwahanol fathau o dywydd er mwyn hwyluso adnabod termau tywydd anghyfarwydd. Ystyrir sut y gellir datblygu'r astudiaeth o gofnodion hanesyddol Cymreig er mwyn darparu golwg newydd ar amrywiant hinsawdd a thywydd ar ymylon môr Gogledd yr Iwerydd yn ogystal â natur ymateb cymdeithasol i eithafion hinsoddol.

2. Cymru a'r Tywydd

Y mae topograffi Cymru, er yn fryniog yn gyffredinol, yn cynnwys tair prif ardal fynyddig. Yn y de, yn rhedeg o'r gorllewin i'r dwyrain, y mae Bannau Brycheiniog a'r Mynyddoedd Duon; tra bod Mynyddoedd Cambria yn rhychwantu'r de a'r gogledd trwy ganolbarth Cymru. Ceir y mynyddoedd uchaf yng ngogledd-orllewin y wlad, gyda sawl copa yn mesur dros 1,000 metr, gan gynnwys Yr Wyddfa, mynydd uchaf Cymru a Lloegr. Y mae'r topograffi'n rheolydd pwysig wrth bennu tywydd lleol a rhanbarthol, gan fod graddiant glawiad (*rainfall gradient*) cryf amlwg ar hyd llawer o'r arfordir gorllewinol o ganlyniad i'r tirwedd serth. Arfordir yw dros dri-chwarter o oror Cymru. Gan hynny, y mae'r wlad yn sensitif iawn i newidiadau yn systemau cylchrediad (*circulation systems*) y lledredau canol sy'n tarddu dros fôr Gogledd yr Iwerydd.

Y mae gan Osgiliad Gogledd yr Iwerydd (*North Atlantic Oscillation*) (OGI) berthynas gref â dyodiad. Yn ystod cyfnod OGI positif y mae gaeafau nodweddiadol yn wlyb a mwyn, ond maent yn sychach ac oerach yn ystod cyfnod negyddol (Hurrell, 1995; Hurrell *et al.*, 2001). Amllder gwasgedd isel Môr yr Iwerydd yn y llif aer gorllewinol cryf sy'n cyfrif am y gwlypter ychwanegol (Wheeler a Mayes, 1997).

Yn hanesyddol, bu amaethyddiaeth yn hanfodol i economi Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle y mae gan gymunedau gysylltiad cryf â'r amgylchedd naturiol a'i amrywiant. Dynodir tua 80 y cant o dir yn 'llai ffafriol' gan yr UE, label a seilir ar ffactorau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol. At hynny, y mae cyferbyniad cryf rhwng ardaloedd ucheldir ac iseldir Cymru. Y mae'r ucheldir ar gyrion ffermio masnachol posib, felly ffermio defaid mynydd a wneir yno yn bennaf, tra bod iseldiroedd yr arfordir ac

ardaloedd llifwaddodol yn llawer mwy ffrwythlon a chynhyrchiol, a'r amodau hinsoddol yn fwy ffafriol. Tan ddiwedd y ddeunawfed ganrif, yr oedd dull o amaethu trawstrefol yn gyffredin yng Nghymru. Yn ystod misoedd yr haf, byddai ffermwyr yn symud i'r Hafod ac yn pori eu hanifeiliaid ar y mynyddoedd. Yn ystod misoedd y gaeaf, byddai'r anifeiliaid yn dychwelyd i gysgodi i'r iseldir a'r Hendref. Y mae llawer o gartrefi ar hyd Cymru yn dal i gadw'r cysylltiad â'r dulliau ffermio hyn, gan fod nifer o'r adeiladau'n parhau i gadw 'Hafod' neu 'Hendre' o fewn enw'r cartref. Amlygir sensitifwydd cymunedau amaethyddol yn ucheldir gorllewin Cymru i amrywiad hinsoddol yn effeithiau niweidiol gaeaf 1946–47, sef y mwyaf eiraog ar glawr a chadw. Achosodd stormydd eira, yn ystod misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth 1947, golledion enfawr i'r preiddiau o ddefaid ar fynyddoedd canolbarth Cymru ac, o ganlyniad, daeth gweithgarwch nifer o ffermydd i ben yng Nghwm Tywi, sydd rhwng Tregaron ac Abergwesyn (Jones, 2007). Dioddefodd ffermwyr defaid yr ardal gryn golledion yn ystod gaeafau llym blaenorol 1814 ac 1895 (Howells, 2005).

3. Ffynonellau

Y mae dosbarthiad daearyddol y tafodieithoedd, ac absenoldeb orgraff sefydlog ar gyfer nifer o eiriau a chysyniadau yn cymhlethu'r broses o gasglu a dadansoddi'r disgrifiad hanesyddol. Er enghraifft, ceir sawl amrywiad ar gyfer *flood*: llifiad, llifad, llifant, llifant. Defnyddir geiriau gwahanol o dafodiaith i dafodiaith, megis 'cesair' yn y de a 'chenllysg' yn y gogledd i ddynodi *hail*. Rhagor na hynny, cyflwynwyd geiriau newydd i ddogfennau ac i'r Gymraeg ysgrifenedig dros amser. Mae cyfystyron *frosty* yn enghraifft dda o hyn: gwelir y dystiolaeth gyntaf o ddefnydd y geiriau 'rhwylid' a 'rhwlyd' yn nogfennau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, 'rhewaidd' (tua 1730), 'rhwog' (1773) a 'rhewol' (1837) (o Eiriadur Prifysgol Cymru, 2003–). Y mae'r materion hyn yn golygu bod dadansoddi deunydd yn heriol.

Natur yr Archif	Cyfnod Amser pob Archif (yng Nghymru)	Math o Wybodaeth Hinsoddol
Cronicleu Crefyddol	682 – 1330	Blwyddnodion am eithafion tywydd
Barddoniaeth	~800* – presennol	Disgrifiad creadigol o gyfnod meteorolegol (e.e. I Haf Oer 1555)
Llythyron	~1500* – presennol	a) Disgrifiadau o dywydd diweddar a'i effeithiau b) Mesuriadau, e.e. baromedr, thermomedr a chyfeiriad gwynt
Dyddiaduron	~1600* – presennol	a) Disgrifiadau o dywydd dyddiol a'i effeithiau b) Mesuriadau, e.e. baromedr, thermomedr a chyfeiriad gwynt
Papurau newydd	1690au – presennol	a) Adroddiadau o dywydd eithafol a'i effeithiau b) Mesuriadau (e.e. glawriad misol yn y Carmarthen Journal, 1868–82)
Gweithiau Rhamantaidd	1770au – 1830au	Disgrifiadau amrywiol o dywydd diweddar a hanesyddol a'i effeithiau
Cardiau Post	1894 – presennol	Disgrifiadau byr o dywydd diweddar

Tabl 1: Crynodeb o'r Prif Gategoriâu o Ffynonellau

*Amcangyfrif bras; ni wyddys am farddoniaeth o fewn llawysgrif yn y Gymraeg cyn 800OC nac, yn yr un modd, am lythyron a dyddiaduron cyn 1500 ac 1600.

I oresgyn hyn, crewyd geirfa syml o dermau sy'n ymwneud â'r tywydd i hwyluso'r ymchwil ac i helpu yn y broses o adnabod geiriau anghyfarwydd (Atodiad 1), gan alluogi dadansoddiad o wahanol ddisgrifiadau o'r tywydd yn fwy cyflym a dibynadwy yn y dyfodol. Wrth i'r ymchwil fynd yn ei blaen, rhagwelir y bydd y geiriadur yn datblygu ac yn esblygu i archwilio rhagor o destunau. Y mae prosiect newydd 'Llên yr Hin' ar waith i drawsffurfio'r geiriadur syml hwn at ddefnydd anffurfiol a'i wneud yn fwy cynhwysfawr er mwyn casglu enwau a thermâu yn ymwneud â'r tywydd, boed hanesyddol, cyfredol, gwerinol neu dechnegol. Os ydych am gyfrannu gair neu derm i 'Llên yr Hin', ewch i <http://llennatur.com/cy/node/17> neu cysylltwch â'r awduron. Troir nesaf i amlinellu detholiad o'r ffynonellau allweddol a grynoir yn nhabl 1.

3.1: Croniclau Crefyddol

Ni astudiwyd cofnodion mynachaid na chanoloesol hyd yn hyn, ond cynigiant bosibiliadau gwerthfawr ar gyfer ymchwil bellach yn y dyfodol. Y mae'r testunau crefyddol a astudiwyd yn cynnwys *Annales Cambriae* (AC) a *Brut y Tywysogion* (ByT), sef casgliadau cymhleth o flwyddnodion mynachaid sy'n rhoi disgrifiadau byr o eithafion tywydd a all fod ychydig yn amwys, ac o ganlyniad yn anodd i'w dehongli. Er enghraifft, dyma'r cofnod ar gyfer y flwyddyn 689 AC: 'A bloody rain occurred (fell, B) in Britain (and in Ireland, BC), and milk and butter were turned into blood' (Dumville, 2002: 2). Ceir cofnodion uniongyrchol hefyd, megis y cofnod canlynol o ByT: 'Seven hundred and twenty was the year of Christ when the hot Summer befel' (Jones, 1952: 2).

Y mae'r modd yr ysgrifennwyd y cofnodion hyn, ganrifoedd wedi'r digwyddiadau yn aml, a'u casglu, o sawl llawysgrif ar hyd y wlad a thu hwnt, yn ei gwneud hi'n anodd creu adluniad dibynadwy ar gyfer ardal neu wlad benodol. Credir bod fersiwn Lladin y *Brut* wedi cael ei gynnull yn Ystrad Fflur tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg ond iddo gael ei ychwanegu ato yn Abaty Glyn y Groes (*Valle Crucis*), ger Llangollen rhwng 1282 a 1332 (Hughes, 1973). O ganlyniad, gan fod y cofnodion uchod ar gyfer y blynyddoedd 689 a 720, y mae'n debygol nad yng Nghymru y'u hysgrifennwyd yn wreiddiol. Serch hynny, ceir y cofnodion canlynol ar gyfer y cyfnod yn Llangollen: '... and the sun reddened on that day in the beginning of autumn' (1298) (Jones, 1952: 122); '... and on the feast-day of St. Catherine before that, occurred the great wind wherewith the belfry of Wrexham fel (sic). And one night before Christmas eve there was a great wind, and on the third day after Christmas day. (That) year came the harmful tempest which did not allow the corn to ripen til winter came, and there was much that was never reaped' (1330) (*Ibid.*: 126).

Y mae'r AC yn gasgliad o groniclau Gwyddelig a Gogleddol a gasglwyd yn Nhyddewi ar ddiwedd yr wythfed ganrif ac o 954 ymlaen fe ychwanegwyd atynt yno. Rhwng 1189 a 1263, cadwyd yr AC yn Ystrad Fflur, lle ychwanegwyd deunydd cyfoes atynt, yn ogystal â deunydd o gyfnod cynharach o Hendy-gwyn ar Daf, Strata Florida a Chwm Hir (Hughes, 1973). O ystyried hyn, nid yw'n debygol fod y cofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth am y tywydd yn *Annales Cambriae* yn dod o Gymru, am eu bod i gyd yn perthyn i'r cyfnod cyn y flwyddyn 954. Er y cymhlethdod, y mae eu pwysigrwydd i hinsoddegwyr yn glir pan

ystyri'r prinder y deunydd ysgrifenedig sydd ar gael ar gyfer y cyfnod hwn, yn enwedig yng Nghymru.

3.2: Barddoniaeth

Ceir ystod eang o waith barddonol gan gynnwys carolau haf, baledi a cherddi unigol (e.e. gan Catrin ferch Gruffydd ap Hywel 'I Haf Oer 1555'; englynion gan William Jones, Llangadfan, 'I'r Flwyddyn Wlyb, 1792' a chan Dafydd Ddu Eryri i eira 1784). Ceir, yn ogystal, rai sydd yn trafod themâu crefyddol ac sy'n adlewyrchu meddylfryd crefyddol eu hoes. Er enghraifft, yn y gerdd i'r flwyddyn 1629 'pan yr oedd y llafur neu'r yd yn afiachus trwy lawer o law' gan Rhys Pritchard, ceir y dymuniad canlynol: 'Duw frenin trugarog, Duw Dad hollalluog, / Duw porthwr newynog, na newyna ni ...' (Lloyd, 1994: 135). Er na ellir ei hystyried yn ddisgrifiad dibynadwy o'r tywydd, rhaid cydnabod bod y gerdd yn cadw cof am ddigwyddiad penodol a oedd yn ddigon arwyddocaol i'w gofnodi. Gellir, felly, ei defnyddio ochr yn ochr â ffynonellau eraill i greu darlun o gredoau a chanfyddiadau pobl am y tywydd a digwyddiadau eithafol eraill.


3.3: Papurau Newydd

Gall dogfennau swyddogol ddarparu gwybodaeth am ddigwyddiad hinsoddol ynghyd ag ymateb yr awdurdodau iddynt. Er enghraifft, papurau ystadau, cofnodion cyfarfod a phapurau economaidd awdurdodau megis cyngorau sir diweddar, a chymdeithasau amaethyddol a naturiaethol. Er na thrafodir holl ystod y dogfennau swyddogol hyn yn fanwl yn y papur hwn, dylid nodi eu potensial enfawr i ddyfnhau ein gwybodaeth o'r tywydd a'r hinsawdd.

Defnyddir papurau newydd yn enghraifft o ddeunydd swyddogol am eu bod yn crynhoi sawl agwedd o'r tywydd mewn cyfnod penodol. Er i nifer o drefi ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr ddechrau cyhoeddi papurau newydd yn y 1690au, y papur Cymreig cyntaf oedd *The Cambrian* (1804–1930). Y papur newydd cyntaf yn yr iaith Gymraeg oedd *Seren Gomer* (1814). Ond ni ffynnodd papurau newydd tan 1855 pan ddiddymwyd y dreth ar bapur printiedig. Wedi hyn, daeth dyfodiad y papur dyddiol Cymreig cyntaf, sef y *Cambrian Daily Leader* (1861) (Jones, 1993).

Cyhoeddwyd y *Carmarthen Journal* am y tro cyntaf yn 1810 a dechreuwyd argraffu mesuriadau glawiad Mr George Stephens, sef rheolwr y carchardy yng Nghaerfyrddin, o 1863. Gwerthfawrogir pa mor amhrisiadwy yw mesuriadau Mr Stephens pan ystyri'r mai'r cofnod tywydd swyddogol cyntaf yn yr hen sir Ddyfed yw glawiad yn Aberystwyth yn 1865; ac o ystyried hefyd na cheir data swyddogol ar gyfer Caerfyrddin tan 1866 (o'r carchar) a 1871 (o'r gwallgofdy). Fodd bynnag, daeth argraffu mesuriadau Mr Stephens i ben yn 1882, ond cyhoeddwyd adroddiadau misol, swyddogol y gymdeithas feteorolegol o'r gwallgofdy yn y *Carmarthen Journal* nes Hydref 1886. Wrth ddadansoddi data'r carchar gwelir, yn ffigur 1, bod y cyfnod (1863–82) yn fwyfwy gwlyb a bod 1872 a 1882 yn flynyddoedd gwlyb iawn. Yn anffodus, nid yw'r cofnod rhifiadol (*numerical record*) yn parhau yn y wasg nes cyfnod diddorol o safbwynt meteoroleg hanesyddol, sef sychder 1887. Ond gwelir ar y graff gwmp sylweddol mewn glawiad o 38.89 modfedd, a gofnodwyd gan Mr George Stephens yn 1864, i 28.4 modfedd yn 1887 (mewn coch, sef cyfartaledd mesuriadau Hwlfordd a Llandudno o Brooks a Glasspoole, 1928). Buasai'n

rhaid troi at ddeunydd swyddogol y swyddfa feteoroleg i lenwi'r bylchau rhifiadol yn y cyfnod hwn, gan ddilyn goblygiadau'r sychder ar bobl gorllewin Cymru yn y wasg. Er enghraifft, y mae tro ar fyd y ffermwr, yn aml, yn arwyddocáu newidiadau yn y tywydd, sef trwy beri i afiechydon ledu, neu ddinistrio chydau'n uniongyrchol yn sgil gwyntoedd cryfion, sychder neu law yn ystod cynaeafu. Ceir disgrifiadau o effaith sychder 1887 ar amaethwyr yn y wasg: '... it is difficult to see how the barley and oat crops are to pull through without (rain). The soil was so dry that the moisture was absorbed by the surface, which is dry again, whilst the bottom has never been wet in 1887.' (*Carmarthen Journal*, 17 Mehefin 1887: 4). Felly, er nad yw'r cofnodion mesuredig am y flwyddyn hon yn gynwysedig, gellir lloffa gwybodaeth ddisgrifiadol werthfawr am effeithiau'r tywydd ar yr amgylchedd o'r papurau newydd.



Ffigwr 1: Mesuriadau Glawiad Blyneddol Carchar Caerfyrddin o 1863 i 1882 (*Carmarthen Journal*, amrywiol). Rhoddwyd y crynodebau i'r *Carmarthen Journal* gan Mr Geo. Stephens, Rheolwr y Carchar Sirol tan 1879, a gan Mr George Parcell Rees, Prif Warchodwr Carchar y Frenhines hyd at 1882. Y pwynt coch oedd glawiad cyfartalog Hwlfordd a Llandudno, sef 28.4 modfedd yn ystod sychder dirifol 1887 (o Brooks a Glasspoole, 1928).


3.4: Dyddiaduron

Ffynhonnell sy'n cynnwys cyfoeth o wybodaeth yw dyddiaduron tywydd a dyddiaduron personol. Y dyddiadurwr tywydd swyddogol cyntaf oedd William Merle, a gadwodd ddyddiadur o Ionawr 1277 hyd Ionawr 1344, ond y mae dyddiaduron a astudiwyd eisoes i'w cael mewn casgliadau cyhoeddus a phreifat. Cedwir dyddiaduron William Bulkeley (1734–43), William Thomas (1762–95), a Walter Davies (Gwallter Mechain) (1797–1846) mewn llyfrgelloedd, tra cedwir rhai Margaret Jones, Cwm Tywi, a D. O. Jones, Ysbyty Ifan, mewn casgliadau teuluol. Y mae'r dyddiaduron hyn nid yn unig yn cynnwys arsylwadau dyddiol o'r tywydd ond, yn aml, yn disgrifio sut y mae'r tywydd yn effeithio ar eu bywyd bob dydd. Er enghraifft, cofnododd Mrs Margaret Jones o Gwm Tywi, ger Tregaron, fanylion ei bywyd yn ddyddiol, gan gynnwys y cyfnod o eira yn 1947. Gan fod y dyddiaduron yn gyfoes, gellir codio'r (*code*) disgrifiadau i greu indecsau y gellir eu defnyddio i'w cymharu â mesuriadau a gasglwyd eisoes. Er enghraifft, dynodir y codau

í'r disgrifiadau canlynol: 0 = nad oes disgrifiad o eira ar y diwrnod, neu os dywedir ei bod yn dadmer; 1 = pluo eira ysgafn; ac yn y blaen, hyd at 4 = lluwchio eira (gweler tabl 2). Daw data'r eira mesuredig (*measured snow data*) o orsafoedd mesur arfordirol. Golyga hyn fod y dyfnderoedd lawer yn llai nag a ddisgwyliid yn ucheldiroedd Tregaron, hyd at 400 metr uwchlaw lefel y môr, lle cafwyd lluwchfeydd a oedd yn cyrraedd toeau'r cartrefi yn nhref Tregaron (*Welsh Gazette*, 13 Mawrth 1947). Yn ogystal, yr hyn a ddisgrifir yn y dyddiadur yw'r cwmp eira, nid trwch yr eira ar y ddaear gan arwain at oediad a pharhad yn y cofnod eira mesuredig (*measured snow record*). Er enghraifft, gall disgrifiad o gwmp eira trwm ar un diwrnod mewn dyddiadur gael ei weld yn y mesuriadau dyfnder eira am ddyddiau wrth í'r eira barhau i fod ar y ddaear. Er bod gwahaniaethau i'w cael ar adegau, y mae'r dadansoddiad o ddisgrifiadau cwmp eira Mrs Jones yn cyfrannu at y ddadl ynghylch dibynadwyedd cofnodion ysgrifenedig, eu codeiddio, eu dehongli a'u dadansoddi.

Côd	Disgrifiad
0	Dadmer / Dim sôn am eira
1	Eira ysgafn
2	Cawodydd o eira
3	Eira trwm
4	Storm eira / lluwchfeydd

Tabl 2: Codau Cwmp Eira (y defnyddir hwy yn Ffigur 2)



Ffigur 2: Graff yn cymharu disgrifiadau wedi eu codeiddio o gwmp eira yng Nghwm Tywi ger Tregaron, ynghyd â mesuriadau o orchudd eira yng ngorsafoedd meteorolegol Cymru. Dechreuir ar ddydd rhif 1 sef 25 Ionawr 1947. Daw'r data mesuredig o orsafoedd mesur yng Nghaerdybi, Penarlâg, Aberporth, Penfro a Fairwood (Abertawe) (Winter 1947 in the British Isles, Ionawr 2007).

3.5: Llythyron

Y mae amryw o gasgliadau o lythyron yn cynnwys gwybodaeth feteorolegol, megis llythyron Edward Williams (Iolo Morganwg), Walter Davies (Gwallter Mechain) a Richard, Lewis, Wiliam a Siôn Morris (Morrisiaid Môn). Y mae casgliad Llantood yn enghraifft

ragorol, sef llythyron Morris a Daniel Williams at eu tad, John Williams, ym Mhenrallt Ddu yn Llantood, Sir Benfro. Dyma a ysgrifennodd John at Daniel 21 Chwefror 1814: '... 22nd North East by East Strong wind. all the High roads was Shut up from hedge to hedge from the 23rd til the 28th Thaw very gently ...' Aeth yn ei flaen i ddisgrifio'r eira, y rhew, y gwynt a'r meirioli ar gyfer y mis ar ei hyd (Llythyron Llantood, 1811–24).

3.6: Cardiau Post

Dechreuwyd gohebu trwy gyfrwng cardiau post yn 1894, pan roddodd y Post Brenhinol ganiatâd i'w cyhoeddi. Cynyddodd mewn poblogrwydd wrth i amser hamdden y boblogaeth a'r cyfle am wyliau glan môr gynyddu, ond lleihaodd yr arferiad o'u hanfon yn y 1970au a'r 1980au gyda chynnydd poblogrwydd gwyliau tramor. Fe'u hystyrir yn rhan bwysig o ddiwylliant Prydain a cheir casgliadau arbenigol o gardiau post mewn llyfrgelloedd a chan deltiolegwyr, sef casglwyr cardiau post. Yn ogystal, y maent yn darparu cofnodion byr ac unigryw o'r tywydd ar draws Cymru. Er mai trefi glan môr megis Llandudno ac Aberystwyth a oedd yn denu'r nifer mwyaf o ymwelwyr, gwelir enghreifftiau o drefi mwy gwledig hefyd. Anfonwyd cerdyn post o Gastell Newydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin, i Wrecsam, Sir Dainbych, ar 8 Mai 1913 (gweler ffigwr 3): 'at the Cawdor: Newcastle Emlyn. Thursday. I wonder if you are able to get out today? here it is absolutely hopeless; fierce cruel gale, torrents of rain unceasing: really obliged to keep indoors. Tuesday & yesterday did manage to get afield at cost of successful wettings: today, even that luxury is denied!' (G.G.S., 1913). Serch hynny, y mae'r gohebydd yn gorffen yn addawol am ei wyliau: 'Hope for tomorrow!' (G.G.S., *Ibid.*). Er nad yw'r cardiau hyn yn rhoi llawer o wybodaeth am yr awdur, gellir eu lleoli wrth y marc post sydd hefyd yn nodi'r union ddyddiad yr anfonwyd y cerdyn. Wrth gwrs, nid oes modd defnyddio'r cardiau post i adlunio hinsawdd rhanbarth neu ardal benodol os nad yw'r marc yn gyfan nac yn ddarllenadwy.



Ffigwr 3: Cerdyn Post a anfonwyd o Gastell Newydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin, i Wrecsam, Sir Dainbych, ar 8 Mai 1913. Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

3.7: Gweithiau Rhamantaidd

Yr oedd yr arferiad o gofnodi gwyliau a theithiau yn boblogaidd cyn dyfodiad y cerdyn post. Defnyddir gwaith Gerallt Gymro yn aml am ei fod yn sôn am winllannoedd a stormydd yn Sir Benfro yn ei *Hanes y daith trwy Gymru a Disgrifiad o Gymru* (gweler Macdonald *et al.*, yn y wasg). Ond cynhyrchwyd llawer iawn o gofnodion hinsoddol anuniongyrchol yn ystod y cyfnod Rhamantaidd (1770au i'r 1830au). Yr oedd Cymru wedi datblygu i fod yn lle poblogaidd i deithio gan ei bod yn bodloni disgwyliadau Rhamantaidd y teithwyr o ran arddunedd ac unigedd (Zaring, 1977). Ceir enghreifftiau defnyddiol gan deithwyr o Gymru, megis Thomas Pennant (1726–98) a Richard Fenton (1747–1821), tra bod eraill, megis George Borrow (1803–81) a Samuel Heinrick Spiker (1786–1858), yn deithwyr estron i'r wlad. Mewn rhannau o'u gweithiau, gwelir ambell nodyn, yn aml heb ddyddiad, sy'n rhoi mewnwelediad i hinsawdd y cyfnod. Er enghraifft, dyma a ysgrifennodd Pennant am Greigiau'r Eira yn Eryri:

The earliest appearance of snow is commonly between the middle of October and the beginning of November: the falls which happen then are usually washed away with the rains and the hills remain clear til Christmas. Between that time and the end of January, the greatest falls happen. These are succeeded by others about the latter end of April or the beginning of May, which remain in certain places til the middle of June. It has even happened that the greatest fall has been in April or the beginning of May, and that never fails happening when the preceding winter has had the smallest falls. But the fable of Giraldus concerning the continuance of snow the whole year is totally to be exploded," (Pennant, 1998: 107–9)

Dengys cofnodion Giraldus (Cambrensis) a Pennant, os ydym yn ymddiried yn y ddau awdur, fod amodau hinsoddol yr ardal wedi newid rhwng ymweliadau'r ddau â'r safle.

Ceir cofnodion mwy cyson, cyffredinol ond manwl, gan Fenton gan iddo nodi effaith y tywydd ar ei gynlluniau teithio: 'May 21st (1804) – Left Builth, after a Shower which gave freshness to the Air, and made the Roads pleasant' (Fenton, 1917: 20). Byddai'r tywydd weithiau yn chwalu ei gynlluniau:

Wednesday 6th (June, 1804) – After waiting in anxious suspense the whole morning for the weather to clear up (as it rained hard), about ½ past two took a scrap of cold Meat and a draught of Porter, and with the appearance of a fine Evening, set off the North side of the Severn with an intent of tracing the Road that led from Caer Sws Northward. (*Ibid.*: 36–7)

Y mae'r strwythur personol, anffurfiol hwn yn amlygu'r ffaith mai profiadau'r awdur ydynt. Ond rhaid bod yn wylidwrus wrth archwilio'r math hwn o waith gan fod tuedd gan lawer, yn enwedig Pennant, i gasglu a chyfuno disgrifiadau teithwyr eraill heb eu henwi a'u dyfynnu'n gywir, os o gwbl, ar adegau. Ymhellach, daeth gwaith Pennant ei hun yn batrwm ac yn destun llên-ladrad i deithwyr dilynol.

4. Trafodaeth

Yn yr erthygl hon, cyflwynwyd detholiad o ddogfennau y gellir eu defnyddio i wella cronoleg feteorolegol Cymru o safbwynt amseryddol a daearyddol. Ond erys cyfoeth o wybodaeth ddogfennol ynghylch y tywydd a'r hinsawdd i'w astudio a'i ddadansoddi ymhellach. Y mae'r potensial ar gyfer cofnodion dogfennol o gymunedau gwledig yn helaeth, ond ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi ei wneud yn y maes hyd yn hyn. Er bod rhai cofnodion dogfennol yn gorgyffwrdd â'r cyfnod offerynnol, ychydig iawn o gyfresi offerynnol hir sy'n bodoli mewn ardaloedd gwledig, lle y mae disgrifiadau dogfennol yn arf gwerthfawr.

Cedwir dyddiaduron yn aml ar ffermydd am sawl cenhedlaeth gan adlewyrchu'r berthynas glôs rhwng ffermio, yr amgylchedd a'r tywydd yn enwedig. Cynrychiolant, felly, adnoddau sydd heb eu defnyddio o'r blaen i ystyried tywydd a hinsawdd y gorffennol. Y mae dyddiaduron o ddiddordeb arbennig wrth astudio tywydd mewn ardaloedd anghysbell lle y mae bodolaeth cofnodion mesuredig da yn annhebygol hyd ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Y mae dyddiaduron personol, megis rhai Mrs Margaret Jones, yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth ond, yn aml, ceir hefyd fanylion teuluol a sylwadau o natur personol iawn sy'n golygu eu bod yn etifeddiaeth bwysig i'r teulu. O ganlyniad, nid yw'n bosib (nac yn briodol) adolygu dyddiaduron yn drwyadl ym mhob achos, rhag ofn tarfu ar y teulu. Fodd bynnag, gydag ystyriaeth foesol briodol ynghyd â chydweithrediad a chytundeb y teuluoedd, y mae gan y ffynonellau hyn y potensial i ddatguddio gwybodaeth werthfawr ar yr amrywiaeth hinsoddol ac ar ymatebion cymdeithasol i newid amgylcheddol.

Yn ogystal, creïr darlun ehangach o hanes amgylcheddol gan y disgrifiadau o'r tywydd, a hwnnw'n ddarlun na ellir ei greu gydag archifau offerynnol neu brocsi yn unig. Hyd yn oed yn y cyfnod offerynnol, gall gwybodaeth ansoddol ar ffurf hanesion, profiadau a theimladau unigolion fod cyn bwysiced â, os nad yn fwy diddorol na, ffeithiau mesuradwy. Yr ydym yn lwcus, felly, fod y tywydd wedi cael gymaint o effaith ar fywydau ein cyndadau, gan iddynt adael trysorau dogfennol o bob math i'n haddysgu am effeithiau cymdeithasol a chanfyddiadau'r genedl am y tywydd. Wrth ystyried disgrifiad Pennant o dywydd lleol Creigiau'r Eira, rhaid cofio ei fod yn dangos ei ymwybyddiaeth o lyfrau taith blaenorol. Rhaid gofyn y cwestiwn: os oedd y copaon hyn wedi eu gorchuddio ag eira yn ystod y flwyddyn gyfan yn amser Giraldus Cambrensis, a yw'r disgrifiadau gwahanol yn dynodi newid yn yr hinsawdd rhwng cyfnod Giraldus (1100au) a chyfnod Pennant (1770au), yn hytrach nag anwiredd ar ran Giraldus? Y mae'r cwestiwn yn ddrych i newid pwysig mewn meddylfryd, gan mai newid hinsawdd fyddai'r peth cyntaf i godi ym meddwl gwyddonwyr cyfoes, tra bod y cysyniad yn gwbl ddieithr i Pennant.

Cofnodion ystadau yw'r cam nesaf yn yr ymchwil gan eu bod yn ddatblygiad rhesymegol o ddyddiaduron ffermwyr unigol, a chyflawnwyd gwaith eang ar y fath ffynonellau yn Ewrop (Brázdil *et al.*, 2006b). Cedwir nifer fawr o gofnodion ystadau yn archifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn ogystal ag archifau rhanbarthol ar draws y wlad. Mewn rhai achosion, y mae dogfennau ambell ystad yn dyddio yn ôl sawl canrif. Er enghraifft, y mae papurau Ystad Carreglwyd, Ynys Môn, a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1329 ac 1864. Y mae'r math o wybodaeth sydd ar gael mewn

cofnodion ystadau unigol yn amrywio, ond gellir cynnwys gohebiaeth bersonol, biliau a chyfrifon a chofnodion fferm ynghyd â gweithredoedd eiddo a dogfennau cyfreithiol eraill. Gobeithiwn y bydd ymchwillad o gofnodion ystadau yn ffurfio asgwrn cefn rhan nesaf y prosiect. Y mae gwefan Archifau Cymru (www.archivesnetworkwales.info) yn fas data y gellir ei chwilio er mwyn dod o hyd i ffynonellau posib mewn archifau cenedlaethol a rhanbarthol. Y mae hwn yn adnodd gwerthfawr, ond y mae'n debygol bod llawer mwy o drysorau i'w canfod mewn casgliadau personol.

5. Casgliadau

Yn y papur hwn canolbwyntiwyd ar ddarganfyddiadau rhagarweiniol prosiect peilot. Dangoswyd bod deunydd sylweddol i'w gael sy'n cofnodi tywydd a hinsawdd hanesyddol Cymru. O ddadansoddi cyfnodau lle y mae cyfresi offerynnol a dogfennol yn bodoli, gwelwyd mor werthfawr yw disgrifiadau dogfennol fel arf er mwyn deall tywydd a hinsawdd y gorffennol. Hyderir hefyd y bydd hyn yn ein galluogi i ehangu'r cofnod yn gronolegol. Ymysg dadlau chwyn ynghylch newidiadau hinsoddol, gall y ffynonellau dogfennol gyfrannu gwybodaeth werthfawr o amrywiant hinsoddol cyn y cyfnod offerynnol. O ran dyfodol y cynllun, bydd doethuriaeth cyfrwng Cymraeg y prif awdur yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y papur hwn, yn ogystal ag ehangu bas data pwrpasol, sydd yn cynnwys, hyd yn hyn, dros dair mil o gofnodion sy'n rhychwantu'r canrifoedd, o'r seithfed ganrif i'r presennol. Datblygiad arall i'r dyfodol bydd ehangu'r prosiect i gwmpasu natur ymateb cymdeithasol i newidiadau mewn amodau amgylcheddol ac eithafion hinsoddol. Yn benodol, yr ydym yn bwriadu cymharu cofnodion o ardaloedd yr ucheldir a'r iseldir yng Nghymru er mwyn archwilio eu sensitifrwydd amrywiol.

Diolchiadau

Ariannwyd llawer o'r gwaith ymchwil hwn gan Brifysgol Aberystwyth trwy gyfrwng Gwobr Walter Idris i Miss Cerys Ann Jones a Gwobr Ymchwil y Brifysgol (Prifysgol Cymru, Aberystwyth) i Dr Neil Macdonald. Y mae'r gwaith ymchwil yn parhau yn noethuriaeth Cerys, o dan gynllun Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Hoffai'r awduron gydnabod cymorth Dr Rhys Jones, Hywel Griffiths a chanolwyr dienw am gynnig sylwadau gwerthfawr ar yr erthygl. Ymhellach, diolchwn i deulu Mrs Margaret Jones am ganiatáu ni i weld ei dyddiaduron ac i dynnu lluniau ohonynt. Diolchir i Helen Palmer, Prif Archifydd Archifdy Ceredigion, Aberystwyth, am y trawsysgrifiad o lythyron Llantood. A diolchir hefyd i bawb sydd wedi ein tywys at ffynonellau amrywiol ac i staff y llyfrgelloedd am eu cymorth. Daw'r wybodaeth am drwch eira o www.winter1947.co.uk.

Cais

Os ydych yn ymwybodol o unrhyw gofnodion o'r tywydd, cysylltwch â Cerys Jones (caj08@aber.ac.uk) gyda disgrifiad byr o'r ffynhonnell, ynghyd â manylion cyswllt os na chedwir hi mewn casgliad cyhoeddus. Yn ogystal, mae gwefan Llên Natur yn ceisio casglu **geiriau, cofnodion, a storïau** sy'n ymwneud â'r tywydd er mwyn creu Termiadur o eiriau meteorolegol a chofnod o hanesion am y tywydd mewn un lle sy'n agored i bawb. Croeso i chi fewnbynnu eich cyfraniad i Llên yr Hin ar www.llennatur.com/cy/node/17.

Llyfryddiaeth

Brázdil, R., Kundzewicz, Z. W., a Benito, G. (2006), 'Historical hydrology for studying flood risk in Europe', *Hydrological Sciences Journal* **51**, 739–64.

Brázdil, R., Valášek, H. a Chromá, K. (2006b), 'Documentary evidence of an economic character as a source for the study of meteorological and hydrological extremes and their impacts on human activities', *Geografiska Annaler* **88**, 79–86.

Brázdil, R., Pfister, C., Wanner, H., Storch, H. Von, a Luterbacher, J. (2005), 'Historical climatology in Europe – the state of the art', *Climate Change* **70**, 363–430.

Brooks, C. E. P., a Glasspoole, J. (1928), *British Floods and Droughts* (London: Ernest Benn Ltd).

Carmarthen Journal (17/06/1887), 'Summer Weather'.

Charnell-White, C. (2007), *Bardic Circles: National, Regional and Personal Identity in the Bardic Vision of Iolo Morganwg* (Cardiff: University of Wales Press).

Davies, J. (1994), *A History of Wales* (London: Penguin Books Ltd).

Davies J. H. (gol.) (1907–09), *The Letters of Lewis, Richard, William and John Morris of Anglesey (Morrisiaid Môn) 1728–1765* (Aberystwyth: y golygydd).

Davies, W. A. M. (1822–45), 'DIARIES' (Crosswood 117), *Diaries of Walter Davies for various periods from 1822–1845* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru: NLW 1757B).

Dawson, A., Elliot, L., Mayewski, P., Lockett, P., Noone, S., Hickey, K., Holt, T., Wahams, P. a Foster, I. (2004), 'Historical storminess and climate "see-saws" in the North Atlantic region', *Marine Geology* **210**, 247–59.

Dumville, D.N. (gol.) (2002), *Annales Cambriae, A.D. 682–954: Texts A-C in Parallel*. Basic Texts for Brittonic History 1 (Cambridge: Department of Anglo-Saxon, Norse, and Celtic, University of Cambridge).

Elias, T. (2008), *Am y Tywydd: dywediadau, rhigymau a choelion* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

Evans, H., a Davies, M. (2000), 'Fyl'na weden i': *blas ar dafodiaith canol Ceredigion* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

Fenton, R. (1917), *Tours in Wales (1804–1813)*, golygwyd gan Fisher, J. (London: Bedford Press).

Geiriadur Prifysgol Cymru (2003–) (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

G.G.S. (1913), *Castell Newydd Emlyn 8 Mai 1913*. Cardiau Post Sir Aberteifi, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llyfr Ffoto 1494. Acc. No. PE 323/461.

- Haslett, S. K. a Bryant, E.A. (2007), 'Evidence of historic high-energy wave impact (tsunami?) in North Wales, United Kingdom', *Atlantic Geology* **43**, 137–47.
- Howells, E. (2005), *Good Men and True: the lives and tales of the shepherds of mid-Wales* (Aberystwyth: Cambrian Printers).
- Hughes, K. (1973), 'The Welsh Latin Chronicles: Annales Cambriae and Related Texts' (Sir John Rhys Memorial Lecture), *Proceedings of the British Academy London* **59**, 233–58.
- Hurrell, J. W. (1995), 'Decadal trends in the North-Atlantic oscillation—regional temperatures and precipitation', *Science* **269**, 676–9.
- Hurrell, J. W., Kushnir, Y. a Visbeck, M. (2001), 'Climate—the North Atlantic oscillation', *Science* **291**, 603–5.
- Jacobeit, J., Glaser, R., Luterbacher, J., a Wanner, H. (2003), 'Links between flood events in central Europe since AD 1500 and large-scale atmospheric circulation modes', *Geophysical Research Letters* 30 (4), 1172, DOI:10.1029/2002GL016433.
- Johnston C. (1993), 'The Morris Letters', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club*, 19–38.
- Jones, A. G. (1993), *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Cardiff: University of Wales Press).
- Jones, D. J. V. (1964–7), 'Distress and Discontent in Cardiganshire, 1814–1819', *Ceredigion: Journal of the Cardiganshire Antiquarian Society* **5**, 280–9.
- Jones, H. (2007), *Bugail Olaf y Cwm* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).
- Jones, T. (1952), *Brut y Tywysogion or The Chronicles of the Princes*, Peniarth MS, 20 Version, Board of Celtic Studies of The University of Wales, History and Law Series No.II (Cardiff: University of Wales Press).
- Lamb, H. (2005), *Historic Storms of the North Sea, British Isles and Northwest Europe* (Cambridge: Cambridge University Press).
- Lloyd, N. (gol.) (1994), *Cerddi'r Ficer: Detholiad o gerddi Rhys Pritchard*. (Felindre, Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas).
- Llythron Llantood (1811–1824), Casgliad yr Amgueddfa: Llythron Llantood, Archifdy Ceredigion (1378.1978.41.20).
- Macdonald, N., Jones, C. A., Davies, S. J. a Charnell-White, C. (2010), 'Historical Weather Accounts from Wales: An Assessment of their Potential for Reconstructing Climate', *Weather*, **65** (3), 72–81.
- Macdonald, N., Phillips, I.D., a Thorpe, J. (2008), 'Reconstruction of long-term precipitation records for Edinburgh: an examination of the mechanisms responsible for temporal variations in precipitation', *Theoretical and Applied Climatology* **92**, 141–54.

- Mayes J. (2000), 'Changing regional climatic gradients in the United Kingdom', *The Geographical Journal* **515** (166), 125–38.
- Pennant, T. (1998), *Tour in Wales* (casglwyd gan Kirk, D.) (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).
- Starkel, L. (2002), 'Change in the frequency of extreme events as the indicator of climatic change in the Holocene (in fluvial systems)', *Quaternary International* **91**, 25–32.
- Symons, G.J. (1878) *British Rainfall 1877* (London).
- Welsh Gazette* (13/03/1947), 'Tunnels of Snow', *Aberystwyth Chronicle and West Wales Advertiser*.
- Wheeler, D., a Mayes, J. (1997), *Regional Climates of the British Isles* (London: Routledge).
- 'Winter 1947 in the British Isles' (Ionawr 2007) (ar-lein). Ar gael o: www.winter1947.co.uk.
- Zaring, J. (1977), 'The Romantic Face of Wales', *Annals of the Association of American Geographers* **67** (3), 397–418.

Atodiad 1: Termau Tywydd Saesneg – Cymraeg (gydag amrywiadau tafodieithol rhanbarthol)

arid	cras, sychder, sychgras	
	Aridity	crasineb, crinedd, poethwg, sychdwr
autumn	cynhaeaf, cynhaef, echwydd (wy), elfed, hydref, hyddfref, hydrew, mesyryd, syrthiad y dail	
	Autumnal equinox	Alban Elfed, cyhydedd (y) cynhaeaf, cyhydros yr hydref
	Autumn fallow	Braenar Mihanel, branar Mihanel, brynar Mihanel
	autumnal	cynaeafaidd, cynaeafol, hydrefol
	autumn wind	hydrefwynt
	wet Harvest	cynhaeaf brith
cold	Fferllyd	
dry	caledu, celffeinio, clyd, cras, crasineb, craslyd, crimstennu, crimstio, crino, di-ddwr, diddwfr, diffrwytho, dihsbydd, dyhsbydd, di-nodd, dinodd, disychu, dysychu, gogrisbin, gwyw, hyglyd, hisbydd, hysbydd, sbyngllyd, sych, sychedig, sychgola, sychiedig, sychlyd, ysbyngllyd	
	dry weather	dyddiau crinion (3 rd – 9 th May), himdda, hinda, hindda, sychin, teg
	dryness	agarwedd, hysbedd, sychder, sychdod, sychdra, syched, sychedfod, sychdwr
	dry land	crastir, daearlan, sychdir, tir coch, tir cras, tir sych
drought	gwresog, poethni, sychder, sychdod, sychdwr, syched, sychedfod, sychin	
fog / mist	caddug, ceden, crwybr, cwybr, ffasach, ffaslas, ffeg, ffòg, ffogen, gwliith, gwliith gwair, mwrl, mwrlwch, mwgdarth, mygdarth, nifwl, niwl, niwl tes, niwlach, niwliach, nudd, nywyl, rhwd sychdwr (during hot weather), smwcan, smwclaw, tarth, tarth mis Medi (during fair weather), tes y glennydd (during hot weather), ysmwcan	
	Foggy / misty	caddugaidd, cadduglyd, caddugol, ffoglyd, mwll, mwrlaidd, mwglyd, myglyd, nifwlog, nifylog, niwlog, niwliog, tarthiog, tarthlyd, tarthog,
flood (a)	aches, adlif, anlloedd, anlloeth, anllwyth, anoddun, anoddyn, bawdd, boddfa, cefnddwr, cefnfor, cefnllif, cenlli, cenllif, cyfor, diliw, dilyw, dwr mawr, dyfrlif, dyfrllif, dylad, dylif, dylifiant, ffrwd, glawddwf, glawddwr, gorddwfr, gorddwr, gorlanw, gorlif, gorlifiad, gorlifant, gorllanw, gorllif, gorllifiad, gorllifiant, gweilgi, gwylllif, høg (in river), llanw, lli, lli Awst (in August), lli Coch Awst (in August), lliant, llif, llifad, llifair, llifant, llifdeiriant, llifddwfr, llifddwr, llifeiriant, llifiad, llifiant, mordwy, rhedlif, rhuthrlif, rhyferthin, rhyferthwy(ad), trenllif, ymchwydd	
	(to) flood	boddi, dilywio, dylifo, llifeirio, llifhau
	flood-water	dwr llwyd

frost	crimprew, chwipio rhewi (to freeze hard), iâ, iaaeth, iaeth, rhew, tanr(h)ew (severe)	
	to frost	barugo, b'ruogo
	frosty	barugog, iaaeth, iaeth, llwydrewlyd, llwydrewllyd, rhewaidd, rhewin, rhewlyd, rhewllyd, rhewog, rhewol
	hoar-frost	arien, barrug, crwybr, cwybr, glasrew, gorewi, gorwydr, iâ, iaf, llwydrew, llwytra, llwytro, llytrew, Syr Barrug
	free from frost	gwresogwlyb
	Jack Frost	Jac y Rhew, Siôn Barrug
hail	cenllysg, cenllysglaw, cenllyst, cesair, ceseirlaw (mingled with rain), cesirio, cynllysg, glaw tapioca (mingled with rain)	
	hailstone	carreg genllysg, carreg gesair, cenllysg, cenllyst, censtill, cesair, cynllysg, maen cenllysg
ice	durew, iâ, rhew, rhew du (black ice on road), staen iâ (black ice on road), stania (black ice on road)	
	icicle/(s)	cloch iâ, pibonwy, pibonwyen, rhew bargod, rhewyn
	icy	durew, iaaeth, iaeth, rhewaidd, rhewlyd, rhewllyd, rhewog, rhewol
lightning (to flash)	bwrw golau, fflachiad mellten, ffleimfellt, goleuo mellt, gwreichioni mellt, llethrid, lluchedennu, lluchedu, mellfennu, mellt(i)o, melltu, saethu mellt, taflu golau, taflu tân, taranfollt(i)o	
	sheet lightning	awyrddraig, draig, planedo
	flash of lightning	goleuni, llecheden, llucheden, lluchedeniad, lluchediad, lluch(i)aden, llychetan, maen cawad, maen cawod, mellt, mellten, melltenaid, melltluched, myllt, post

rain	adlaw, cafod, cawad, cawod, cymunlaw, glaw, glawogydd	
	begin to rain	taflu dafnau
	April rain	glaw tyfu
	brew for rain	ceulo am law, clafychu
	early rain/first rain	cynharlaw, cynnar-law
	likely to rain	clafaidd
	rain drop/(s)	clych glaw, dafn, dafnau glaw, dagr, defnyn, degryn, deigr, deigrn, diferyn, glaw bras (large)
	heavy rain	arllwys (y glaw), bwrw clychau, bwrw cylyll a ffyr(s), bwrw hen wragedd a ffyn, chwiwio bwrw (with high winds), curin, curing, curlaw, curlawiog, cynnos y glaw, cyrin, diffwys, diffwyster, diwel y glaw, diwelaf, diwin, dryslaw, (yn ei) dymchwel hi, dymchwel y glaw, glaw gochel, glaw gyrru, glaw gwlychu, glaw gyrru, glaw `Stiniog (Ffestiniog), glaw taranau, glaw t`ranau, glaw trawstau, glaw tryste, glaw tyrfau, glaw tyrfe, hemo`r glaw, hirlaw, horslaw, hyrddlaw, lleigio, llyfreirlaw, pelt(i)o, pis(i)o bwrw (glaw), pistyll(i)o, pistillo, pistyllian, pistyllu, ponlaw, rhuthrlaw, rhyslaw, sgrwmp, sgrympiau codi tatws, sgrympiau Gwyl y Grog (September 14 th), sgrympiau penwaig, sioch, slasio bwrw (glaw), stid(i)o bwrw/glawio, `stylio, tatsian, tatsio, tresian bwrw (glaw), tresio, tywallt y glaw
	gentle/ drizzling rain	briwlan, briwlaw, bwrw sgipia`, chwyslaw, ffogen, ffrechan, ffrechen, ffwgen, glaw malwod, glaw mân, glaw mynydd (on highlands), glaw smwc, glaw wyn bach, gwllithen, gwllithgawad, gwllithgawod, gwllith(i) o, gwllithlaw, hogles glawio, lleith-hin (weather), lleithrin (weather), mân law, manlaw, pigach, pigan, piglaw, pigo, sgip, sgipan, sgipen, sgithen, sgrempian, sgwithin, sgwm o law, smitlaw, smwclaw, smwllach, smwllach, taflu dagrau
	abundance of rain	cawodlyd, cawodog, hidlaidd, hilaidd
	steady rain	glaw Castell-nedd (all day), glaw Cefn Sidan (heavy, all day), gwastadlaw
layer of frozen rain	glâsrew	
frozen rain	glaw iâ, glaw tapioca	
rainbow	bwa, bwa enfys, bwa`r cyfamod, bwa`r Drindod, bwa`r glaw, bwa`r hin, bwa`r wrach, bwa`r wybren, cyw drycin (partial)	
sleet	eirlaw, glaw eira, glaweir, llifeirlaw, odlaw, slap, slot eira	
	(to) sleet	Odi

snow	briwod (fine-driven), cribod (surface), cynneiry (first fall of), eira, eiraf, eiry, ffluch, ffluwch, gwyneiry, gwynneiry (white/blessed), hiffio, iffio (drifting), manod (fine-driven), nithod (fine), nyf, ôd, odi, odif, pluo, plyfio, sgimpen (light), smit eira, storum wyn bach (snow in April)	
	begin to snow	browlan eira (fine and inconsistent)
	layer of snow	caenen (thin), cynfas, ffliwchen, sgiten (thin), snoched
	snowflake	casna(d)d, casnod, clwyden o eira, ffloch, fflochen, hiff, hyff, ôd, tafell
	snowball	caseg eira, mopen, pêl eira, plu(f) eira
	snow-drift	iff, heod, llochfa, lluch, lluchfa, lluchiad, lluwch, lluwchfa, lluwchiad, lluwchyn, llywch
	rain mingled with snow	glaw eira, isgell, slwtsh (mess under foot due to melting)
spring	cyntefin, eilir, gwaeanwyn, gwanhwn, gwanwyn, sbring, ysbring	
	bad weather during spring	gaeaf y ddraenen ddu
	spring fallow	braenar gwanwyn, branar gwanwyn, brynar gwanwyn
storm	brochell, brythwch, cwthwm, cwthwn, gwthwm, gwthwn, rhyferthwy, storm, storm Awst (in August), stormen, stormi, stormio, storomo, storum Awst (in August), temest, temestl, temhestl, tempestl, temystl, timestl, ystorm, ystormo, ystormi, ystormio,	
	stormy (weather)	brochus, corwyntog, dihinedd, drycin, drycin y cyhydedd (around September 21 st) drycin y cyhydros, drycinllyd, drycinog, drycinol, dyhinedd, egr, garw, gerwiniol, gerwinol, gwyll, gwyllt, gwinnog, gwyniog, gwynnog, gwyntiog, gwyntog, hagr, hyll, hyllig, mawr, rhyferthwyol, sgethrog, sgithrog, sgythrog, slatian, storm Glanmai (beginning of May), stormlyd, stormllyd, stormus, stryllwch, taranlyd, terfysg, tranlyd, trwblaethus, trwbledig, trwblaethus, trwbliedig, trwblus, trybliedig, tryblus, temhestlog, tempestlog, tymhestlawn, tymhestlog, tymestlogrwydd, tymhestlol, tymhestlus, tyrfus, tywydd, ysgethrog, ysgithrog, ysgythrog, ystormedig, ystormlyd, ystormllyd, ystormus
	winter storm	gaeafrawd
	storm at sea	gweilgi, mordwy
	blow a storm	gorddyar, gorddyaru
	(to) brew a storm	darllaw, magu storm

summer	haf, hafgwaith, hefin	
	summery weather	gwresog, hafaidd, ha bach Isaac y Banc, ha bach yr Wyddfa, haf bach, haf bach Blaen Bache, haf bach codi tatws, haf bach Ffair Llanbedr (3 rd October), haf bach Mari Pant, haf bach (gwyl) Mihangel (around Michaelmas, 29 th September to the Old Gwyl Mihangel on 10 th October), hafol, mandes gwyl Mihangel (around Michaelmas / Indian Summer), tes Mihangel (Indian summer)
	hot summer	haf di-granc
	wet summer	Haf brith (partly dry but mostly wet)
	summer solstice	Alban Hefin, haul-orsaf (yr) haf, heuldro'r haf, heulorsaf (yr) haf, hirddydd haf
	unsummerlike	anhafaidd
	summer fallow	braenar haf, branar haf, brynar haf, hafar, hafarddu, hafra, hafru,
	Midsummer Eve (23 rd June)	Noswyl leu(w)an (hanner haf), nos wyl leu(w)an (hanner haf)
	Midsummer (24 th of June)	Calan leuan Fedyddiwr, calan haf, dyddgwyl Ifan, dygwyl Ifan, dywgwyl Ifan, gwyl leuan (Ifan) hanner (yn yr) haf, hanner haf, hirddydd haf
	beginning of summer (1 st of May)	Calan Mai, calanmai, clanmai, clamai, cyntefin (May)
sun	cannaid, kannwyll, haul, haul-wen, heul, heulwen, heulyn, huan, hyfelydd, lamp, llamp, llefer, lleufer, lleuer, llygad y dydd, llygad (y) goleuni, sol, sul	
	sunrise	codiad haul, cyfodiad haul, gwawr
	sunset	achlud(d) yr haul, caer haul, cynnu, cyrraedd ei gaearu (am yr haul), digwyddo, digwyddedigaeth, dygwyl(o), gostwng haul, gostyngiad yr haul, haddau, haddef, (myned) haul dan ei gaerau, llewenydd, llywenydd, machlad, machladiad, machliad, machlud haul, machludd, machludiad (yr) haul, machluta, machlydu, ymachlud, ymachludd, ymachluddio, ymachluddo, ymachludo
	sunless	anaraul, diaraul
	sunny	araul, arheul, braf, brwd, hafin, hefin, heulaidd, heuldeg, heuliog, heulog, heulol, heulwedd, heulwenddydd (day), heulwennog, heulwennol, hinonaid, huan, hydes, llathraidd, tesol, tesog
thunder (to)	gwneud trwst (trystau), drybowndio, drybowndian, taran, taranadu, taranu, tranu, trws, trwst, trwstian, trwstio, trybowndian, trybowndio, trystian, trystio, trysto, twrdd, twrddan, twrddanu, twrddo, twrf, twrw, tyrddan, tyrddanu, tyrddu, tyrfu	
	thunderbolt	boltt, boltt taran, bollten, carreg daran, carregtaran, maen cawod (cawad), maen mellt(en), maen taran (y daran), malltan, meltan, mylltan, taran, taranfollt
	thunder-clap	dyrnod taran, marchdaran, taran, taranad, taraniad, trawstau, trawste, trysa, tryste, tyrfau, tyrfe
	thunder and lightning	mellt a tharannau, tryste a lluched
tornado	gyrwynt, hyrddwynt, tornado, tornado, troewynt, trowynt	

wave(s)	Cesyg gwynion, defaid Dafydd Jos (waves), defaid Gwenhidwy, distrych, dylan, geirw, gwaneg, gwanegiad, gwendon, gwrym, hoywdon, llanwdon, llion, meirch Gwenhidwy, merin, mordon, môr-gaseg, môr-waneg, ton, ton lawn, tonial, toniar	
weather	amser, ardymer, ardymyr, artemper, artempr, awel, gyfin, hin, hinon, tewy, towydd tymer, tymyr, tywydd	
	fine weather (generally)	arafin, ardymer, ardymyr, artemper, artempr, calm, codi aelïau (am y tywydd) (to clear up of the weather), eglurder, ffeinhau (to become fine of weather), gweddaidd, hafaid, hindeg, hinfalch, hinon, irlwydd, llarieiddrwydd, llathraidd, meiriolin (thaw), moeldes (hot), sychgoli (to clear up of the weather),
	bad weather (generally)	afrywiog, afrywiogrwydd, afrywog, agarwedd, anardmyr, annhymherus, annhymoreiddrwydd, anserchog, breithin, caled, ceulo (brew for), drycin, drycinedd, drycinllyd, drycinog, drycinol, ecrwch, fflatio (to become dull), garw, garwindeb, garwineb, gerwindeb, gerwineb, gwinau (cloudy), gwlybaniaeth (rainy), gwlyborwch (rainy), gwlybyrwh (rainy), gwlypin (wet), gwresogwlyb, hegar, hinddrwg, hirwlyb (wet), oerni (cold), slabog, slabrog, tewy, tewy slwta, towydd, tywydd, tywydd cyfatal, tywydd ffair, tywydd grifft, tywydd mwygil, tywydd wigil (close weather)
wind	anadlwynt, anadlyn, cafod wynt, cawad wynt, cawod wynt, cwthwm, cwthwn, chwa (o) wynt, chwifflin, chwythwm, fflaw, ffugl, gwth (o) wynt, gwthwm, gwthwn, gwynnaeth, gwynt	
	cold wind	gwynt sychu stacs, gwynt sythu brain, rhewynt
	whirlwind	awel dro, cwthwn tro, chwyrllwynt, ffalm, ffalmwynt, gorwynt, gyrwynt, hyrddwynt, lluwch, toredwynt, trowynt
	windy	awelog, chwaol, chwawïog, chwawïogol, chwythlyd, ffuglog, ffuglogïog, gwnnog, gwyniarog, gwynïog, gwynnog, gwyntïog, gwyntog, gwyntol, hirwynnog (continually), sythawelog (breezy and chilly)
	strong wind	brythwch, drycwynt, drygwynt, gwyniar, gwyntoedd hydref (stormy), lleibwynt, lluchwynt, lluwchwynt, morwynt
	winter wind	gaeafwynt
	light wind / breeze	awel, awelyn, ffugl
winter	Gaeaf	
	winter solstice	Alban Arthan, byrddydd gaeaf, haul-orsaf (y) gaeaf, heuldro'r gaeaf, heulorsaf (g)aeaf
	winter fallow	braenar gaeaf, granar gaeaf, brynar gaeaf
	winter storm	gaeafrawd
	severe winter weather	hêth, iaaeth, iaeth

Addaswyd o Macdonald *et al.* (yn y wasg) a diweddarwyd â geirfa o Elias (2008) ac Evans a Davies (2000).

Dr Huw Lewis

**Y Gymraeg yn
amod cyflogaeth:
Cam derbynol o
safbwynt rhyddfrydol?**

Rhif 6 Gorffennaf 2010 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Y Gymraeg yn amod cyflogaeth: Cam derbynol o safbwynt rhyddfrydol?

Dr Huw Lewis

Cyflwyniad

Dros y degawdau diwethaf mae galwadau gwahanol lleiafrifoedd diwylliannol wedi hawlio lle amlycach ar yr agenda wleidyddol, ac yn sgil hyn gwelwyd nifer cynyddol o ymdrechion i estyn mesur o gydnabyddiaeth a chefnogaeth i grwpiau o'r fath (Kymlicka, 1995a). Un maes lle mae'r newid hwn i'w weld yn glir yw polisi iaith. Drwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hefyd am ran sylweddol o'r ugeinfed ganrif, y 'synnwyr cyffredin' oedd bod dirywiad ieithoedd o'r fath yn rhywbeth y dylid ei groesawu, neu hyd yn oed ei annog. Deilliai hyn o'r ffaith fod ieithoedd lleiafrifol yn tueddu i gael eu dehongli fel creadigaethau cyntefig a oedd yn gwbl anghyson â thueddiadau modernaid neu Ddarwinaidd yr oes (G. H. Jenkins, 1999; Jenkins a Williams, 2000). Datblygiad a chynnydd oedd y flaenoriaeth, a dim ond trwy gyfrwng rhai ieithoedd mawr y gellid cyflawni hynny. O ganlyniad, gweithred gwbl hurt ac afresymol fyddai ceisio ffrwyno a gwrthdroi dirywiad unrhyw beth a oedd yn debygol o arafu'r broses o gyflawni amcanion o'r fath (Nelde *et al.*, 1996; Williams a Morris, 2000). Fodd bynnag, yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, aethpwyd ati i herio'r rhesymeg hon, a daeth lles gwahanol ieithoedd lleiafrifol i gael ei ystyried yn bwnc na ellid ei ddiystyru.

Canlyniad y newid sylweddol hwn o ran agweddau oedd i gamau gael eu cymryd, o tua'r 1960au ymlaen, i ddatblygu rhaglenni polisi a fyddai'n anelu at geisio atal dirywiad ieithoedd lleiafrifol ac adfer eu rhagolygon. Yn wir, erbyn heddiw mae ymdrechion i adfer rhagolygon ieithoedd o'r fath i'w gweld ar waith mewn nifer helaeth o leoliadau ar draws y byd, yn arbennig felly mewn ystod o genhedloedd lleiafrifol, megis Québec (Chevrier, 1997 a 2003), Catalonia (Costa, 2003), Gwlad y Basg (Azurmendi *et al.*, 2001) a Chymru (Williams, 2000). Ymhellach, dros y blynyddoedd diwethaf mae'r arferion polisi a gysylltir â'r ymdrechion adferol hyn wedi datblygu'n fwyfwy soffistigedig ac yn fwyfwy pellgyrhaeddol o ran eu sgôp. Bellach, mae'n gyffredin i weld polisiau iaith sy'n effeithio mewn rhyw fodd ar sawl agwedd o rediad y wladwriaeth ddemocrataidd fodern, gan gynnwys y drefn gyfiawnder, y drefn addysg, y cyfryngau a'r economi.

Wrth gwrs, ni ddylai'r sylw cynyddol a roddwyd i sefyllfa grwpiau lleiafrifol gael ei ddehongli fel proses a gyfyngwyd i'r sffêr diwylliannol yn unig. Yn hytrach, dylid ei ddehongli fel rhan o symudiad cyfoes ehangach, sydd hefyd yn cwmpasu galwadau gan nifer o grwpiau cymdeithasol eraill, megis menywod, pobl hoyw a phobl anabl (Young, 1990; Parekh, 2000). Bu'r degawdau diwethaf yn gyfnod lle gwelwyd y grwpiau hyn hefyd yn ymdrefnu'n wleidyddol, gan alw am gydnabyddiaeth o'u hanghenion arbennig, ac o ganlyniad, fel yn achos lleiafrifoedd diwylliannol, mae cymdeithas wedi cymryd camau er mwyn bod yn fwy cynhwysol.

Esgorodd yr ymdrechion hyn i gyflwyno mesurau sy'n estyn cydnabyddiaeth a chefnogaeth arbennig i wahanol grwpiau lleiafrifol ar drafod ac anghydweld helaeth ymhlith athronwyr gwleidyddol, yn enwedig felly o fewn cylchoedd rhyddfrydol. Ar y naill llaw, mynnodd to newydd o athronwyr – carfan a ddisgrifir weithiau fel y rhyddfrydwyr diwylliannol – y dylai rhyddfrydwyr gefnogi ymdrechion i gydnabod anghenion ac amgylchiadau arbennig gwahanol leiafrifoedd diwylliannol. O bosib yr amlycaf a'r mwyaf cynhyrchiol o'r to newydd hwn o ryddfrydwyr yw'r athronydd o Ganada, Will Kymlicka (1989; 1995b).¹(1) Mae Kymlicka yn seilio ei ymdriniaeth o alwadau lleiafrifoedd diwylliannol ar ddwy ddadl sylfaenol: i ddechrau, dadl sy'n hawlio fod gallu person i arddel ymreolaeth unigol yn ddibynnol ar bresenoldeb cyd-destun diwylliannol sefydlog (Kymlicka, 1995b: Pennod 5); ac yn ail, dadl sy'n pwysleisio nad yw mesurau sy'n estyn cydnabyddiaeth i leiafrifoedd yn tansellio cydraddoldeb sifig ar draws y gymuned wleidyddol (Kymlicka, 1995b: Pennod 6). Ar sail dadleuon o'r fath, daw Kymlicka i'r casgliad y dylai rhyddfrydwyr gymeradwyo mesurau sy'n ymdrechu i gefnogi rhagolygon gwahanol ddiwylliannau lleiafrifol. Er enghraifft, yn y cyd-destun ieithyddol, dylai rhyddfrydwyr gymeradwyo mesurau sy'n estyn cydnabyddiaeth swyddogol i ieithoedd lleiafrifol ac sy'n sefydlu hawliau i dderbyn amrediad o wasanaethau cyhoeddus allweddol trwy gyfrwng yr ieithoedd hynny (Kymlicka, 1995b).

Ar y llaw arall, fodd bynnag, ymatebodd rhyddfrydwyr egalitariaidd trwy ddadlau y dylid gwrthwynebu ymdriniaethau aml-ddiwylliannol tebyg i un Kymlicka ar bob cyfri. Yn nhyb yr ail garfan hon, byddai dilyn argymhellion Kymlicka, gan ymdrechu i gefnogi diwylliannau lleiafrifol trwy ffurfioli gwahaniaethau oddi fewn i'r gymuned wleidyddol, yn arwain at danseilio egwyddorion rhyddfrydol sylfaenol: byddai cydraddoldeb sifig yn cael ei beryglu a byddai rhai ffyrdd o fyw yn cael eu dyrchafu ar draul eraill. Heb amheuaeth, un o ladmeryddion amlycaf y safbwynt hwn oedd yr athronydd o Sais, Brian Barry, a hawliodd yn ei gyfrol enwog, *Culture and Equality* (2001): 'multiculturalist policies are not in general well designed to advance the values of liberty and equality.' Yn hytrach, yn nhyb Barry, 'the implementation of such policies tends to mark a retreat from both' (Barry, 2001: 12).

Mae'r anghydweld cyffredinol hwn o ddiddordeb arbennig yng nghyd-destun trafodaethau ynglŷn â'r math o bolisiau a fabwysiedir fel rhan o ymdrechion i adfer rhagolygon ieithoedd lleiafrifol. Er gwaetha'r ffaith fod yr ymdrechion hyn bellach yn fywfwy cyffredin, teg yw nodi nad ydynt wastad wedi datblygu mewn amgylchiadau cwbl gytûn. Yn wir, ym mhob un o'r achosion a nodwyd uchod – Québec, Catalonia, Gwlad y Basg a Chymru – mae amryw o'r polisiau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymdrech i drawsnewid rhagolygon yr iaith lleiafrifol wedi bod yn sail i gryn anniddigrwydd ymhlith rhai rhannau o'r boblogaeth. Weithiau caiff y gwrthwynebiadau hyn eu mynegi mewn termau ymarferol. Er enghraifft, clywir yn fynych am ddadleuon sy'n cwestiynu cost dwyieithrwydd. Fodd bynnag, ar adegau eraill, caiff y gwrthwynebiadau eu mynegi mewn termau moesol, wrth i rai carfanau hawlio bod polisiau penodol, boed ym maes addysg, cyflogaeth neu gynllunio, yn tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig megis rhyddid unigol neu gyfle cyfartal.

¹ Gwnaed cyfraniadau pwysig hefyd gan ysgolheigion megis Joseph Carens (2000), Joseph Raz (1994), Jeff Spinner (1994) a Yael Tamir (1993).

Heb amheuaeth, mae hawliadau moesol o'r fath wedi brigo i'r wyneb yn gyson fel rhan o'r drafodaeth gyhoeddus ynglŷn â pholisïau iaith cynhwysfawr Québec (Chevrier, 1997 a 2003) a Chatalonia (Costa, 2003). Yn wir, yn achos Quebec, cafodd amryw o'r dadleuon moesol hyn – dadleuon sy'n cyffwrdd ar faterion megis rhyddid mynegiant a hefyd hyd a lled yr hyn y gellir ei fynnu fel mater o hawl ym maes addysg – eu hamlinellu'n fanwl yn ystod yr achosion llys niferus a ddygwyd mewn perthynas â pholisïau iaith y dalaith dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf (Supreme Court of Canada, 1984, 1988a, 1988b a 2005). Fodd bynnag, nid dim ond mewn perthynas â rhai achosion blaenllaw y codir cwestiynau ynglŷn â dilysrwydd moesol gwahanol bolisïau iaith. Mae'r un math o dueddiadau hefyd ymhlyg yn nifer o'r gwrthwynebiadau a fynegir yn achos rhai o'r polisïau a weithredir o blaid y Gymraeg yma yng Nghymru, a hynny er gwaethaf natur tipyn mwy cymedrol y polisïau hynny.

Sut ddylai rhyddfrydwyr ymateb i'r gwrthwynebiadau moesol a godir mewn perthynas ag ymdrechion i adfer ieithoedd lleiafrifol? A yw rhai o'r camau polisi ymarferol a gymerir fel rhan o ymdrechion o'r fath yn euog o fynd yn rhy bell ac o danseilio egwyddorion rhyddfrydol pwysig? Bydd yr erthygl yn ystyried y cwestiwn hwn trwy edrych yn fanwl ar un agwedd ddadleuol o'r broses o adfer iaith yma yng Nghymru: y camau a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf i godi statws y Gymraeg ym maes cyflogaeth, gan drin yr iaith fel sgil hanfodol mewn perthynas â rhai swyddi cyhoeddus. Dyma arfer sydd wedi esgor ar wrthwynebiad chwyn mewn rhai cylchoedd. Fodd bynnag, a oes sail i gredu ei fod yn arfer sy'n tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol?

Caiff y drafodaeth ei strwythuro yn y modd canlynol. Yn yr adran nesaf, amlinellir natur y datblygiadau a welwyd yng Nghymru ym maes cyflogaeth ers tua diwedd y 1980au. Bydd hyn wedyn yn arwain at drafodaeth sy'n crynhoi prif nodweddion y gwrthwynebiad a fynegwyd yn erbyn y polisi o drin y Gymraeg fel sgil hanfodol mewn perthynas â nifer o swyddi cyhoeddus: hynny yw, ei fod yn tansellio cyfle cyfartal ym maes cyflogaeth ac, yn benodol, yn tramgwyddo'r egwyddor o benodi ar sail teilyngdod. Yn dilyn hynny, eir ati i gloriannu i ba raddau y dylai gwrthwynebiad o'r fath gymell rhyddfrydwyr i wrthwynebu'r polisi, ynteu a oes modd datblygu amddiffyniad credadwy ohono oddi fewn i fframwaith ryddfrydol. I ddechrau, ystyrir i ba raddau y mae'r polisi yn un y gall rhyddfrydwyr ei gymeradwyo fel enghraifft o ragfarnu cadarnhaol: dadl a gaiff ei gwrthod. Yn dilyn hynny, ystyrir amddiffyniad rhyddfrydol arall: un sy'n mynnu nad yw'r sawl sy'n gosod gofynion ieithyddol yn tramgwyddo'r arfer o benodi ar sail teilyngdod ond, yn hytrach, yn ymestyn ychydig ar ei ystyr er mwyn ymateb i anghenion cymdeithas gynyddol ddwyieithog. Dadleuir bod hon yn ddadl lawer cryfach, ac y dylai rhyddfrydwyr, ar ei sail, fodloni o ran egwyddor i gymeradwyo polisïau cyflogaeth tebyg i'r rheini a fabwysiadwyd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith y gellir cymeradwyo'r polisïau hyn o ran egwyddor yn golygu na fyddai gan ryddfrydwyr yr un gair drwg i'w ddweud ynglŷn â hwy. Yn hytrach, fel y dadleuir yn ystod adran olaf yr erthygl, mae cyd-destun cymdeithasol gweithredu'r polisïau hyn, a'r graddau y gall y cyd-destun hwn ddylanwadu ar allu ieithyddol unigolion, hefyd yn elfen y dylid ei hystyried, ac yn y cyd-destun Cymreig, o leiaf, mae'n bosib fod hon yn elfen y mae angen ei hystyried ymhellach.

Y Gymraeg yn y Gweithle

Er gwaethaf ei gwendidau, roedd pasio Deddf Iaith 1993 yn garreg filltir bwysig o safbwynt statws y Gymraeg, gan iddi osod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i drin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau (HMSO, 1993; Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996). Wrth reswm, y newid mwyaf trawiadol a ddeilliodd o'r gorchymyn statudol hwn oedd y cynnydd sylweddol a fu yn statws gweledol y Gymraeg, trwy gyfrwng amrediad eang o arwyddion a thafenni. Serch hynny, roedd y ddeddf hefyd yn meddu ar oblygiadau pwysig i'r ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg wrth i gyrff cyhoeddus drefnu a recriwtio staff. Wedi'r cyfan, os yw corff yn bwriadu cynnig darpariaeth ystyrion o wasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd, yna mae'n hollbwysig fod hyn yn ymestyn y tu hwnt i ffurflenni ac arwyddion dwyieithog. Rhaid iddo hefyd gynnwys y gallu i ymwneud yn uniongyrchol â swyddogion perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel y noda May:

The end result envisaged for each organisation is that public-service provision through Welsh should be a natural, integral part of the planning and delivery of that service. For this to occur, a sufficient number of Welsh-speaking staff is required ... This, in turn, will require the active recruitment of Welsh-speaking staff (May, 2001: 264).

Felly, ar y lefel swyddogol o leiaf, gellir dadlau fod Deddf Iaith 1993 wedi arwain at sefyllfa lle'r oedd disgwyl i gyrff cyhoeddus roi sylw arbennig i'r gwaith o recriwtio a phenodi staff a siaradai Gymraeg.

Yn sicr, dyna yw'r awgrym wrth ddarllen y canllawiau ar gyfer llunio cynlluniau iaith a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym 1996. Wrth drafod yr angen am staff sy'n siarad Cymraeg, nodar y canllawiau hyn: 'dylai'r sefydliad, mewn modd gwrthrychol, glustnodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg yn sgil hanfodol a'r rhai lle mae'n ddymunol' (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996: 37). Yna, ychydig yn ddiweddarach fe ychwanegir:

dylai'r sefydliad ystyried y ffordd orau i gyflawni yr amcanion staffio a bennir ... Gall y dewis sydd ar gael gynnwys trosglwyddo staff sy'n siarad Cymraeg i weithleoedd neu swyddi penodol, darparu hyfforddiant dysgu Cymraeg i staff, a recriwtio siaradwyr Cymraeg i weithleoedd neu swyddi penodol (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996: 37).

Gwelir felly fod y canllawiau swyddogol a ddeilliodd o ddeddf 1993 yn disgwyl i gyrff cyhoeddus gynllunio'n fwriadus er mwyn cyrraedd sefyllfa lle'r oedd nifer o swyddi allweddol yn cael eu dal gan unigolion a oedd yn meddu ar y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.²

² Wrth i'r erthygl hon gael ei pharatoi cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y drafft cyntaf o'i mesur iaith arfaethedig. Byddai'r mesur hwn, yn ei ffurf bresennol, yn arwain at ddiddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac at drosglwyddo ei ddyletswyddau rheoleiddio i Gomisiynydd Iaith newydd. Ymhellach, byddai'r arfer o lunio cynlluniau iaith unigol yn dod i ben a safonau iaith cyffredinol yn cael eu mabwysiadu yn lle hynny. Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd beth fydd union natur y safonau hyn, na chwaith pa oblygiadau fydd iddynt o ran arferion presennol cyrff cyhoeddus mewn meysydd megis cyflogaeth (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2010). Y bwriad yw i gynigion y llywodraeth gael eu trafod mewn pwyllgorau scrwtineiddio, gyda rhai ACau yn gobeithio y byddai modd i'r mesur terfynol gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad cyn yr etholiadau nesaf ym mis Mai 2011.

O ganlyniad, dros yr un mlynedd ar bymtheg diwethaf gwelwyd cynnydd graddol yn nifer y swyddi cyhoeddus a hysbysebwyd fel rhai lle câi'r gallu i siarad Cymraeg ei ystyried fel sgil dymunol neu hanfodol (Cwmni Iaith, 2006). Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae nifer o gyrff cyhoeddus wedi bod yn amharod i ddatblygu'r math o raglenni hyfforddiant a recriwtio pellgyrhaeddol a ddisgrifiwyd uchod (Cwmni Iaith, 2006; Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2009a). Un broblem y cyfeirir ati o bryd i'w gilydd yw'r prinder siaradwyr Cymraeg sydd ar gael i lenwi rhai mathau o swyddi (Cwmni Iaith, 2006; Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2009a). Yn sicr, yn sgil sefyllfa'r Gymraeg fel iaith leiafrifol, ni ellir gwadu bod y gronfa o ymgeiswyr posib dipyn yn llai yn achos y swyddi hynny sy'n galw am y gallu i siarad yr iaith. Serch hynny, mae cyrff cyhoeddus hefyd wedi mynegi pryder ynglŷn â dilysrwydd moesol yr arfer o ofyn am sgiliau ieithyddol penodol (Cwmni Iaith, 2006; Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2009a). I raddau helaeth, mae pryder o'r fath yn ddigon dealladwy. Mae ymdrechion i ddyrchafu statws y Gymraeg ym maes cyflogaeth wedi bod yn sail i anniddigrwydd cyson ymhlith rhai carfanau. Yn wir, cafodd natur ddadleuol y pwnc ei gadarnhau mewn ymchwil o eiddo Stephen May (2000), sy'n astudio agweddau gwahanol bobl tuag at y polisïau iaith a fabwysiadwyd yng Nghymru ers y 1990au cynnar. Fel y noda May: 'In short, the idea of minority language compulsion, even within a bilingual framework, still engenders considerable opposition – particularly, with respect to employment' (May, 2000: 118).

Y Gwrthwynebiad

Eto i gyd, beth yn union ynglŷn â'r arfer hwn sydd wedi codi gwrychyn rhai pobl? A siarad yn gyffredinol, mae'r sawl sy'n wrthwynebus i'r broses o'r farn bod dynodi swyddi penodol fel rhai lle caiff y gallu i siarad Cymraeg ei ystyried fel sgil hanfodol, yn arwain at drin y sawl nad ydynt yn siarad yr iaith mewn modd annheg. Mae rhai wedi mynd mor bell ag awgrymu mai rhagfarn hiliol yn erbyn siaradwyr Saesneg sy'n cymell cyflogwyr i ymddwyn yn y fath fodd. Enghraifft enwog oedd achos *Jones v Cyngor Sir Gwynedd* (1985). Bryd hynny, dygwyd achos tribiwnlys yn erbyn y cyngor o dan Ddeddf Cysylltiadau Hil 1974. Deilliodd hyn o'r ffaith fod dwy wraig, Phyllis Jones a Justine Doyle, yn mynnu eu bod wedi dioddef rhagfarn hiliol wrth law'r cyngor, gan iddo wrthod cynnig swyddi iddynt yn rhai o gartrefi henoed y sir ar sail y ffaith nad oeddent yn siarad Cymraeg. Yn y gwrandawriad gwreiddiol, dyfarnodd y tribiwnlys cyflogaeth o blaid y ddwy, gan gadarnhau'r cyhuddiad fod Cyngor Gwynedd wedi ymddwyn tuag atynt mewn modd hiliol trwy wrthod eu cyflogi ar sail eu gallu ieithyddol. Fodd bynnag, blwyddyn yn ddiweddarach, cafodd y dyfarniad ei wrthdroi mewn achos apêl (Davies, 1994). Wrth wrthdroi'r dyfarniad gwreiddiol nododd y Barnwr Kilner Brown:

Recognising the obvious – that the Welsh are a nation and an ethnic group – the industrial tribunal concluded that the Welsh ethnic group could and should be sub-divided into two distinct sub-groups, namely, those who were described as English-speaking Welsh and those who were described as Welsh-speaking Welsh ... So, the industrial tribunal concluded that the two ladies were discriminated against by being required to become members of the first group when they were members of the second ... the decision is wholly unreasonable ... We cannot believe that, for example, a Mrs Jones from Holyhead who speaks Welsh as well as English is to be regarded as belonging to a different racial group from her dear friend, Mrs Thomas from Colwyn Bay

who speaks only English. The concept seems to us to be as artificial as the proposition that 5,000 or so spectators at Cardiff Arms Park who are fluent in Welsh are a different racial group from the 45,000 or so whose command of the Welsh tongue is limited to the rendering of the Welsh national anthem, or 'Sosban Fach'. An Englishman who dared to suggest this would be in danger of his life! (Employment Appeal Tribunal, 1986: 5).

Derbyniwyd felly nad oedd dim byd hiliol ynglŷn ag ymgais Cyngor Gwynedd i sicrhau bod y bobl hynny a weithiai i adran gwasanaethau cymdeithasol y sir yn meddu ar y gallu i siarad Cymraeg.³(3)

Fodd bynnag, hyd yn oed os derbynnir nad rhagfarn hiliol sy'n esgor ar y dyhead i ddynodi swyddi penodol fel rhai sy'n galw am y gallu i siarad Cymraeg, mae nifer yn dal o'r farn ei fod yn arfer sy'n meddu ar oblygiadau difrifol i'r syniad o degwch ym maes cyflogaeth. Yn nhyb y bobl hyn, tra nad oes unrhyw hiliaeth ar waith, mae'r arfer o osod gofynion ieithyddol ar gyfer rhai swyddi yn parhau'n annerbyniol, gan ei fod yn tansellio'r syniad o gyfle cyfartal ym maes cyflogaeth a'r arfer o benodi ar sail gallu a theilyngdod. Un a arddelai safbwynt o'r fath oedd y darlledwr profiadol Vincent Kane. Daeth hyn i'r amlwg wrth iddo drafod statws cynyddol y Gymraeg ym maes cyflogaeth yn ystod rhaglen deledu a ddarlledwyd gan BBC Wales ym 1995, fel rhan o'r gyfres materion cyfoes *Kane's Wales* (1995). Yn nhyb Kane, roedd yr ymdrechion i godi statws y Gymraeg yn y maes hwn yn prysur arwain at sefyllfa annerbyniol. Bellach, nid ar sail cystadleuaeth agored a chyfartal a oedd yn gwobrwyo gallu a theilyngdod y câi nifer o swyddi eu dosbarthu ond, yn hytrach, ar sail ystyriaethau ieithyddol artiffisial. Mynnodd fod hyn yn anfoesol – 'the morality of it should give us pause for thought' – a hefyd ei fod yn beryglus o ran safon ac effeithiolrwydd y gweithlu Cymreig:

there's an elitism built into our society that few nations in the world would tolerate. One in five can make it to the top, and the yardstick, the first condition, is not are you any good, have you anything inspirational to offer, but can you speak Welsh. Only if you can say yes to that will your ability, your experience and your ideas be scrutinised. And since the base from which the candidates emerge is so much narrower – half a million instead of three million – the spread of talent is also so much narrower. And therefore, though

³ Er gwaethaf hyn, mae ensyniadau o hiliaeth yn dal i chwarae rhan yn nadleuon rhai o'r bobl hynny sy'n wrthwynebus i'r arfer o drin y Gymraeg fel sgil hanfodol ym maes cyflogaeth. Er enghraifft, yn 1998 dygwyd achos tribiwnlys, unwaith eto o dan Ddeddf Cysylltiadau Hil 1974, yn erbyn Cyngor Ynys Môn. Roedd yr achos yn aflwyddiannus, ond roedd yr amgylchiadau a arweiniodd ato yn debyg iawn i rai achos *Jones v Gwynedd*. Mynnodd Peter Boylan ei fod wedi dioddef rhagfarn hiliol wrth law Cyngor Môn, gan iddo fethu ag ennill swydd fel swyddog ieuencid ar sail y ffaith nad oedd yn medru siarad Cymraeg (Tribunals Service, 1998). Cafwyd cadarnhad pellach o wytnwch y dadleuon hyn ynglŷn â hiliaeth yn parhau i ddylanwadu ar wrthwynebiad rhai pobl i'r arfer o drin y Gymraeg fel sgil hanfodol ym maes cyflogaeth. Fel y nodi May, yn achos rhai o'r bobl a gafodd eu cyfweld ganddo, 'it was viewed as at best discriminatory and at worst racist' (May, 2000: 121). Am drafodaeth fanylach ynglŷn a chyhuddiadau o hiliaeth mewn perthynas ag ymgyrchoedd iaith yng Nghymru, ac yn benodol sut mae gwahanol garfanau gwleidyddol wedi defnyddio cyhuddiadau o'r fath i dansellio ymgyrchoedd o blaid y Gymraeg, gweler Brooks (2006).

I do not deny that there are able, gifted Welsh speakers in high places, the likelihood of the person appointed being anything from mediocre to useless is that much greater (Kane's Wales, 1995).

Heb amheuaeth, roedd elfen sylweddol o ormodiaeth yn perthyn i'r dadleuon hyn o eiddo Kane. Wedi'r cyfan, cymedrol fu'r newidiadau a welwyd ym maes cyflogaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, yn groes i'r hyn a awgryma Kane, nid yw'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried fel sgil hanfodol yn achos y mwyafrif helaeth o swyddi cyhoeddus. Yn sicr, ni cheir dim tebyg i'r math o 'elitaeth strwythurol' y cyfeiriodd ato. Fodd bynnag, hyd yn oed os gellir casglu nad yw'r pwyslais ar sgiliau iaith o fewn y farchnad lafur Gymreig yn ddim byd tebyg i'r hyn a ddisgrifiwyd gan Kane, mae'r cyhuddiad sylfaenol a wneir ganddo – bod gosod gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi penodol yn tansellio cyfle cyfartal a'r arfer o benodi ar sail teilyngdod – yn un difrifol sy'n galw am ystyriaeth bellach.

Yn sicr, mae'r cyhuddiad yn un a fyddai'n hawlio sylw rhyddfrydwyr. Wedi'r cyfan, fel y noda David Miller, 'The principle of equality of opportunity stands at the very heart of contemporary liberalism' (Miller, 2002: 45). Golyga hyn fod Miller, ynghyd â rhyddfrydwyr eraill, o'r farn y dylai cymdeithas ryddfrydol fod yn un sy'n ceisio sicrhau fod pob aelod unigol yn meddu ar yr un cyfle i ddatblygu ac i gyflawni eu hamcanion. Wrth reswm, mae hon yn egwyddor arbennig o berthnasol ym maes cyflogaeth – un sy'n gwbl allweddol i ragolygon yr unigolyn (Miller, 1999: 157). Yn y maes hwn ceir amrywiaeth eang o safleoedd sydd oll yn amrywio o ran eu grym, eu dylanwad a'u gwobrwyon ariannol. Eto i gyd, ni all pawb ddal yr un swyddi; rhaid dewis rhwng amrediad o ymgeiswyr posib. O ganlyniad, cred rhyddfrydwyr fod tegwch yn dibynnu ar sicrhau fod pawb yn medru cystadlu am wahanol safleoedd ar seiliau cyfartal. Fel y noda Miller: 'Given that there are scarce goods such as well-paid careers and places at top universities – scarce in the sense that more people want to have these goods than there are goods to go round – equality of opportunity obtains when people can compete for the goods on equal terms' (Miller, 2002: 45).

Wrth gwrs, er mwyn sicrhau cystadleuaeth gyfartal o'r fath rhaid sicrhau fod pawb yn medru ymgeisio a bod neb yn cael ei atal yn sgil rhagfarnu agored, er enghraifft ar sail dosbarth, hil, rhyw neu grefydd. O ganlyniad, mae'r egwyddor o recriwtio a phenodi ar sail gallu a theilyngdod wedi datblygu i fod yn ganolog i ddealltwriaeth rhyddfrydwyr o'r hyn sy'n cynnal tegwch a chydaddoldeb mewn meysydd megis cyflogaeth. Yn ôl yr egwyddor hon, dylai swyddi gael eu dosbarthu i'r sawl sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau gorau, a hynny mewn modd sy'n trin pawb yn ddiwahân, heb unrhyw ystyriaeth o'u cefndir cymdeithasol neu ddiwylliannol. Fel yr eglura Miller:

The end result envisaged for each organisation is that public-service provision through Welsh should be a natural, integral part of the planning and delivery of that service. For this to occur, a sufficient number of Welsh-speaking staff is required ... This, in turn, will require the active recruitment of Welsh-speaking staff (May, 2001: 264). According to a widely held view, when there are a number of applicants for an available job, justice demands that the job be offered to the best-qualified applicant. We express this by saying that the

best-qualified applicant deserves the job or, in a slightly different formulation, that the principle involved is one of hiring by merit. This is the principle that condemns discrimination on grounds of sex, race, or religion when hiring employees as well, of course, as good old-fashioned nepotism (Miller, 1999: 156).

I raddau helaeth, felly, gellid dadlau mai mynegiant penodol o'r egwyddor o gyfle cyfartal yw'r arfer o benodi ar sail teilyngdod: arfer sydd wedi treiddio'n ddwfn i isymwybod cymdeithasau rhyddfrydol-ddemocrataidd. O ganlyniad, os yw'r broses o ddynodi nifer cynyddol o swyddi fel rhai lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol yn un sydd yn wir yn arwain at dansellio egwyddorion o'r fath, oni ddylai rhyddfrydwyr gasglu fod y broses yn un annerbyniol o safbwynt moesol?

Rhagfarnu Cadarnhaol

Wrth gwrs, nid yw cwestiynau o'r math hwn yn rhai cwbl newydd i ryddfrydwyr. Dros y deugain mlynedd diwethaf, daeth y syniad o gynnwys ystyriaeth o gefndiroedd cymdeithasol a diwylliannol fel rhan o'r broses o ddsbarthu swyddi yn fwyfwy cyffredin yn sgil y twf a fu mewn rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol. Dyma bolisïau a ddatblygwyd er mwyn ceisio sicrhau lle mewn meysydd allweddol, megis addysg a'r economi, i aelodau o grwpiau cymdeithasol gwan a gafodd, yn draddodiadol, eu hatal rhag cyfranogi'n llawn. Yn raddol, daeth yn fwyfwy amlwg nad oedd modd sicrhau tegwch a chyfle cyfartal i aelodau grwpiau o'r fath dim ond trwy gyfrwng mesurau a oedd yn gwahardd rhagfarnu agored ac uniongyrchol. Er mor bwysig oedd y cam i wahardd rhagfarnu agored, dadleuwyd fod angen gwneud mwy er mwyn dad-wneud effaith y rhwystrau hynny a oedd wedi ffrwyno datblygiad rhai pobl, weithiau am genedlaethau. Cafodd y teimladau hyn eu crynhoi yn effeithiol ym 1965 gan Arlywydd America, Lyndon B. Johnson:

You do not take a person who for years has been hobbled by chains and liberate him, bring him up to the starting line of a race and then say, "You're free to compete with all the others," and still justly believe that you have been completely fair ... it is not enough just to open the gates of opportunity. All our citizens must have the ability to walk through those gates (dyfynnwyd yn Cahn, 2002: xii).

Yn fuan wedi'r datganiad hwn cyflwynodd Johnson orchymyn gweithredol (Gorchymyn 11246) a oedd yn galw ar gyrff ffederal i lunio rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol a fyddai'n anelu at sicrhau cyfranogiad llawnach gan ferched a grwpiau lleiafrifol eraill. Dylai hyn gynnwys 'an analysis of areas within which the contractor is deficient in the utilization of minority groups and women, and further, goals and timetables to which the contractor's good faith efforts must be directed to correct the deficiencies' (dyfynnwyd yn Cahn, 2002: xii). Y gobaiith oedd y byddai gweithredu rhaglenni o'r fath yn cyfrannu at ddad-wneud effeithiau seicolegol a strwythurol blynyddoedd o ragfarnu, ac yn arwain at sefyllfa lle gellid sôn am gyfle cyfartal ystyrlon.

Wrth reswm, roedd y broses o ddatblygu a chyflwyno rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol, yn America a thu hwnt, yn un ddadleuol, yn arbennig felly i ryddfrydwyr. Trwy fabwysiadu rhaglenni o'r fath roedd cyrff yn camu i ffrwd o'r syniad traddodiadol o benodi ar sail

teilyngdod heb unrhyw ystyriaeth o gefndir cymdeithasol a diwylliannol. Yn wir, fel y noda Iris Marion Young, mae rhagfarnu cadarnhaol yn galw am roi ystyriaeth benodol i nodweddion o'r fath: 'They call for consciously and explicitly preferring members of particular groups on account of their group membership' (Young, 1990: 197). O ganlyniad, nid yw'n syndod fod rhai rhyddfrydwyr wedi dewis gwrthwynebu datblygiadau o'r fath. Er hyn, mae amryw o ryddfrydwyr eraill wedi derbyn bod rhagfarnu cadarnhaol mewn meysydd megis addysg a chyflogaeth yn hanfodol er mwyn dad-wneud effeithiau blynyddoedd o ragfarn strwythurol. Dadleuwyd bod mynd trwy broses o'r fath, er yr anawsterau, yn hanfodol er mwyn cyrraedd sefyllfa lle gellir sôn am gyfle cyfartal gwirioneddol. Er enghraifft, ceir dadl gref o blaid rhagfarnu cadarnhaol gan Ronald Dworkin (2002). Yn yr erthygl hon mae Dworkin yn beirniadu'r rhyddfrydwyr hynny sy'n amharod i ymgyrchu er lles cydraddoldeb ystyrion, gan lynu yn hytrach at y syniad traddodiadol o gystadleuaeth sy'n ddall i wahaniaethau cymdeithasol a diwylliannol. Mae'n datgan: 'If we must choose between a society that is in fact liberal and an illiberal society that scrupulously avoids formal racial criteria, we can hardly appeal to the ideals of liberal pluralism to prefer the latter' (Dworkin, 2002: 105).⁴(4)

Eto i gyd, i ba raddau y dylai trafodaethau rhyddfrydwyr megis Dworkin ynglŷn â rhagfarnu cadarnhaol ddylanwadu ar ein dehongliad o ddilysrwydd rhyddfrydol y polisiau hynny a fabwysiadwyd o blaid y Gymraeg ym maes cyflogaeth? I ba raddau y gellir dehongli'r polisiau hyn fel enghraifft o ragfarnu cadarnhaol? A fyddai eu dehongli yn y fath fodd yn cynnig dull rhyddfrydol o'u dilysu yn wyneb gwrthwynebiadau tebyg i'r rhai o eiddo Kane a nodwyd uchod? Fel yr eglurwyd, amcan rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol yw sicrhau lle mewn meysydd allweddol, megis addysg a'r economi, i aelodau o grwpiau gwan a gafodd, yn draddodiadol, eu hatal rhag cyfranogi'n llawn yn sgil rhagfarn strwythurol. A yw'r rhain yn amgylchiadau a wynebwyd gan siaradwyr Cymraeg hefyd? Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, dylid nodi bod y ganran o siaradwyr Cymraeg sy'n bresennol mewn rhai meysydd gwaith allweddol yn go isel. Er enghraifft, yn 2008 dim ond tua 13 y cant o wasanaeth sifil Llywodraeth y Cynulliad oedd yn meddu ar y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).⁵(5) Er hyn, anodd fyddai defnyddio manylion o'r fath fel sail i ddadlau fod siaradwyr Cymraeg wedi dioddef o ragfarn strwythurol ym maes cyflogaeth yn yr un modd â merched neu bobl groenddu.

⁴ Mae rhai o ladmeryddion rhyddfrydol rhagfarnu cadarnhaol yn ddigon parod i gydnabod fod gweithredu rhaglenni o'r fath yn medru arwain at gwestiynau anodd. Gweler, enghraifft, Kymlicka (2001:196-9) a Beauchamp (2002: 213-4). Mae'r cwestiynau a godir gan yr awduron hyn yn cynnwys y canlynol. Ai rhagfarnu cadarnhaol yw'r dull gorau bob tro o sicrhau tegwch i leiafrifoedd mewn meysydd megis cyflogaeth neu addysg? A yw'r polisiau a fabwysedir wastad yn helpu'r sawl sydd wir mewn angen? A ydynt weithiau yn medru arwain at roi hwb i unigolion sydd eisoes mewn safle cymharol freintiedig? A yw aelodau o un grwp (dynion gwyn fel arfer) weithiau yn talu pris rhy uchel yn sgil gweithredu'r polisiau hyn? Mae'r rhain oll yn gwestiynau dilys. Fodd bynnag, cwestiynau ymarferol ydynt mewn gwirionedd - hynny yw cwestiynau ynglŷn â'r dull mwyaf priodol i ddefnyddio rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol, yn hytrach na chwestiynau ynglŷn â dilysrwydd yr egwyddor sylfaenol. Nid yw'r cwestiynau a godir gan Kymlicka neu Beauchamp yn arwain at wrthod y syniad o gynnig cymorth arbennig i grwpiau gwan. Yn hytrach, holi a wneir pa fath o gymorth sydd ei angen.

⁵ O ran maes gweinyddiaeth gyhoeddus yn gyffredinol, dangosodd ymchwil gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn dilyn Cyfrifiad 2001 mai tua 20 y cant o'r gweithlu gwrywaidd a tua 17 y cant o'r gweithlu benywaidd sy'n siarad Cymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2001).

Wedi'r cyfan, prin iawn yw'r achosion o bobl yn methu ag ennill swyddi ar sail y ffaith eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

Hyd yn oed pe bai modd llunio achos cryf sy'n tystio i ragfarnu strwythurol yn erbyn siaradwyr Cymraeg, a bod hyn wedi arwain at dangynrychioli sylweddol mewn meysydd allweddol o fewn yr economi, yr hyn sy'n arwyddocaol yw nad mewn termau o'r fath y caiff y polisiau sy'n galw am wybodaeth o'r Gymraeg eu cyflwyno na'u hamddiffyn (gweler, er enghraifft, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996: 36–42; Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1999: 17). Pan ystyrir y dadleuon o blaid y polisiau hyn, gwelir nad sicrhau cyfranogiad gan siaradwyr Cymraeg fel grŵp penodol sydd wedi dioddef rhagfarn ym maes cyflogaeth yw'r nod. Yn hytrach, y nod yw sicrhau gweithlu sy'n meddu ar y gallu i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Nid yw union gefndir diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolion sy'n cyflawni'r swyddi hyn yn arbennig o bwysig; nid oes unrhyw bwyslais yn cael ei roi ar yr angen i gyflogi pobl sydd wedi'u geni a'u magu yn siarad Cymraeg. Yn hytrach, yr unig beth sy'n bwysig yw eu bod, ar adeg eu penodi, yn meddu ar y gallu i gyflawni eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, nid fel enghraifft o ragfarnu cadarnhaol o blaid siaradwyr Cymraeg y dylid cloriannu'r polisiau hyn.

Ymestyn Ystyr Teilyngdod

Os na ellir eu trin fel enghraifft o ragfarnu cadarnhaol o blaid siaradwyr Cymraeg, yna a oes modd amddiffyn polisiau o'r fath rhag y cyhuddiad eu bod yn tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol megis cyfle cyfartal a'r arfer o benodi ar sail teilyngdod? Fel y noda Young (1990), anodd yw gwadu fod rhagfarnu cadarnhaol yn arwain at lastwreiddio ychydig ar y pwyslais traddodiadol o recriwtio a phenodi ar sail teilyngdod a dim arall. Fodd bynnag, yr hyn sy'n arwyddocaol ynglŷn â'r dadleuon a ddefnyddir gan y Cymry hynny sydd o blaid gosod gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi penodol yw'r ffaith eu bod yn mynnu nad oes bwriad o gwbl ganddynt i gamu i ffwrdd o'r arfer o benodi ar sail teilyngdod. Yn hytrach, dadleuir mai'r oll a wneir wrth ddynodi rhai swyddi fel rhai lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yw ymestyn ychydig ar ystyr teilyngdod. Dadleuir fod Cymru'n gymdeithas ddwyieithog, lle dylai amrediad eang o wasanaethau fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Wrth reswm, bydd cyflawni hyn mewn modd ystyrlon yn galw am weithlu sydd â'r gallu i ymwneud â'r cyhoedd trwy gyfrwng y ddwy iaith. O ganlyniad, dadleuir y dylai'r gallu i siarad Cymraeg gael ei ystyried fel sgil cwbl allweddol mewn perthynas â nifer helaeth o swyddi. Er enghraifft, noda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei ganllawiau i gyrff cyhoeddus, 'dylent (cyrff cyhoeddus) drin sgiliau ieithyddol mewn modd tebyg i unrhyw sgiliau eraill sydd eu hangen yn y gweithle' (1996: 37). Ychwanegir ychydig yn hwyrach, 'Mae'r angen i gysylltu sgiliau ieithyddol â rhai swyddi yn adlewyrchu realiti bod yn gyflogwr sy'n amcanu at geisio cyflwyno gwasanaethau o safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg' (1996: 39; gweler hefyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005). Eto i gyd, a ddylai'r ymdrech hon i ymestyn ystyr teilyngdod gael ei hystyried fel cam derbyniol o safbwynt moesol? A yw'n deg ymestyn y cysyniad i gynnwys sgiliau sydd ond ym meddiant un rhan o'r boblogaeth? Onid yw hynny yn arwain at roi'r sawl nad yw'n siarad Cymraeg mewn sefyllfa annheg?

Mae'n bwysig cofio nad yw cynnal cyfle cyfartal ym maes cyflogaeth yn ddibynnol ar drefnu pob swydd dan haul mewn modd lle gallwn fod yn sicr y bydd pob unigolyn yn medru cystadlu amdanynt (Barry, 2001: 55). Fel y noda David Miller, does neb yn meddu ar yr *haw!* i gyflawni pa bynnag swydd y dymuna: 'There is no such thing as a right to have a particular opportunity open to one – say, the opportunity to work in one particular job' (Miller, 2002: 57). Yn hytrach, derbynnir fod gofynion penodol, ac weithiau rhai go bellgyrhaeddol, yn gysylltiedig â phob swydd. Yn wir, fel y noda Glyn Williams (1988, 1994) mae hyn yn rhan anochel o'r broses o broffesiynoli. Ym mhob achos, bydd rhai pobl yn meddu ar y sgiliau perthnasol tra bod eraill ddim. A siarad yn gyffredinol, nid ydym yn teimlo bod y rhai sydd ar eu colled mewn achos o'r fath yn dioddef unrhyw anghyfiawnder sylfaenol, cyhyd ag y bo'r bobl hyn heb gael eu rhwystro rhag datblygu'r sgiliau perthnasol yn y lle cyntaf.⁶(6)

O ystyried hyn felly, mewn gwlad fel Cymru, lle caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu mewn mwy nag un iaith, onid yw'n gwbl briodol fod yr amrediad o sgiliau a ystyrir, wrth i gyflogwyr ddiffinio ystyr teilyngdod, yn cynnwys dimensiwn ieithyddol. Fel y noda Wilson McLeod:

if public policy suggests that citizens should be able to use their autochthonous language in dealing with government, it is necessary, and justifiable, to allow government to employ a reasonable number of persons to meet those citizens' needs. Indeed, it would undermine such a policy if only a token number of employees were available, so that attempts to exercise the right to use the autochthonous language were slow, frustrating or fruitless (McLeod, 1998).

Nid rhyw ychwanegiad mympwyol mo'r dimensiwn ieithyddol chwaith. Yn hytrach, mewn nifer helaeth o feysydd – ystyrier, er enghraifft, y gwasanaethau gofal ac iechyd – gall y gallu i siarad iaith fod yn sgil allweddol sy'n galluogi'r unigolyn i gyfathrebu'n glir gan gyflawni'r swydd i safon foddhaol. O ystyried hyn, dylai rhyddfrydwyr gydnabod nad oes dim byd annerbyniol, o safbwynt moesol, ynglŷn â'r broses o ddynodi nifer cynyddol o swyddi fel rhai lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol.

Yn wir, dylid pwysleisio fod gofynion ieithyddol *de facto* eisoes yn perthyn i bob swydd yng Nghymru, nid dim ond y rhai hynny sy'n galw am wybodaeth o'r Gymraeg (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1999). Cyfeirio a wneir, wrth gwrs, at y swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Saesneg yn gwbl hanfodol. Anaml y ceir datganiad swyddogol sy'n nodi gofynion o'r fath wrth hysbysebu swyddi ond, serch hynny, go brin y câi rhywun ei gyflogi yng Nghymru heddiw heb feddu ar y gallu i siarad Saesneg. Felly, os yw pobl megis Vincent Kane am ddadlau fod gosod gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi penodol yn broses annheg, sy'n tanseilio cyfle cyfartal ac yn ymwrthod â'r arfer o benodi ar sail teilyngdod, rhaid iddynt egluro pam fod gofynion o'r fath yn annerbyniol mewn perthynas â'r Gymraeg tra'n dderbyniol yn achos y Saesneg.

⁶ Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â'r graddau y mae pawb yng Nghymru yn meddu ar gyfleoedd teg i ddysgu'r Gymraeg. Dychwelaf at y pwynt pwysig yma yn y man.

Arwyddocâd Amgylchiadau Cefndirol

Fodd bynnag, cyn bodloni ar gasgliadau'r adran uchod, dylid rhoi sylw i'r effaith y gall amgylchiadau cefndirol eu cael ar allu ieithyddol gwahanol unigolion. Wrth drafod cyfle cyfartal a'r syniad o deilyngdod mewn meysydd megis cyflogaeth, mae rhyddfrydwyr yn amrywio o ran y pwyslais a roddir ar arwyddocâd amgylchiadau cefndirol gwahanol unigolion. Wrth gwrs, mae rhyddfrydwyr egalitariaidd yn tueddu i ddadlau fod ein hamgylchiadau cefndirol yn arbennig o bwysig: bod ffactorau megis y cyfoeth a etifeddir, natur yr addysg a dderbyniwyd, neu amgylchiadau magwraeth yn sicr o ddylanwadu ar allu unigolion i gystadlu a llwyddo (Rawls, 1971). O ganlyniad, er mwyn sicrhau fod pawb yn meddu ar gyfle cyfartal ystyrion, dadleuir y dylid ymdrechu i gyfyngu cymaint â phosib ar effaith amgylchiadau cefndirol ar ragolygon gwahanol unigolion. Er enghraifft, yn achos addysg mae Stuart White (2002: 62) yn nodi, 'For equality of opportunity it is necessary to structure education systems so that children with the same ability and motivation – let us say the same 'potential' – have equal prospects of developing their ability, of realizing their potential.' Eto i gyd, beth yn union yw goblygiadau'r drafodaeth gyffredinol hon ynglŷn â chydardoddeb amgylchiadau cefndirol i'r drafodaeth bresennol ynglŷn â gofynion ieithyddol mewn maes megis cyflogaeth?

Uchod, wrth amddiffyn yr ymgais i ymestyn ystyr teilyngdod i gynnwys dimensiwn ieithyddol, dadleuwyd nad oes dim sy'n arbennig o annerbyniol ynglŷn â nodi bod rhai swyddi'n galw am sgiliau sydd ond ym meddiant rhai aelodau o'r gymdeithas. Nodwyd bod hyn, ar y cyfan, yn gam teg, cyhyd ag y bo'r rheini sydd ar eu colled heb gael eu hatal rhag datblygu'r sgiliau perthnasol. Eto i gyd, i ba raddau y gellir dadlau mai dyma yw'r sefyllfa yng Nghymru mewn perthynas â sgiliau iaith? A yw pawb sy'n cystadlu am swyddi wedi cael cyfle teg i ddysgu'r Gymraeg? Ynteu, a yw amgylchiadau cefndirol rhai pobl wedi'u hatal trwy wneud y dasg o ddysgu'r iaith yn un arbennig o anodd?

Ystyrier, i ddechrau, beth yw'r sefyllfa mewn perthynas â magwraeth. Wrth reswm, nid pawb yng Nghymru sydd wedi'u magu mewn amgylchiadau lle caiff y Gymraeg ei defnyddio a'i chlywed. Felly, nid yw'r bobl hyn yn cael y cyfle i ddysgu'r iaith yn naturiol, fel y caiff y rhai sy'n cael eu magu mewn amgylchiadau lle siaredir y Gymraeg. O ganlyniad, ar sail magwraeth – un o'r ffactorau cefndirol hynny a drafodir gan ryddfrydwyr – gellid dadlau fod rhai pobl yn meddu ar fantais dros eraill o ran y cyfle sydd ganddynt i ddysgu Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n bosib na fyddai'r fantais hon yn meddu ar unrhyw arwyddocâd, pe bai'r drefn addysg – un arall o'r ffactorau cefndirol y cyfeirir ati – yn cyfrannu at unioni'r sefyllfa.

Heb os, gwelwyd newidiadau sylweddol yn natur ieithyddol y drefn addysg yng Nghymru dros y trigain mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd twf aruthrol, ar y lefel cynradd ac uwchradd, yn y ddarpariaeth o addysg Gymraeg a dwyieithog (Williams, 2002). Yn ogystal, ers pasio Deddf Addysg 1988, cafodd y Gymraeg ei dysgu fel pwnc penodol hyd yn oed yn yr ysgolion hynny sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg. O ganlyniad, nid oes amheuaeth fod y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg wedi ehangu'n sylweddol. Yn wir, caiff hyn ei bwysleisio gan y ffaith fod cynifer o blant o gefndiroedd di-Gymraeg nawr yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg (Williams, 2002). O ystyried hyn, i ba raddau y gall y Cymry hynny sy'n cyrraedd y farchnad lafur heb fedru siarad

yr iaith ddadlau eu bod dan anfantais pan fo rhai swyddi yn galw'n benodol am y gallu hwnnw?

Yn y cyswllt hwn, mae'n werth nodi pwynt diddorol a wnaed gan David Miller (2002). Wrth drafod y dehongliad rhyddfrydol o gyfle cyfartal, mynnodd Miller na all unigolion honni eu bod yn dioddef o annhegwch a diffyg cyfle os yw'r anawsterau sy'n eu llethu yn deillio, nid o amgylchiadau cefndirol anffafriol, ond yn hytrach o benderfyniadau cynt o'u heiddo hwy:

a person's opportunities have to be judged at some suitably chosen starting point, since each decision that is made to avail oneself of an opportunity, or not to do so, is likely to affect the opportunity set at a later point. For example, a person who decides to leave school at sixteen cannot later complain that she was denied the opportunity to go to university, if by staying on at school she could have achieved that goal ... The liberal ideal, then, is that *initial* opportunity sets should be equal, not necessarily opportunity sets at some later time when choices have already been made (Miller, 2002: 47, pwyslais yn y gwreiddiol).

Felly, o drosi'r ddadl hon i faes cyflogaeth, gwelir na allaf ddadlau fod fy nghyfleoedd yn cael eu cyfyngu mewn modd annheg, os yw'r ffaith nad wyf yn meddu ar set o sgiliau allweddol – ieithyddol, cyfrifiadurol a.y.b. – ac felly'n methu ymgeisio am swyddi sy'n fy niddori, yn deillio o ddim mwy na methiant ar fy rhan i fy hun i fanteisio ar gyfleoedd i'w datblygu.⁷(7) Ond, a ellid defnyddio'r ddadl hon mewn perthynas â'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg? A ellid casglu nad oes ganddynt sail i gwyno gan fod gan bawb gyfle digonol i ddysgu'r iaith bellach yn sgil y datblygiadau sylweddol a fu ym maes addysg?

Ar y cyfan, ni fyddai hynny'n gwbl deg. I ddechrau, rhaid cofio nad ni ein hunain, ond ein rhieni, sydd, fel arfer, yn dewis natur yr addysg a dderbyniwn. O ganlyniad, pan fo plentyn o gefndir di-Gymraeg yn digwydd mynychu ysgol Saesneg, ac felly'n colli'r cyfle i ddysgu'r Gymraeg yn rhugl, nid ef fel unigolyn sydd wedi dewis hynny ac felly ni ellir dweud yn bendant ei fod wedi gwrthod y cyfle. Ar ben hynny, ac efallai'n bwysicach, er y bu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth o addysg Gymraeg, erys tyllau sylweddol yn y ddarpariaeth honno (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009b). Er enghraifft, clywir yn bur fynych nad yw'r ddarpariaeth a gynigir gan amryw o awdurdodau lleol yn cyfateb i'r galw amdano (Rhieni Dros Addysg Gymraeg, 2007: 2–3). O ganlyniad, anodd fyddai dadlau fod pob plentyn yng Nghymru yn meddu ar gyfle teg i ddysgu'r Gymraeg ac i ddatblygu eu gafael ohoni i lefel a fyddai'n caniatáu iddynt ei defnyddio yn y gweithle. At ei gilydd felly, mae'n amheus a gellid casglu fod dadl Miller ynglŷn â gwrthod cyfleoedd yn sefyll yn y cyswllt hwn. Ond beth, felly, yw oblygiadau casgliad o'r fath? A yw'n golygu bod rhaid derbyn bod yr holl syniad o osod gofynion ieithyddol ym maes cyflogaeth yn annerbyniol?

Nid yw'r problemau a drafodwyd uchod ynglŷn ag effaith amgylchiadau cefndirol ar sgiliau iaith unigolion yn golygu bod yn rhaid casglu fod gofynion ieithyddol ym maes

⁷ Wrth gwrs, er mwyn i'r ddadl hon sefyll, rhaid i'r cyfleoedd hynny i ddatblygu gwahanol sgiliau fod yn rhai realistig.

cyflogaeth, o'u hanfod, yn annerbyniol. Fel y dadleuwyd eisoes, mewn gwlad fel Cymru, lle yr amcenir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn mwy nag un iaith, mae'n gwbl briodol fod yr amrediad o sgiliau a ystyrir yn berthnasol yn achos rhai swyddi yn cynnwys dimensiwn ieithyddol. Nid yw hyn yn tansellio egwyddorion rhyddfrydol megis yr egwyddor o benodi ar sail teilyngdod. Yn hytrach, mae'r cyflogwr yn estyn ychydig ar ystyr teilyngdod er mwyn ymateb i ofynion cymdeithas gynyddol ddwyieithog.

Fodd bynnag, wrth gymryd cam o'r fath, yn enwedig mewn maes pwysig megis cyflogaeth, rhaid sicrhau fod y cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau perthnasol yn cael eu dosbarthu mewn modd sydd mor deg â phosib. Hynny yw, tra bod y polisi o ddynodi swyddi penodol fel rhai sy'n galw am y gallu i siarad Cymraeg yn un derbyniol o ran egwyddor, ni ddylai gael ei weithredu mewn modd sy'n caniatáu i rai ennill mantais, tra bo eraill yn wynebu rhwystrau yn sgil amgylchiadau cefndirol sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Fel y dadleua Rawls (1971), ni ddylai cyfleoedd bywyd gwahanol unigolyn gael eu cyfyngu gan amgylchiadau o'r fath. Yn achos y Gymraeg fe welwyd ei bod yn anochel y bydd magwraeth rhai pobl yn rhoi mantais iddynt dros eraill, gan na fydd pawb yn cael eu magu mewn amgylchiadau lle caiff y Gymraeg ei defnyddio. O ystyried hyn mae'n hollbwysig, o safbwynt cyfiawnder, fod y drefn addysg, yn arbennig, yn cyfrannu at unioni'r sefyllfa. Yr awgrym ar hyn o bryd, fodd bynnag, yw nad yw hynny'n digwydd mewn modd effeithiol iawn. I raddau helaeth, tra bo'r amrediad o swyddi lle gelwir am wybodaeth o'r Gymraeg yn parhau'n gymharol gyfyng, nid yw effaith y gwendid hwn mor ddifrifol â hynny. Serch hynny, os bydd ymgais rhywdro yn y dyfodol i ddyfnhau ymhellach ar statws y Gymraeg yn y gweithle, yna dylid edrych o ddiifri ar y sefyllfa.⁸(8) Wrth reswm, nid oes lle yma i fanylu ar beth fyddai hyn yn ei olygu'n ymarferol. Fodd bynnag, yn y termau mwyaf cyffredinol, rhagwelaf y dylai arwain at gymryd camau breision sydd â'r nod o ddarparu cyfle real i bob plentyn feistrol'r Gymraeg yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol.⁹(9)

Casgliadau

Yn ystod yr erthygl hon, dangoswyd ei bod yn bosib llunio dadl ryddfrydol sy'n cymeradwyo'r broses o osod gofynion ieithyddol ar gyfer amrediad o swyddi cyhoeddus. Er gwaethaf amryw o wrthwynebiadau, nid yw mesurau o'r fath yn rhai sy'n gwahaniaethu mewn modd annheg, ac nid ydynt, o ran egwyddor, yn tansellio gwerthoedd normadol pwysig megis cyfle cyfartal a'r arfer o benodi ar sail teilyngdod. O ganlyniad, ni ddylai rhyddfrydwyr gondemnio polisiâu tebyg i'r rhai a weithredwyd yn raddol yng Nghymru dros y deg i bymtheg mlynedd diwethaf. Er hynny, nid yw'r ffaith y gellir cymeradwyo'r polisiâu hyn o ran egwyddor yn golygu na fyddai gan ryddfrydwyr yr un gair drwg i'w ddweud ynglŷn â hwy. Yn hytrach, fel y dangoswyd yn ystod rhan olaf yr erthygl, mae'r cyd-destun lle caiff y polisiâu hyn eu rhoi ar waith, a'r graddau y mae'r cyd-destun hwn yn cyfrannu at

⁸ Yr awgrym yw bod hwn yn faes lle mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dymuno gweld datblygiadau pellach. Gweler, er enghraifft, Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008, 2009a, 2009c).

⁹ Diddorol fydd gweld i ba raddau y bydd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) yn llwyddo i sicrhau hyn. Cyhoeddwyd y strategaeth hon wrth i'r erthygl gael ei chwblhau.

ganiatáu i rai ennill mantais annheg dros eraill, hefyd yn elfen y dylid ei hystyried, ac yn y cyd-destun Cymreig, o leiaf, mae'n bosib y bydd hon yn elfen y bydd yn rhaid ei hystyried ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Llyfryddiaeth

Barry, B. (2001), *Culture and Equality* (Cambridge: Polity Press).

Beauchamp, T. L. (2002), 'In Favour of Affirmative Action', yn Cahn, S. M. (gol.), *The Affirmative Action Debate* (London: Routledge), ff. 209–23.

Brooks, S. (2006), 'The Idioms of Race: The 'Racist Nationalist'', yn 'Wales as Bogeyman', yn Chapman, R. (gol.), *Idiom of Dissent* (Llandysul: Gwasg Gomer), ff. 139–65.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996), *Cynlluniau Iaith Gymraeg: Eu Paratoi a'u Cymeradwyo yn Unol â Deddf Iaith Gymraeg 1993* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2005), *Cynllun Iaith Gymraeg – Cyngor Sir Gâr: Ymchwiliad o dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Ar gael o: www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/cymraeg/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/3437.pdf (Cyrchwyd 28 Ebrill 2010).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008), *Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog: Dogfen Ymgynghorol* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2009a), *Recrwio a'r Iaith Gymraeg: Cyngor o dan Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2009b), *Mesur y Galw am Addysg Gymraeg: Dogfen Arferion Da* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2009c), *Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010), Gohebiaeth breifat parthed dadansoddiad gan yr ystadegydd Dr Hywel Jones, o ganlyniadau Cyfrifiad 2001 (T39). Ebyst dyddiedig Ebrill 21 a 30.

Cahn, S. M. (2002), 'Introduction', yn Cahn, S. M. (gol.), *The Affirmative Action Debate* (London: Routledge), ff. xi-xiv.

Carens, J. H. (2000), *Culture, Citizenship and Community: A Contextual Exploration of Justice as Evenhandedness* (Oxford: Oxford University Press).

Chevrier, M. (1997), *Laws and Language in Québec: The Principles and Means of Québec's Language Policy* (Québec: Gouvernement du Québec, Ministère des Relations Internationales).

- Chevrier, M. (2003). 'A Language Policy for a Language in Exile', yn Larrivée, P. (gol.), *Linguistic Conflict and Language Laws: Understanding the Québec Case* (London, Palgrave Macmillan), ff. 118–61.
- Costa, J. (2003), 'Catalan Linguistic Policy: Liberal or Illiberal?', *Nations and Nationalism*, 9 (3), 413–32.
- Cwmni Iaith (2006), *Cynllunio a Rheoli Sgiliau Dwyieithog: Astudiaeth ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg* (Castellnewydd Emlyn: Cwmni Iaith).
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (1999), *Dwyieithrwydd Gweithredol* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010), *Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)*. Ar gael o: www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-wl.htm (Cyrchwyd 7 Mawrth 2010).
- Davies, G. P. (1994) 'Yr Iaith Gymraeg a Deddfwriaeth', yn Williams, Rh. H., Williams, H. a Davies, E. (goln), *Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), ff. 41–73.
- Dworkin, R. (2002), 'Bakke's Case: Are Quotas Unfair?', yn Cahn, S. M. (gol.), *The Affirmative Action Debate* (London: Routledge), ff. 103–12.
- Employment Appeal Tribunal (1986), *Gwynedd County Council v Jones*, EAT 554/85.
- HMSO (1993), *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* (London: HMSO).
- Jenkins, G. H. (1999), 'Cymru, Cymry a'r Gymraeg: Rhagymadrodd', yn Jenkins, G. H. (gol.), *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd 1801–1911* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), ff. 1–34.
- Jenkins, G. H. a Williams, M. A. (2000), 'Hynt yr Iaith Gymraeg 1900 – 2000: Rhagymadrodd', yn Jenkins, G. H. a Williams, M. A. (goln), *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), ff. 1–26.
- Kane's Wales* (1995) (Rhaglen Deledu), BBC1 Wales, 12 Tachwedd 1995.
- Kymlicka, W. (1989), *Liberalism, Community and Culture* (Oxford: Oxford University Press).
- Kymlicka, W. (1995a), 'Introduction', yn Kymlicka, W. (gol.), *The Rights of Minority Cultures* (Oxford: Oxford University Press), ff. 1–27.
- Kymlicka, W. (1995b), *Multicultural Citizenship: A Liberal Theory of Minority Rights* (Oxford: Oxford University Press).
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008), *Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2007-08* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

- May, S. (2000), 'Accommodating and Resisting Minority Language Policy: The Case of Wales', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 3 (2), 101–28.
- May, S. (2001), *Language and Minority Rights: Ethnicity, Nationalism and the Politics of Language* (New York: Longman).
- Miller, D. (1999), *Principles of Social Justice* (Cambridge, Massachusetts: Harvard University Press).
- Miller, D. (2002), 'Liberalism, Equal Opportunities and Cultural Commitments', yn Kelly, P. (gol.), *Multiculturalism Reconsidered* (Cambridge: Polity Press), tt. 45–61.
- McLeod, W. (1998), 'Autochthonous Language Communities and the Race Relations Act', *Web Journal of Current Legal Issues*. Ar gael o: www.webjcli.ncl.ac.uk/1998/issue1/mcleoad.html (Cyrchwyd 9 Hydref 2009).
- Nelde, P., Strubell, M. a Williams, G. (1996), *Euromosaic: The Production and Reproduction of the Minority Language Groups in the European Union* (Luxembourg: Office for Official Publications of the European Communities).
- Parekh, B. (2000), *Rethinking Multiculturalism: Cultural Diversity and Political Theory* (London: Macmillan).
- Rawls, J. (1971), *A Theory of Justice* (Oxford: Oxford University Press).
- Raz, J. (1994), 'Multiculturalism: A Liberal Perspective', *Dissent*, Gaeaf, 67–79.
- Rhieni Dros Addysg Gymraeg (2007), *Maniffesto ar Gyfer Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007* (Casnewydd: RHAG).
- Spinner, J. (1994), *The Boundaries of Citizenship: Race, Ethnicity and Nationality in the Liberal State* (Baltimore: Johns Hopkins University Press).
- Supreme Court of Canada (1984), *Attorney General of Québec v Quebec Protestant School Boards*.
- Supreme Court of Canada (1988a), *Ford v Attorney General of Québec*.
- Supreme Court of Canada (1988b), *Forget v Attorney General of Québec*.
- Supreme Court of Canada (2005), *Gosselin v Attorney General of Québec*.
- Tamir, Y. (1993), *Liberal Nationalism* (Princeton: Princeton University Press).
- Tribunals Service: Employment (1998), *Boylan v Isle of Anglesey County Council*. Case No: 2900883/97.
- White, S. (2007), *Equality* (Cambridge: Polity Press).

Williams, C. H. (2000), 'On Recognition, Resolution and Revitalization', yn Williams, C. H. (gol.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), ff. 1–47.

Williams, G. (1988), 'Discourse on Language and Ethnicity', yn Coupland, N. (gol.), *Styles of Discourse* (London: Croom Helm), ff. 254–92.

Williams, G. (1994). 'Discourse on 'Nation' and 'Race': A Response to Denney et al', *Contemporary Wales*, 6, 87-103.

Williams, G. a Morris, D. (2000), *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Cardiff: University of Wales Press).

Williams, I. W. (gol.) (2002), *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939–2000* (Talybont: Y Lolfa).

Young, I. M. (1990), *Justice and the Politics of Difference* (Princeton University Press: Princeton).

Cyfranwyr

Rhian Siân Hodges

Darlithydd Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor yw Rhian Siân Hodges.

Magwyd Rhian ym Margod, sir Gaerffili, a mynychodd Ysgol Gynradd Gilfach Fargod ac yna Ysgol Gyfun Cwm Rhymni cyn graddio mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor yn 2005. Ar ôl graddio, fe gwblhaodd M.A Ymchwil Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol ym Mangor, a theitl ei thraethawd hir oedd, 'Cymoedd y De: Defnydd o'r Gymraeg ar ôl Cyfnod Ysgol?:- Astudiaeth o bobl ifanc yng Nghwm Rhymni'.

Cyhoeddwyd canlyniadau'r traethawd hir hwn yng nghyfnodolyn 'Contemporary Wales', Medi 2009 o dan y benawd, 'Welsh Language Use Among Young People in the Rhymney Valley'. Datblygodd addysg cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd di-Gymraeg felly yn bwnc arbenigol iddi. Newydd gwblhau astudiaeth Ph.D mae'r awdur yn dwyn y teitl, 'Tua'r Goleuni: Addysg Gymraeg yng Nghwm Rhymni - rhesymau rhieni dros ddewis addysg Gymraeg i'w plant'. Tros olwg o brif resymau a chymhelliannau sampl o rieni detholedig Cwm Rhymni a geir o fewn y papur hwn.

Cerys Jones

Mae Cerys Ann Jones yn fyfyrwraig doethuriaeth yn Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth, o dan nawdd hael Cynllun Ysgoloriaethau'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Teitl ei doethuriaeth yw 'Adlunio hinsawdd Cymru o ffynonellau dogfennol hanesyddol'.

Cafodd ei geni a'i magu yn Llanybydder, gan dderbyn ei haddysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan, cyn graddio mewn Daearyddiaeth a Mathemateg ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth.

Mae ei diddordebau ymchwil ar y ffin rhwng daearyddiaeth amgylcheddol a hanesyddol gan ystyried sut mae dogfennau hanesyddol yn medru cael eu defnyddio i adlunio newid hinsawdd o'r cyfnod cyn-offerynnol ac asesu'r effeithiau cymdeithasol.

Huw Lewis

Enillodd Huw Lewis ei ddoethuriaeth ym mis Mai 2009 yn dilyn cyflwyno traethawd ymchwil a oedd yn dwyn y teitl 'Rhyddfrydiaeth ac Adferiad Iaith'.

Bellach mae'n gweithio fel darlithydd yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth.

Mae ei ddiddordebau dysgu ac ymchwil yn cynnwys: athroniaeth wleidyddol normadol; cenedlaetholdeb ac amlddiwyllianedd; polisi iaith; a gwleidyddiaeth Cymru.

Rhif 6 Gorffennaf 2010 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261



9 1771741 426008